Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-15

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-15

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Gorchymynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2015.

HC132

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2015**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid cael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn Legal Aid Agency, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ.

ISBN Argraffu 9781474120555
ISBN y We 9781474120562
ID 01061511 06/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Datganiad y Prif Weithredwr** | 1 |
| **Adroddiad strategol** | 5 |
| **Am yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol** | 6 |
| **Amgylcheddol, cymdeithasol, cymunedol a hawliau dynol** | 13 |
| **Ein blwyddyn yn fanwl** | 15 |
| Ein cyflawniadau yn 2014-15 | 15 |
| Ein perfformiad ar sail ein tri amcan strategol, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a cherrig milltir | 16 |
| Sylwadau ar reolaeth | 23 |
| **Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol** | 26 |
| Cyflawni ein Rhaglenni Newid | 26 |
| Gwella ein ffordd o ryngweithio â'n darparwyr | 26 |
| Gwneud yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn lle gwell i weithio | 26 |
| **Adroddiadau ariannol** | 28 |

# Datganiad y Prif Weithredwr

# Datganiad y Prif Weithredwr



Dyma ail Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA). Rydym wedi parhau â'n cynnydd cynnar mewn sefydliad sy'n un yr wyf yn falch iawn o barhau i'w arwain. Mae hwn yn sefydliad sy'n hybu ac yn gwerthfawrogi ei bobl ac rydym yn ceisio cynnwys yr egni y mae hynny'n ei greu yn ein ffordd o weithio gyda darparwyr a'r system gyfiawnder gyffredinol.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein tri Amcan Strategol (SO). Ein nod yw sicrhau gwerth am arian, gwella perfformiad a dod o hyd i ffyrdd newydd a mwy effeithiol o weithio yn y byd digidol sydd ohoni. Mae ein sefydliad wedi gwneud cynnydd sylweddol ac rydym yn parhau i symud ymlaen yn y meysydd hyn.

**SO1: Gwella gwaith achos i leihau cost, gwella rheolaeth a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid**

Yn gyffredinol, mae biliau a cheisiadau'n cael eu prosesu'n gyflymach nag erioed. Mae'r lefelau gwasanaeth cwsmeriaid wedi gwella ac mae ein lefelau o ran gwrthod biliau ac amseroedd aros cyn ateb galwadau'n isel.

Rhoesom y System Rheoli Cleientiaid a Chostau (CCMS) ar waith ar gyfer achosion sifil newydd yn 2014.

Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio gyda staff a darparwyr i sicrhau bod gwelliannau i'r CCMS yn rhan o'r rhaglen o welliannau rheolaidd. Mae'r system i'w gwneud yn orfodol ar 1 Hydref 2015.

O ganlyniad i'n Rhaglen Newid Trosedd (CCP) mae e-Ffurflenni wedi'u cyflwyno'n raddol ar gyfer ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol. Mewn rhanbarthau lle mae e-Ffurflenni wedi'u cyflwyno, mae 63% o geisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu gwneud ar-lein bellach. Mae'r newid hwn yn ein dull o weithio wedi digwydd ochr yn ochr ag ymgymryd â chyfrifoldeb dros brosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol oddi wrth Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM). Mae hyn wedi cynnwys llawer o waith mewn partneriaeth ac mae hyn wedi ein helpu i gadw'r rhaglen ar y trywydd cywir.

Mae'r gwaith hwn wedi gorgyffwrdd â'r gwaith ehangach o gyflwyno gweithio digidol yn y system cyfiawnder troseddol ac mae'n cael ei gyflawni drwy raglenni effeithlonrwydd a Phlatfform Cyffredin y System Cyfiawnder Troseddol (CJS). Gwaith cymhleth yw hwn, ond bydd yn creu system gyfiawnder sy'n fwy effeithiol ac effeithlon drwy reoli achosion yn well a lleihau oedi a dyblygu. Mae'n gwneud gwybodaeth yn haws ei chyrraedd ac yn fwy tryloyw. Mae hefyd yn hybu ffyrdd mwy modern a hyblyg o weithio gan arbed costau hefyd.

**SO2: Gwella gallu'r sefydliad i gwrdd â'r heriau sydd o'i flaen, gan gynnwys datblygu ac ymgysylltu â'n pobl**

Mae ein staff yn parhau i ddangos eu bod yn chwarae rhan bwysig yng ngwaith yr Asiantaeth. Nhw yw ein hased mwyaf ac maent yn gweithio drwy ddiwylliant sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac sy'n gadarnhaol, yn gynhwysol ac yn eangfrydig. Rydym am eu gweld yn gwireddu eu potensial i'r graddau mwyaf posibl ac rydym

wedi lansio rhaglen dysgu a datblygu ar gyfer ein rheolwyr i sicrhau eu bod yn cael pob cyfle i lwyddo.

Rydym wedi cychwyn menter Trawsnewid y Gweithle wedi'i seilio ar agenda The Way We Work (TW3) Swyddfa'r Cabinet. Mae hyn wedi bod yn fodd i ystyried nifer o opsiynau ar gyfer ysgogi ein staff, gwella technoleg a gweithio'n fwy hyblyg. Mae'r fenter wedi cyflwyno amrywiaeth o newidiadau ar nifer o safleoedd gyda'r bwriad o drawsnewid ein ffordd o weithio. Cawsom rai canlyniadau calonogol a gwelwyd mwy o ymgysylltu gan staff ar ein safleoedd peilot. Mantais ychwanegol i'r fenter yw ei bod yn ein helpu i ddefnyddio'r lle yn ein swyddfeydd yn fwy effeithlon ac i arbed arian.

Rydym hefyd wedi llwyddo i hyrwyddo gwerthoedd gweithio a chydweithredu rhwng timau o fewn y sefydliad. Crëwyd egni cadarnhaol o ganlyniad i hyn sy'n bwysig iawn yn fy marn i ac yn helpu i hybu arloesedd yn yr LAA.

**SO3: Meithrin a chynnal partneriaethau cryf i sicrhau darpariaeth o ansawdd da a chyfrannu'n llawn at gyflawni nodau ehangach ym maes cyfiawnder a Llywodraeth**

Rydym yn rhan o deulu mwy yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) ac rydym yn gweithio'n galed i feddwl am ein rôl yng nghyd-destun amrywiaeth fawr o swyddogaethau, o fewn yr Adran ac ar draws Whitehall. Er enghraifft, mae menter fel rhaglen effeithlonrwydd y CJS yn dod â llawer o wahanol gyfranwyr at ei gilydd, gan gynnwys GLlTEM, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a'r LAA.

Rydym wedi paratoi ein cyfrifon yn gynharach nag erioed o'r blaen ac mae'r ffaith bod y dyfarniad arnynt yn ddiamod yn dangos eto fod yr LAA yn tyfu'n fwy cadarn. Sefydliad bywiog yw hwn sydd â hanes da o stiwardiaeth dros arian cyhoeddus.

Mae'r gwelliant yn ein lefelau perfformiad, ein hymrwymiad i brosesau gweithio digidol a'n gwasanaeth gwell i gwsmeriaid i gyd yn ein helpu i fynd â'r maen i'r wal fel sefydliad.

Rydym yn benderfynol o hyd o barhau i gryfhau ein perthnasoedd allanol. Mae hyn yn cynnwys darparwyr a'r cyrff sy'n eu cynrychioli. Mae'r perthnasoedd hyn yn bwysig i'n datblygiad ac mae angen i ni sicrhau eu bod yn parhau'n rhan o'n patrymau gwaith. Mae ein perthnasoedd yn neilltuol o bwysig wrth i ni ddatblygu a mireinio prosesau newydd.

Rwyf yn gweld yr LAA yn sefydliad blaengar sy'n croesawu'r newidiadau a'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i bob un ohonom drwy ffyrdd newydd o weithio a gwell prosesau. Mae hyn yn cyfrannu at yr ymagwedd gadarnhaol yr ydym yn ei chyfleu y tu allan i'r sefydliad.

Mae hynny'n fanteisiol i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, y tu mewn a'r tu allan i'r LAA. Felly hoffwn ddiolch i'n holl staff am eu gwaith caled, a hefyd i holl aelodau Bwrdd yr LAA am eu cefnogaeth, goruchwyliaeth ac arweiniad i'r hyn sydd o hyd yn Asiantaeth Weithredol ifanc iawn.



**Matthew Coats**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r
Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
5 Mehefin 2015

# Adroddiad strategol

# Am yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Mae'r bennod hon yn ymdrin â phwrpas yr LAA, ei darparwyr a'i phobl.

## Ein pwrpas

Ein pwrpas yw darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac effeithiol fel rhan o'r system gyfiawnder. Rydym yn cydweithio'n agos â darparwyr cyfreithiol a'r MoJ ehangach i weinyddu cymorth cyfreithiol. Mae ein gwaith yn hanfodol i sicrhau bod y systemau cyfiawnder sifil, teulu a throseddol yn gweithredu'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae ein pwrpas yn rhan ganolog o'n holl benderfyniadau o ddydd i ddydd ac o'n gwaith i drawsnewid gwasanaethau cymorth cyfreithiol, ac mae ymroddiad ac ymrwymiad ein staff yn hollbwysig.

Mae ein pwrpas wedi'i ategu gan ein tri Amcan Strategol sydd wedi aros yn ddigyfnewid dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae rhagor o fanylion am ein Hamcanion Strategol ar dudalen 17.

## Ein sefydliad

Mae'r LAA yn gweinyddu cymorth cyfreithiol ledled Cymru a Lloegr.

Ein gwaith craidd yw:

- Prosesu ceisiadau a thalu biliau am gymorth cyfreithiol;
- datblygu, tendro a dyfarnu contractau newydd;
- darparu cynrychiolaeth annibynnol i amddiffyn diffynyddion troseddol.

Mae'r holl waith hwn yn cael ei gynnal gan:

- Swyddogaeth Rheoli Achosion sy'n asesu ac yn prosesu'r holl geisiadau a biliau ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol;
- tîm Comisiynu a Strategaeth sy'n cynllunio, yn datblygu ac yn dyfarnu contractau ac yn cyfrannu at gynllunio polisi. Mae'r tîm hefyd yn cynnwys rheolwyr contractau sy'n cydweithio'n agos â'n darparwyr ledled Cymru a Lloegr;
- cyfarwyddiaeth Cyllid a Pherfformiad sy'n gweinyddu ac yn sicrhau cywirdeb taliadau am gymorth cyfreithiol, ac yn ein galluogi i gwrdd â'n gofynion statudol am reoli arian;
- cyfarwyddiaeth Newid Busnes a ToG sy'n ein helpu i gyflawni rhaglenni newid allweddol a'r newid i ryngweithio digidol;
- Canolfan Gorfforaethol sy'n hyrwyddo cyfathrebu effeithiol ac yn ein galluogi i gwrdd â'n gofynion statudol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data.

Mae gwaith yr LAA yn cael ei rannu'n fras rhwng y prif feysydd canlynol:

### Cymorth Cyfreithiol Sifil

Mae Cymorth Cyfreithiol Sifil ar gael ar gyfer achosion sy'n ymwneud â bywyd, rhyddid, diogelwch corfforol a digartrefedd yr unigolyn. Caiff ei ddarparu drwy gyngor cyfreithiol, cyfryngu teuluol a chynrychiolaeth mewn llysoedd a rhai tribiwnlysoedd. Mae hyn yn bosibl lle mae hawlwyr yn bodloni'r prawf "modd" a "theilyngdod" ac mae ar gael ar gyfer gwahanol gategorïau fel tai, iechyd meddwl, dyled, teulu, ac addysg.

Mae Cymorth Cyfreithiol Sifil yn cynnwys cyfreithwyr, bargyfreithwyr, cyfryngwyr, ac asiantaethau cynghori o dan gontract sy'n darparu cyngor cyfreithiol sifil a theulu. Yn ogystal â hyn mae Cymorth Cyfreithiol Sifil yn darparu llinell

gynghori genedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n cynnwys gwasanaethau dros y ffôn ac ar y rhyngrwyd.

### Cymorth Cyfreithiol Troseddol

Mae Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn cynnwys cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i bobl sy'n destun ymchwiliad neu gyhuddiad am drosedd. Rhoddir cymorth cyfreithiol yn yr holl achosion troseddol lle mae'r hawlydd yn bodloni'r prawf cymhwysedd perthnasol, heblaw am gyngor cyfreithiol mewn gorsafoedd heddlu. Mae Cyngor Cyfreithiol Troseddol yn cynnwys cynlluniau cyfreithiwr ar ddyletswydd ar gyfer gorsafoedd heddlu a llysoedd ynadon, sy'n sicrhau bod y rheini sydd ag angen cyngor a chynrychiolaeth yn gallu gweld cyfreithiwr. Mae'r LAA yn comisiynu cymorth cyfreithiol gan ddarparwyr ar gyfer cynghori mewn gorsafoedd heddlu, cynrychiolaeth mewn llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron drwy Gynlluniau Ffioedd Graddedig Cyfreithwyr ac Adfocadau (LGFS/AGFS), yn ogystal â chontractio'n uniongyrchol â darparwyr drwy'r tîm Achosion Costau Uchel. Mae'r LAA hefyd yn ariannu achosion cymorth cyfreithiol yn y llysoedd uwch fel y Llys Apêl a Goruchaf Lys y DU. Mae'r Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS) yn darparu gwasanaethau amddiffyn troseddol yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

### Y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS)

Sefydlwyd y PDS yn 2001 ac mae'n darparu gwasanaeth amddiffyn troseddol yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae'n cwmpasu pob math o waith troseddol mewn gorsafoedd heddlu, llysoedd ynadon a Llys y Goron. Mae cynrychiolaeth ar gael i'r rheini sydd wedi'u harestio neu wedi ymbresenoli'n wirfoddol mewn gorsaf heddlu bob awr o'r dydd a'r nos, saith diwrnod yr wythnos. Mae'r PDS yn gweithredu o swyddfeydd yn Darlington, Cheltenham, Pontypridd ac Abertawe ac mae ei ganolfan gorfforaethol yng Nghaerdydd.

Yn 2014 gwnaethom greu Uned Eiriolaeth arbenigol. Mae'r uned yn cynnwys 24 o fargyfreithwyr ac Adfocadau Llysoedd Uwch a saith o Gwnsleriaid y Frenhines.

### Gweinyddu'r LAA

Mae'r costau am weinyddu'r cynlluniau cymorth cyfreithiol yn cynnwys:

- Costau gweithwyr yr LAA a chostau cysylltiedig â staff;
- costau'r ystad;
- gwariant wedi'i ad-dalu i GLlTEM am brosesu cymorth cyfreithiol troseddol ar ran yr LAA;
- costau ToG;
- ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol;
- postio, hyfforddi, teithio a meysydd gwariant eraill sy'n angenrheidiol er mwyn gweinyddu'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol yn effeithiol.

### Cronfeydd Canolog

Mae gwariant y Cronfeydd Canolog yn digwydd o dan delerau Deddf Erlyn Troseddau 1985, pan yw diffynyddion a gafodd ryddfarn sydd wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol ac wedyn wedi ariannu eu cynrychiolaeth gyfreithiol yn breifat, ac erlynwyr preifat, yn gallu cael gorchymyn gan Lys y Goron, mewn amgylchiadau penodedig, i gael eu costau.

## Ymgysylltu yng Nghymru

Mae'r LAA yn cynnal cysylltiadau agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ddangos ei chydnabyddiaeth o'r weinyddiaeth ddatganoledig. Mae hyn yn cynnwys gwaith uniongyrchol gyda grwpiau rhanddeiliaid, er enghraifft, y Byrddau

Cyfiawnder Troseddol a Theulu yng Nghymru, yn ogystal â rhanddeiliaid penodol yng Nghymru sy'n cynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru a Shelter Cymru.

## Gwasanaethau a Rennir

Gan ein bod yn rhan o deulu ehangach yr MoJ, rydym yn defnyddio nifer o swyddogaethau canolog y Weinyddiaeth gan gynnwys:

- Adnoddau dynol;
- caffael;
- gwasanaethau technoleg a digidol;
- swyddogaethau dadansoddi;
- cyngor cyfreithiol;
- ystadau.

## Ein pobl

Mae ein pobl yn chwarae rhan ganolog wrth ddarparu cymorth cyfreithiol yn effeithiol ac effeithlon. Rydym yn parhau i ymdrechu i wneud yr LAA yn lle gwell i weithio.

Rydym yn gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Buddsoddi yng ngalluogrwydd a sgiliau ein pobl;
- gwneud rhagor i hyrwyddo gweithio cydweithredol;
- gwella'r amgylchedd gweithio;
- cyfathrebu'n well.

Drwy gydol 2014-15 roeddem wedi lansio nifer o fentrau a rhaglenni i helpu ein staff, a oedd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgu a datblygu gan gynnwys:

- Mae cyfleoedd cysgodi gwaith ar gael i'r holl staff sydd am gael profiad o weithio mewn timau eraill. Gallant dreulio diwrnod neu wythnos gyda thimau eraill, ac mae cyfle hefyd i staff gysgodi mewn adrannau Llywodraeth eraill;
- rhwydwaith o arweinwyr sy'n cynnig hyfforddi a mentora staff. Roeddem hefyd wedi lansio'r rhaglenni arweinyddiaeth ar gyfer staff ym mandiau A a B;
- rheolwyr sy'n parhau i gymell ein staff i fanteisio ar yr isafswm o bum niwrnod o ddysgu sydd ar gael iddynt bob blwyddyn. Trefnwyd cyfres o Weithdai Rheoli Gyrfa i helpu cydweithwyr i ddeall Fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil, drwy droi eu tasgau pob dydd yn enghreifftiau ar gyfer ffurflenni cais, a thargedu profiadau yn y gweithle er mwyn hyrwyddo eu gyrfa.

### Arolwg o Staff

Yn 2014, am yr ail flwyddyn yn olynol, roedd 89% o staff wedi cymryd rhan yn yr arolwg blynyddol ar gyfer ymgysylltu â staff. Roedd ein mynegrif cyffredinol ar gyfer ymgysylltu wedi codi pump y cant i 65% ac roeddem wedi symud i'r 17eg safle ar draws y Gwasanaeth Sifil cyfan. Rydym yn un o'r deg uchaf o blith sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil mewn pedwar o'r naw thema sydd yn yr arolwg, sef Arweinyddiaeth a Newid (5ed), Fy Nhîm i (6ed), Dysgu a Datblygu (9fed) a Thâl a Buddion (9fed).

## Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth

### Galluogrwydd

Yn ystod 2014-15 mae'r LAA wedi canolbwyntio ar fuddsoddi yn sgiliau ei staff drwy greu rhaglenni newydd i wella sgiliau a hyrwyddo'r defnydd o Dysgu'r Gwasanaeth Sifil (CSL). Mae CSL yn borth ar-lein sydd ar gael i'r holl staff. Mae'n darparu cyrsiau ac adnoddau i feithrin sgiliau sy'n

gyffredin i holl Weision Sifil y DU yn holl rolau'r Gwasanaeth Sifil. Mae holl staff yr LAA yn cael eu hannog i ddefnyddio'r lleiafswm o bum niwrnod o ddysgu sydd ar gael iddynt bob blwyddyn. Gellir cymryd y lleiafswm o bum niwrnod dysgu drwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys cysgodi, gweithdai a chyrsiau CSL.

### Rhaglen Ddatblygu

Yn 2014-15 creodd yr LAA ddwy raglen i fuddsoddi yn arweinwyr y dyfodol. Mae'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth i reolwyr canol ac uwch-reolwyr wedi bod yn rhedeg ers mis Medi 2014 ac mae'n darparu dull manwl o ddatblygu arweinyddiaeth ar gyfer grŵp o 25 o uwch arweinwyr uchelgeisiol. Mae'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd hyfforddi pwrpasol i gyfranogwyr i wella eu sgiliau arweinyddiaeth yn ogystal â dosbarthiadau meistr ar agweddau allweddol ar arweinyddiaeth, a mentora a chefnogaeth un i un ar arweinyddiaeth.

Mae'r LAA hefyd wedi creu a lansio Rhaglen Sgiliau Rheoli ar gyfer yr holl reolwyr sydd â'r amcan o wella sgiliau rheolwyr, eu helpu i ysbrydoli eu timau, a'u paratoi ar gyfer rheoli yn ystod cyfnod o newid. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyfres o fodiwlau, gyda chymysgedd o weithdai wyneb yn wyneb, e-Ddysgu a dosbarthiadau meistr sy'n addas i wahanol arddulliau dysgu.

Ceir manylion am aelodaeth ein tîm rheoli yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 46.

## Trawsnewid y gweithle

Drwy gydol 2014-15 rydym wedi treialu a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio i roi mwy o ddewis i bobl ynghylch ble a pha bryd y maent yn gweithio. Roedd hyn yn cynnwys y treialu llwyddiannus ar y Prosiect Ysgogiad Cynhenid yng Nghaerdydd, a oedd yn dileu targedau amser ar gyfer unigolion ac yn eu cyfeirio at nod cyffredinol y gwaith. Roedd y prosiect peilot yn dangos bod y tîm yn gallu creu amgylchedd lle mae gan bobl fwy o ymdeimlad o ymreolaeth, ymddiriedaeth a rheolaeth ar eu gwaith sy'n arwain at gynhyrchiant uwch a mwy o ymgysylltu gan dimau. Ar ôl y prosiect peilot yng Nghaerdydd, treialwyd y dull ysgogiad cynhenid yn y swyddfa ranbarthol ym Mryste. .

Yn ogystal â hyn, mae'r LAA yn gweithredu'r fenter TW3 sy'n rhedeg ar draws Llywodraeth i drawsnewid ein ffordd o weithio, gan droi oddi wrth y syniad ystrydebol bod gwaith yn rhywbeth i'w gyflawni wrth ddesg yn un o adeiladau'r Llywodraeth at y syniad o gyflawni gwaith mewn nifer o leoedd. Rydym wedi dechrau cyflwyno hyn yn y swyddfeydd yng Nghaerdydd a Llundain a byddwn yn parhau i'w gyflwyno'n bwyllog ar draws yr LAA.

## Rhaglenni newid

Yn ystod ein hail flwyddyn yn asiantaeth weithredol, cyflwynwyd nifer o fentrau gyda'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar ein ffordd o weithio gyda'n darparwyr. Cyflawnwyd hyn gan barhau â'n perfformiad cryf ar sail ein cynllun tair blynedd.

Bellach rydym yn prosesu ceisiadau ac yn talu biliau'n gyflymach, gan greu sianeli mynediad cliriach i'n cwsmeriaid a sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau i gleientiaid gan arbed costau ar ein cyllidebau. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni amcan y Gwasanaeth Sifil ehangach o weithio'n gwbl ddigidol, fel y mae'r ffaith ein bod wedi cyrraedd cerrig milltir allweddol pwysig yn ein rhaglenni newid yn dangos.

## Ein rhaglenni newid:

### Cyflawni'r Rhaglen Gyflawni Integredig (IDP)

Mae'r IDP yn gyfrifol am gyflawni'r CCMS. Mae'r CCMS yn cynnwys:

- Cyfriflyfr cyffredinol newydd a siart cyfrifon;
- rhyngwyneb darparwr ar gyfer cyflwyno ceisiadau a biliau am gymorth cyfreithiol sifil;
- system rheoli achosion fewnol newydd;
- systemau integredig newydd ar gyfer casglu arian a rheoli dyledion.

Un agwedd allweddol ar y IDP oedd cyflwyno'r CCMS ar gyfer yr holl ddarparwyr a siambrau sy'n cwblhau gwaith cymorth cyfreithiol sifil. Rhoddwyd y CCMS ar waith yn wirfoddol rhwng Ebrill a Medi 2014 ac ar ôl lansio'r system mae'n bosibl i ddarparwyr reoli achosion sifil newydd ar-lein.

Roedd hyn yn cynnwys cynllunio ac ymgysylltu manwl â darparwyr a phartneriaid ToG i sicrhau eu bod yn barod ac i hwyluso'r newid. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â chyrff cynrychiadol a darparwyr unigol i gasglu a choladu adborth ar y CCMS. Rydym yn cydweithio'n agos â defnyddwyr i sicrhau bod y gwelliannau i'r system yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr lle bynnag y bo modd. Rydym yn ymwybodol bod hyn yn golygu buddsoddi amser ac ymdrech gan ddarparwyr a gennym ni, ac rydym yn ddiolchgar iawn am y cydweithrediad a'r cymorth a gawsom wrth wella'r system. Roedd ein staff rheoli contractau'n ymweld â darparwyr yn ystod ac ar ôl cyflwyno'r broses i sicrhau bod cymorth ar gael, a darparwyd cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi pwrpasol a llinell gymorth hefyd.

Ochr yn ochr â'r broses o gyflwyno'r system yn allanol, cynhelir rhaglen hyfforddi ar gyfer staff er mwyn i'r LAA brosesu'r gwaith newydd sy'n cael ei gyflwyno ar-lein.

### Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol (LAT)

Yn Hydref 2012, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar y pryd fod angen arbedion pellach ar draws yr MoJ i leihau cost cymorth cyfreithiol, gan sicrhau hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder yr un pryd.

Cyflwynwyd y rhaglen LAT i ystyried y posibiliadau ar gyfer diwygiadau pellach, gan gynnwys y cysyniad o dendro am y cyfle i fod yn ddarparwr cymorth cyfreithiol troseddol, a phennu ffyrdd o wella hyder y cyhoedd.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd y Llywodraeth ym Medi 2013 ei bod wedi penderfynu gweithredu nifer o ddiwygiadau.

Yn 2014-15 roeddem wedi gweithredu'r diwygiadau canlynol:

- Newidiadau yn y tâl am achosion Adolygiad Barnwrol, a newidiadau mewn cynlluniau tâl i gyd-fynd â chyflwyno un Llys Teulu;
- gostwng y ffi sefydlog a delir i ddarparwyr mewn achosion teulu sy'n dod o dan y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal (a'r cyfraddau awr sylfaenol) 10%;
- diwygiadau yn y gofynion tystiolaeth am blant ac arian mewn achosion cyfraith teulu breifat, a Bwndeli Llys y Cynllun Eiriolaeth Deuluol;
- taliadau interim o dan LGFS;
- gostwng ffioedd yn yr holl wasanaethau cynghori ac ymgyfreitha ac mewn cynrychiolaeth gan adfocadau mewn llysoedd ynadon o dan gymorth cyfreithiol troseddol.

## Rhaglen Newid Trosedd (CCP)

Nod CCP yw moderneiddio'r broses cymorth cyfreithiol troseddol a galluogi'r holl ddarparwyr cymorth cyfreithiol troseddol i gyflwyno ceisiadau a biliau ar-lein.

Mae tair prif ran i'r rhaglen:

1. *Trosglwyddo Grant (ToG)*

Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â GLlTEM i symleiddio'r prosesau cymorth cyfreithiol a chynnwys pob un ohonynt yn yr LAA. Ym mis Mehefin 2014 dechreuwyd trosglwyddo'r gwaith o brosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol o GLlTEM. Cyn hynny roedd ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu prosesu gan staff GLlTEM mewn gwahanol lysoedd yng Nghymru a Lloegr. Rydym wedi canoli'r gwaith hwn mewn tri lle yn yr LAA. Un o ganlyniadau'r trawsnewid hwn yw bod y rhaglen wedi sicrhau galluogrwydd mewnol sylweddol sy'n cysylltu'r LAA a systemau llys GLlTEM drwy'r cyswllt Managed Libra Record Application (MLRA). Mae'r cyswllt hwn yn rhoi'r gallu i drosglwyddo'r data ym mhob cais i systemau GLlTEM ac i staff yr LAA weithio'n ddiogel ar draws y ddwy system gan brosesu ceisiadau'n fwy effeithlon.

Roedd y cyfnod treialu cyntaf yn cynnwys ardaloedd GLlTEM Swydd Nottingham, Swydd Derby, Swydd Gaer, Glannau Mersi, Swydd Warwick a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Dechreuwyd ar y gwaith o drosglwyddo'r holl brosesau i'r LAA yn Hydref 2014 ac ar ddiwedd 2014-15 roedd y rhan fwyaf o ranbarthau GLlTEM wedi trosglwyddo'r prosesu ar gymorth cyfreithiol troseddol i'r LAA, a disgwylir y bydd y trosglwyddo wedi'i gwblhau ym Mehefin 2015.

2. *e-Ffurflenni*

Mae'r rhaglen hefyd wedi creu'r gallu i gyflwyno ceisiadau am Gymorth Cyfreithiol Troseddol (Gorchmynion Cynrychioli) drwy e-Ffurflenni. Mae e-Ffurflenni'n ffurflenni cais ar-lein am gymorth cyfreithiol sy'n galluogi darparwyr i gyflwyno ceisiadau drwy ddull electronig.

3. *Biliau Troseddol Ar-lein*

Dechreuodd cyfnod darganfod y prosiect Biliau Troseddol Ar-lein ym mis Tachwedd 2014. Mae tîm y rhaglen wedi ymgysylltu â chyfreithwyr a bargyfreithwyr er mwyn canfod anghenion defnyddwyr a bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau yn ystod cyfnodau'r prosiect yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y cynnyrch yn canolbwyntio ar y defnyddiwr. Mae'r tîm yn bwriadu cynhyrchu prototeip ymarferol ar gyfer biliau adfocadau Llys y Goron ym Mehefin 2015, a bydd cylchoedd pellach o ddatblygu ailadroddus er mwyn ei wneud yn fwy ymarferol ac ehangu'r defnydd o'r system.

Bydd y tair prif raglen hyn yn parhau'n bwysig yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran "Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol" ar dudalen 26.

## Gweithio gyda darparwyr

Gan ei bod yn rhan allweddol o'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, mae'r LAA yn gweithio gydag ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol a rhanddeiliaid eraill yn y system gyfiawnder. Ymhlith y rhain mae Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar, y Bwrdd Cyfiawnder Teulu a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, a GLlTEM.

Mae ein perthnasoedd â darparwyr yn elfen ganolog yng ngwaith ein sefydliad. Drwy gyfarfodydd fel y Grwpiau Cynghorol Troseddol a Sifil, rydym yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r prif gyrff cynrychiadol ar faterion gweithredol allweddol. Bydd ein rheolwyr contractau a staff rheoli achosion yn cydweithio'n agos â'n darparwyr bob dydd i sicrhau bod ein contractau a'n prosesau'n rhedeg yn esmwyth.

# Amgylcheddol, cymdeithasol, cymunedol a hawliau dynol

## Materion amgylcheddol

Yng nghyswllt cynaliadwyedd, mae'r LAA yn canolbwyntio ar gyrraedd targedau Llywodraeth, lleihau ei heffaith amgylcheddol a lleihau costau. Rhai o'r blaenoriaethau yw lleihau allyriadau carbon a'r defnydd o ddŵr ac ailgylchu mwy o wastraff.

Mae rhagor o fanylion yn yr adroddiad Cynaliadwyedd ar dudalen 29.

## Rhoddion gwleidyddol

Yn ystod 2014-15, ni wnaeth yr LAA unrhyw roddion gwleidyddol (2013-14: dim).

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r LAA yn gwerthfawrogi diwylliant cynhwysol. Ein nod yw denu a chadw gweithlu cynrychiadol sy'n deall anghenion y boblogaeth amrywiol yr ydym yn ei gwasanaethu ac yn gallu defnyddio'r wybodaeth honno i wella'r ffordd yr ydym yn darparu cymorth cyfreithiol. Rydym wedi penodi hyrwyddwr amrywiaeth yn ein Tîm Rheoli Gweithredol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo blaenoriaethau'r LAA ar gyfer amrywiaeth, gyda chymorth rhwydwaith o hyrwyddwyr ar draws yr LAA.

Blaenoriaethau'r LAA ar gyfer amrywiaeth yw:

- Sicrhau bod arweinwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- gwella'r gefnogaeth i staff sydd ag anabledd;
- meithrin diwylliant cynhwysol sy'n cwmpasu gwahanol batrymau gweithio;
- cefnogi cynrychiolaeth amrywiol ymysg staff ar raddau uwch;
- gwella gallu'r staff i ystyried y ddyletswydd cydraddoldeb er mwyn ein galluogi i gomisiynu a gweinyddu cymorth cyfreithiol yn effeithlon.

Yn 2014-15 rydym wedi:

- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl gan MIND, elusen gofrestredig dros iechyd meddwl, mewn chwe swyddfa gan hyfforddi 160 o aelodau staff;
- lansio rhwydwaith Hyrwyddwyr AnAbledd o 30 o wirfoddolwyr ar draws yr LAA;
- cael ein cynnwys ar y rhestr fer yn y categori Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer Gwobrau'r Gwasanaeth Sifil 2014;
- sefydlu sesiynau "heriwch ef/newidiwch ef" rheolaidd sy'n cael eu rhedeg gan holl uwch arweinwyr yr LAA er mwyn delio â bwlio ac aflonyddu;
- gwella rôl ein Hyrwyddwyr Ymgysylltu gan eu gwneud yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu;
- lansio Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth yr LAA i gefnogi cynrychiolaeth amrywiol ymysg staff ar raddau uwch.

Rydym yn adrodd ar gamau gweithredu penodol o dan fframwaith Amcanion Cydraddoldeb yr MoJ ac mae manylion amdanynt ar gael ar y wefan Cyfiawnder yn:

https://www.gov.uk/government/publications/ministry-of-justice-equality-objectives-2012-2016

## Cyflogi pobl anabl

Mae'r LAA wedi mabwysiadu polisïau'r MoJ ar gyflogi, hyfforddi, datblygu gyrfa a dyrchafu pobl sydd ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi *'MoJ's Equal Opportunity and the Disability Policy'* ac *'Ability Manual'*. Mae ein pobl yn gallu derbyn Gwasanaeth Cefnogi Addasiadau Rhesymol yr MoJ a Hyfforddiant Gweithredu Cadarnhaol y Gwasanaeth Sifil a rhaglenni datblygu gyrfa sy'n cael eu targedu i gynorthwyo pobl sydd ag anabledd.

## Rhywedd

Ar 31 Mawrth 2015, ar sail y data am rywedd a oedd ar gael, roedd yr LAA yn cynnwys 925 o gyflogeion parhaol benywaidd a 657 o gyflogeion parhaol gwrywaidd.

# Ein blwyddyn yn fanwl

Mae'r bennod hon yn ymdrin â phwrpas yr LAA, ei darparwyr a'i phobl.

Hon yw ein hail flwyddyn yn asiantaeth weithredol ac yn ystod y cyfnod hwnnw rydym wedi gweld nifer o welliannau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ein ffordd o weithio fel sefydliad ac ar ein rhyngweithio â darparwyr. Cyflawnwyd hyn gan barhau â'n perfformiad cryf ar sail ein cynllun tair blynedd.

**Ein cyflawniadau yn 2014-15**

Mae'r LAA wedi parhau i weithio er mwyn cyflawni ei hymrwymiadau yng Nghynllun Busnes 2014-15 ac ar sail ei thri S yn unol â'r pedair thema allweddol ar gyfer Diwygio'r Gwasanaeth Sifil: mwy digidol; mwy o sgiliau; creu gwell polisïau; unedig, agored ac atebol.

Ymhlith y prif gyflawniadau yn y flwyddyn hon yr oedd:

- Perfformiad cryf ar bob KPI – manylion yn ddiweddarach yn yr adran hon ar dudalen 17;
- trefnu i'r CCMS fod ar gael yn wirfoddol i'n darparwyr cymorth cyfreithiol sifil;
- cynnydd da ar y CCP wrth i GLlTEM drosglwyddo cyfrifoldeb dros brosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol i'r tri safle prosesu dynodedig yn yr LAA a mwy o ddefnydd o e-Ffurflenni;
- datblygu a darparu rhaglen arweinyddiaeth i gefnogi ein harweinwyr yn y dyfodol;
- cynnydd ar fenter ar draws Llywodraeth i drawsnewid ein ffordd o weithio, gan gyflwyno technoleg newydd i ganiatáu i'n staff weithio'n hyblyg;
- yr ymgysylltu â staff yn parhau i gynyddu ac 89% o staff wedi cymryd rhan yn yr arolwg blynyddol ar gyfer ymgysylltu â staff.

**Ein Pwrpas**
Darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac effeithiol fel rhan o'r system gyfiawnder

| **Amcan Strategol 1**<br>Gwella gwaith achos er mwyn lleihau costau, gwella rheolaeth a chynnig gwell gwasanaeth cwsmeriaid | | |
|---|---|---|
| Darparu gwasanaeth cwsmeriaid effeithlon a rhagorol | Gwella ein prosesau ar gyfer talu biliau a phrosesu ceisiadau | Rhoi gwerth am arian |

| **Amcan Strategol 2**<br>Gwella gallu sefydliadol er mwyn wynebu'r heriau sydd o'n blaenau, yn cynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy | | |
|---|---|---|
| Datblygu ein staff a gwella lefelau ymgysylltu | Gwella'r rheoli ar berfformiad a dysgu a datblygu | Datblygu gallu o fewn y sefydliad gan sicrhau ein bod yn barod ar gyfer bod yn Ddigidol yn Bennaf |

| **Amcan Strategol 3**<br>Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf er mwyn sicrhau darpariaeth o safon a chyfrannu'n llawn at gyflawni nodau ehangach o ran cyfiawnder a Llywodraeth. | | |
|---|---|---|
| Cyfrannu at gyflawni'r nodau ehangach ar gyfer y system gyfiawnder yn y Rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder | Cydweithio'n rheolaidd ag adrannau Llywodraeth eraill | Cydweithio â darparwyr i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o safon |

**Ein perfformiad ar sail ein tri amcan strategol**

Mae'r cerrig milltir ac ymrwymiadau wedi cael eu tracio a'u monitro drwy fframwaith rheoli perfformiad yr LAA sy'n cynnwys KPIs ar gyfer mesur elfennau pwysig yn ein gwaith pob dydd: (i) darparu gwasanaethau; (ii) cyllid ac effeithlonrwydd; (iii) pobl a galluogrwydd a (iv) enw da. Yn ogystal â hyn, mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn mesur cerrig milltir allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni rhaglenni diwygio'r LAA.

### Allwedd ar gyfer adrodd ar gyflawni cerrig milltir

- ✅ Cyflawnwyd
- ⇔ Cyflawnwyd gan mwyaf
- ⇔ Cyflawnwyd yn rhannol
- ✖ Heb ei chyflawni

Mae fframwaith perfformiad gan yr LAA sy'n disgrifio pum KPI ar gyfer 2014-15 er mwyn monitro cynnydd a pherfformiad. Drwy gydol y flwyddyn, adroddwyd ar y canlyniadau i'r Tîm Rheoli Gweithredol, Bwrdd yr LAA a Phwyllgor Rheoli Gweithredol yr MoJ. Rhoddwyd gwybod am gynnydd i holl staff yr LAA yn fisol drwy ein gwefan ar y fewnrwyd.

Yn 2014-15, roeddem wedi cyflawni pob un o'r pum KPI, ac mae rhagor o fanylion am hyn isod.

**Amcan Strategol 1:**
Gwella gwaith achos er mwyn lleihau costau, gwella rheolaeth a chynnig gwell gwasanaeth cwsmeriaid.

### Cerrig milltir wedi'u halinio ag Amcan Strategol 1

- ✅ Gwneud taliadau ac asesu cymhwysedd yn gyflymach gan gynnal ansawdd.
- ✅ Parhau i ddigideiddio ein gwasanaethau a'n prosesau.
- ⇔ (Cyflawnwyd gan mwyaf) Adolygu'r model gweithredu gwaith achos ar ôl gweithredu darpariaethau Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012, Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, a systemau ToG newydd ar gyfer achosion sifil (CCMS).
- ✅ Cydweithio'n agos â darparwyr i ostwng ymhellach y gyfradd camgymeriad net ar gyfer taliadau i ddarparwyr ac asesiadau o gymhwysedd.
- ✅ Datblygu prosesau ymgeisio a bilio ar-lein ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol (gan gynnwys cyflwyno e-Ffurflenni ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol).
- ✅ Parhau i gynyddu'r casgliadau gros drwy gynllun Prawf Moddion Llys y Goron, gwella cyfraddau casglu, cymarebau arian a dyledion gwarantedig ac felly'r arbedion a geir.
- ✅ Parhau i ddarparu gwasanaeth amddiffyn troseddol effeithlon o ansawdd uchel i gleientiaid drwy'r PDS.

Rydym yn gwneud cynnydd da o hyd ar gyrraedd ein hamcan o wella gwaith achos a rheolaeth.

Mae ein pwyslais ar gyflwyno'r CCMS ac e-Ffurflenni cymorth cyfreithiol troseddol wedi ategu ein gwaith ar barhau i ddigideiddio ein gwasanaethau ac mae'n rhan allweddol o'n hymrwymiad i symud tuag at weithio'n gyfan gwbl ar-lein gyda'n darparwyr. Yn ogystal â hyn, rydym wedi lansio gwasanaeth digidol Cyngor Cyfreithiol Sifil newydd sy'n symlach, yn gliriach ac yn gyflymach i'w defnyddio ac rydym wedi symud y gwaith o brosesu hawliadau am gyfryngu teuluol ar-lein. Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn gwelliant parhaus ac rydym wedi ymrwymo i adolygu ein prosesau busnes yn barhaus. Rydym wedi gwneud nifer o welliannau busnes yn 2014-15 a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i fwy o waith gael ei brosesu ar y CCMS ac wrth i'r LAA ddod yn llwyr gyfrifol am geisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol.

Hefyd rydym wedi parhau â'n gwaith i gynyddu ein casgliadau drwy gynllun Prawf Moddion Llys y Goron ac wedi casglu £2 filiwn yn fwy yn 2014-15 nag yn 2013-14.

Gwelsom welliannau o ran prosesu ceisiadau a biliau ac rydym wedi cynnal rheolaeth ariannol gadarn drwy gydol 2014-15.

## Yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol canlynol:

**KPI: Rheolaeth Ariannol**

- Costau gweinyddu'r asiantaeth – Yn monitro'r graddau y mae arbedion effeithlonrwydd ac arbedion costau angenrheidiol wedi'u sicrhau i alluogi'r Asiantaeth i reoli ei gweithrediadau o fewn y gyllideb gweinyddu a ddyrannwyd.
- Cronfa Cymorth Cyfreithiol – Yn monitro'r gwariant ar gymorth cyfreithiol, o fewn y gyllideb a ddyrannwyd, gan gynnwys y graddau y sicrhawyd arbedion sy'n gysylltiedig â gweithredu diwygiadau.
- • Sicrwydd – Yn monitro cywirdeb a chydymffurfiaeth ceisiadau a thaliadau am gymorth cyfreithiol.

Rydym hefyd wedi parhau â'n rhaglen o stiwardiaeth ariannol drwy weithio gyda darparwyr, gan fonitro ein cywirdeb wrth ganiatáu ceisiadau am gymorth cyfreithiol a phrosesu biliau. Roedd profion yn y maes hwn yn dangos mai 0.65% oedd y gyfradd camgymeriad ar gyfer y flwyddyn.

**KPI: Cyflawni Gweithredol**

- Rheoli Achosion – Yn mesur perfformiad ein swyddogaethau prosesu craidd – asesu cymhwysedd, delio â newidiadau a thalu biliau am waith ar achosion sifil a throseddol.
- Rheoli Contractau – Yn monitro'r rheoli ar berfformiad ar gontractau gan ddarparwyr, gan gynnwys cynnal y gyfradd camgymeriad isel a pharhau i leihau nifer y biliau anghywir a gyflwynir.
- Y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus – Yn mesur perfformiad y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar werth am arian, ansawdd a chyfran y galwadau ar ddyletswydd a dderbynnir yn lleol.
- Gwasanaeth ToG – Yn mesur y gwasanaeth cwsmeriaid i staff yr LAA a gwelliant mewn argaeledd gwasanaethau mewn perthynas â chyfnodau pan nad yw'r systemau ar gael.

Yn 2014-15 roedd ein perfformiad misol ar brosesu ceisiadau sifil yn uwch na'r targedau (97% o fewn 20 niwrnod gwaith). Roeddem wedi prosesu biliau am gymorth cyfreithiol sifil (99% o fewn 25 niwrnod) a biliau am gymorth cyfreithiol troseddol (98% o fewn 20 niwrnod gwaith) yn gyflymach nag mewn blynyddoedd blaenorol fel rhan o'n gwaith o symud tuag at dalu o fewn mis. Yn ogystal â hyn, drwy ymweld â darparwyr a chydweithio rhwng ein timau rheoli achosion a rheoli contractau, roeddem wedi parhau i ostwng y cyfraddau ar gyfer gwrthod biliau. Ein targed ar gyfer biliau sifil oedd sicrhau cyfradd gwrthod o lai na 15%, ac roeddem wedi cyrraedd 9.2% yn 2014-15. Yn achos biliau adfocadau, ein targed oedd cyfradd gwrthod o lai na 10%, ac yn 2014-15 roeddem wedi cyrraedd 8.9%.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi monitro argaeledd ein systemau ToG, sy'n cynnal y gwaith o brosesu ceisiadau a biliau, ac rydym wedi cymryd camau priodol i sicrhau nad yw anawsterau gyda systemau wedi effeithio'n sylweddol ar ein perfformiad. Rydym hefyd wedi dechrau adolygiad strwythuredig o berfformiad systemau gyda'r MoJ a chyflenwyr ToG i wella perfformiad y systemau'n gyffredinol.

Mae'r PDS yn darparu cynrychiolaeth amddiffyn o ansawdd uchel ym mhob math o achosion troseddol a derbyniodd 98% o'r galwadau ar ddyletswydd (90% oedd y targed). Yn 2014-15 cododd y PDS ei lefel gwasanaeth drwy greu uned eiriolaeth arbenigol sy'n rhoi pwyslais ar achosion difrifol a chymhleth yn Llys y Goron.

**Amcan Strategol 2:**
Gwella gallu sefydliadol er mwyn wynebu'r heriau sydd o'n blaenau, yn cynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy.

### Cerrig milltir wedi'u halinio ag Amcan Strategol 2

- ☑ Ymgysylltu'n well â'n pobl drwy hyrwyddo gwaith tîm lleol a gwella'r amgylchedd gweithio o'u cwmpas, cyfathrebu'n iawn a buddsoddi mewn sgiliau.
- ☑ Sefydlu rheolaeth ar dalentau drwy adnabod a datblygu staff sydd â photensial i fynd ymlaen.
- ☑ Meithrin gallu eirioli yn y PDS.
- ☑ Parhau i gymryd rhan yng nghynllun galluogrwydd ehangach yr MoJ er mwyn datblygu'r lefel briodol o alluogrwydd yn yr LAA.
- ☑ Sefydlu gweithgareddau Dysgu a Datblygu a helpu pob aelod staff i gwblhau ei leiafswm o bum niwrnod o ddysgu a datblygu yn y flwyddyn.
- ☑ Gweithredu'r gwasanaethau cymorth cyfreithiol Digidol yn Bennaf, gan gynnwys gwell mynediad at wasanaethau ar-lein yr LAA i ddarparwyr.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da ar wella galluogrwydd o fewn yr LAA. Yn ystod 2014-15 rydym wedi canolbwyntio ar fuddsoddi mewn sgiliau drwy greu rhaglenni datblygu newydd a thrwy barhau i hyrwyddo CSL. Yn benodol, rydym wedi datblygu rhaglen arweinyddiaeth i fuddsoddi yn ein harweinwyr yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth ymysg rheolwyr canol ac uwch-reolwyr. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi pwrpasol, dosbarthiadau meistr a mentora un i un. Rydym hefyd wedi lansio Rhaglen Sgiliau Rheoli ar gyfer yr holl reolwyr er mwyn gwella sgiliau rheolwyr, eu helpu i ysbrydoli eu timau a'u paratoi ar gyfer rheoli mewn cyfnod o newid. Yn ogystal â hyn, rydym wedi lansio'r Proffesiwn Cyflawni Gweithredol ar gyfer staff yr LAA sef proffesiwn ar draws Llywodraeth sy'n rhoi cyfle i staff astudio ar gyfer cymwysterau academaidd mewn cyflawni gweithredol er mwyn gwella'r sgiliau y maent yn eu harfer eisoes o ddydd i ddydd.

Rydym hefyd wedi buddsoddi yn ein staff drwy weithredu'r fenter TW3 sydd wedi'i chyflwyno ar draws Llywodraeth. Rydym yn creu gweithle i staff lle ceir technoleg fodern a gwell defnydd o le sydd wedi'i seilio ar newid i ddiwylliant gweithio mwy hyblyg.

### KPI: Pobl

- Pobl, Galluogrwydd ac Ymgysylltu â Staff – Yn monitro ein llwyddiant wrth ymgysylltu'n well â staff a gostwng nifer y diwrnodau gwaith a gollir drwy absenoldeb staff.

Roedd y canlyniadau o'r arolwg ymgysylltu â staff yn 2014 yn well na'r rhai o'r arolwg yn 2013, gan fod y mynegrif ymgysylltu wedi codi pump y cant a'r gyfradd cyfranogi yn 89%. Roedd y canlyniadau hefyd yn dangos gwelliannau mewn meysydd allweddol a nodwyd yn ein cynllun ymgysylltu cenedlaethol yn 2014 a oedd yn egluro sut yr oeddem yn bwriadu gwella mewn meysydd a nodwyd yn yr arolwg. Rydym wedi rhannu'r cynllun ymgysylltu cenedlaethol ar gyfer 2015 gyda staff.

Cafwyd gwelliannau hefyd yn ein canlyniadau ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch. Roedd ein staff wedi cymryd 7.1 diwrnod (2013-14: 7.59 diwrnod) o absenoldeb oherwydd salwch yr un ar gyfartaledd o'i gymharu â'r cyfartaledd o 7.6 diwrnod ar draws y Gwasanaeth Sifil sydd wedi'i gymryd yn feincnod.

### Amcan Strategol 3:

Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf er mwyn sicrhau darpariaeth o safon a chyfrannu'n llawn at gyflawni nodau ehangach o ran cyfiawnder a Llywodraeth.

### Cerrig milltir wedi'u halinio ag Amcan Strategol 3

- [x] Gweithredu polisi'r MoJ ar gyflwyno mecanwaith cystadleuol ar gyfer contractau am gymorth cyfreithiol troseddol a datblygu a gweithredu strategaeth rheoli/comisiynu newydd ar gyfer darparwyr.
- [x] Cefnogi mentrau ar gyfer effeithlonrwydd a datblygu gwasanaethau yn y CJS.
- [x] Gwneud defnydd o wybodaeth a phrofiad y PDS o'r farchnad amddiffyn troseddol wrth ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau.
- [x] Gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni ein rhaglenni newid – LAT, IDP a CCP.
- [x] Parhau i gydweithio'n agos ac ymgysylltu â darparwyr gan gynnwys camau i lansio strategaeth sianeli newydd ar gyfer ein gwasanaeth cwsmeriaid i ddarparwyr.

Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth weithio gydag eraill. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â darparwyr nid yn unig i weithredu diwygiadau newydd ond hefyd i gyflwyno darpariaeth newydd o wasanaethau ar-lein ar gyfer ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol a sifil a biliau am gymorth cyfreithiol sifil. Rydym hefyd wedi darparu cymorth, cefnogaeth a hyfforddiant i ddarparwyr i sicrhau bod gan ddarparwyr y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithredu'r newidiadau. Roeddem wedi cydweithio'n agos â darparwyr i wella ein modelau gweithredu ac wedi ymgysylltu'n rheolaidd ar faterion gweithredol allweddol gyda'r prif gyrff cynrychiadol. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â chydweithwyr ym maes polisi ac yn cefnogi mentrau effeithlonrwydd yn y CJS ehangach ac yn rhannu ein harbenigedd er mwyn cefnogi penderfyniadau ar bolisi.

Rydym wedi gosod tendrau'n llwyddiannus am gontractau newydd ar gyfer gwaith troseddol Eich Cleient Eich Hun, gwasanaethau ffôn Cyngor Cyfreithiol Sifil, gofal cymunedol, iechyd meddwl a chyfryngu ac wedi cynnal proses tendro i gyflwyno contractau wedi'u tendro'n gystadleuol i ymgymryd â chymorth cyfreithiol troseddol. Mae'r contractau hyn i ddechrau yn Ionawr 2016.

Rydym wedi lansio ein strategaeth sianeli. Pwrpas y strategaeth yw datblygu ein ffordd o reoli cysylltiadau â darparwyr, gwella'r sianeli presennol er mwyn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid, a gwella profiad y cwsmer ar gyfer darparwyr a chleientiaid. Rydym hefyd wedi parhau i fodloni'r gofynion statudol am ateb gohebiaeth a chwynion a gwella ein gwasanaeth cwsmeriaid.

## Yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol canlynol:

**KPI: Gohebiaeth**

- Yn monitro ymateb ein gwasanaeth cwsmeriaid i ymholiadau, gohebiaeth a chwynion, gan gynnwys ceisiadau o dan y deddfau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.

**KPI: Gwasanaeth Cwsmeriaid**

- Delio ag ymholiadau gan ddarparwyr a chleientiaid yn amserol a boddhaol, gan sicrhau bod ein llwyth gwaith achos yn cael ei drafod yn briodol, ac osgoi camgymeriadau, gwrthod ceisiadau, cwynion ac oedi wrth brosesu.

Roeddem wedi cynnal ein perfformiad ar ateb gohebiaeth. Roeddem wedi cwrdd â'n targedau statudol ar gyfer ateb ceisiadau o dan FOI a KPI gan fod 94% o'r ceisiadau o dan FOI wedi'u hateb o fewn 20 niwrnod a 98% o'r ceisiadau o dan KPI wedi'u hateb o fewn 40 niwrnod. Roeddem wedi sicrhau hefyd ein bod yn delio'n amserol â chwynion a gohebiaeth oddi wrth ASau gan fod 100% o'r cwynion wedi'u hateb o fewn 20 niwrnod a 100% o'r ohebiaeth gan ASau wedi'i hateb o fewn 20 niwrnod.

Fel rhan o'n gwaith i wella ein gwasanaeth cwsmeriaid rydym wedi gwella ein perfformiad ar ateb galwadau i'n llinell gymorth Sifil Ardystiedig. Roedd yn flwyddyn ymestynnol iawn i'r llinell gymorth gan fod nifer y galwadau a dderbyniwyd wedi cynyddu. Er hynny, roeddem wedi parhau i gadw'r amseroedd aros am alwadau'n isel: ar

gyfartaledd, roeddent yn llai na dau funud a 48 eiliad a'r gyfradd am alwadau y rhoddwyd y gorau iddynt oedd 10.47% sy'n is na'r targed o 12% ar gyfer 2014-15.

**Sylwadau ar Reolaeth**

Mae'r adran hon yn cynnwys sylwadau i ategu'r datganiadau ariannol a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

**Sylwadau am ganlyniadau ariannol 2014-15**

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u cynnwys rhwng tudalennau 58 a 95. Mae Cyfrifon yr LAA yn cynnwys chwe segment adrodd: Help Cyfreithiol Sifil, Cynrychiolaeth Sifil, Troseddol Is, Troseddol Uwch, Cronfeydd Canolog a Gweinyddiaeth, yn unol â'r cyllidebu a rheoli o ddydd i ddydd ar ein gwariant. Mae nodyn 2 i'r Cyfrifon ar dudalen 71 yn dangos y gwariant gweithredu net ar gyfer pob un o'r segmentau hyn ac mae nodiadau 2-6 yn dangos y gwariant ac incwm manwl ym mhob un o'r segmentau.

Yr eitem fwyaf sylweddol ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yr LAA yw'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith sydd wedi'i gwblhau gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac asiantaethau cynghori ond sydd heb gael ei filio eto. Mae gwerth y gwaith hwn sy'n mynd rhagddo (WIP) yn cael ei amcangyfrif drwy gymryd nifer yr achosion y cofnodwyd eu bod wedi dechrau ac amcangyfrif y gweithgarwch sydd wedi digwydd ar y rhain drwy gymhwyso proffiliau hanesyddol o gostau a hyd achosion ar gyfer pob cynllun cymorth cyfreithiol penodol. Mae'r rhan fwyaf o rwymedigaethau'r LAA sy'n weddill yn rhai ar gyfer biliau sydd wedi'u derbyn ond heb eu prosesu, ond sy'n cael eu trin fel symiau masnach taladwy, ac unrhyw waith na thalwyd amdano a gofnodwyd mewn hawliadau am dalu ar gyfrif, sy'n cael eu trin fel croniadau.

Mae balans derbyniadwy'r LAA yn cynnwys arian sy'n ddyledus gan gleientiaid sydd wedi derbyn cymorth cyfreithiol, a'r rhan fwyaf ohono'n ddyledus o dan arwystl statudol. Mae arwystlon statudol yn cael eu codi pan fydd cleientiaid a dderbyniodd gymorth cyfreithiol wedi llwyddo i ennill neu adennill ased o ganlyniad i'r help cyfreithiol y maent wedi'i dderbyn. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r cleient ad-dalu cost ei gymorth cyfreithiol. Mae gan y cleient yr hawl i ohirio'r ad-daliad hwn, ac os bydd hyn yn digwydd bydd yr  yn ennill gwarant am y ddyled drwy gofnodi arwystl ffurfiol ar yr ased perthnasol. Bydd llog yn cael ei godi ar y ddyled hon, sef llog syml o 8%, ac mae'r ddyled yn daladwy wrth werthu'r ased yn unig, er bod cleientiaid yn cael eu hannog i ad-dalu dyledion er mwyn osgoi taliadau llog. Mae'r dyledion hyn yn cael eu mesur drwy broses cydbwyso achosion sy'n rhoi ystyriaeth i gyfanswm y gwerth y gellir ei adennill i'r cleient, ac yna'n cyfyngu ar y swm y gellir ei adennill yn ôl y gost i'r .

Mae gweddill y balans y gellir ei dderbyn yn arian sy'n ddyledus gan wahanol ddarparwyr cymorth cyfreithiol sydd wedi codi o adennill taliadau ar gyfrif mewn achosion a setlwyd ac adennill gordaliadau.

**Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn**

Mae'r costau gweithredu net am weinyddiaeth yn adlewyrchu'r costau gweinyddu am redeg yr . Mae'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol yn cael ei rhannu wedyn yn Help Cyfreithiol Sifil, Cynrychiolaeth Sifil, Troseddol Is, a Throseddol Uwch. Mae costau gweithredu net y Cronfeydd Canolog yn adlewyrchu'r gwariant ar orchmynion sydd wedi'u gwneud i ryddfarnu diffynyddion sydd wedi ariannu eu cynrychiolaeth gyfreithiol yn breifat.

Rhwng 2013-14 a 2014-15 gwelsom ostyngiad cyffredinol yn y gwariant net o £244.0 miliwn ac mae'r prif weithgareddau ar gyfer pob un o'r segmentau gweithredu adroddadwy sydd wedi effeithio ar y gostyngiad hwn wedi'u dangos isod:

**Cynrychiolaeth Sifil**: Mae'r gwariant wedi gostwng er 2013-14 gan fod y diwygiadau a gyflwynwyd yn Ebrill 2013 o dan LASPO 2012 wedi lleihau nifer yr achosion. Yn ogystal â hyn, mae nifer yr achosion Teulu Cyhoeddus, sy'n ymwneud â dyroddi Gorchmynion Gofal a Goruchwyliaeth i amddiffyn plant sy'n agored i niwed, wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn. Yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) yn Ebrill 2013 cyflwynwyd rheolau newydd ar gyfer y ffordd y mae'r achosion hyn yn symud ymlaen drwy'r llys teulu ac roedd nifer yr achosion yn 2013-14 wedi cynyddu o ganlyniad i hyn. Mae'r effaith hon yn llai yn 2014-15, fel bod y gwariant yn is.

**Help Cyfreithiol Sifil**: Mae'r gwariant wedi gostwng gan fod yr effeithiau o LASPO 2012 yn parhau i ostwng lefelau'r gweithgarwch cyfredol yn y maes hwn.

**Troseddol Uwch**: Mae'r gwariant wedi cynyddu yn dilyn cynnydd yn nifer y diwrnodau eistedd yn Llys y Goron a chynnydd yng nghost gyfartalog achosion yn y LGFS. Mae'r gost gyfartalog wedi cynyddu am fod nifer cyfartalog y tudalennau o dystiolaeth erlyn a ddefnyddir mewn achosion wedi cynyddu o ganlyniad i ymchwiliadau mwy cymhleth a'r dystiolaeth electronig sy'n gysylltiedig â hyn.

**Troseddol Is**: Mae'r gwariant wedi gostwng gan fod llai o achosion mewn llysoedd ynadon. Mae'r gostyngiad mewn ffioedd o 8.75% a gyflwynwyd o dan LAT yn Rhagfyr 2013 hefyd wedi gostwng cost gyfartalog yr achosion o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Cronfeydd Canolog**: Mae'r gostyngiad mewn gwariant yn adlewyrchu'r nifer llai o achosion a'r gostyngiad yng nghost achosion yn dilyn newidiadau yn y cwmpas a'r cyfraddau tâl a gyflwynwyd yn Hydref 2012.

**Gweinyddiaeth**: Mae'r gwariant ariannol sylfaenol ar weinyddiaeth wedi gostwng £3.1 miliwn o flwyddyn i flwyddyn wrth i ni barhau i leihau costau y gellir eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Rydym wedi gwireddu costau is am y gwariant a delir i GLlTEM am brosesu Cymorth Cyfreithiol Troseddol ar ran yr ; trosglwyddwyd y gwaith hwn i'r  yn ystod y flwyddyn gan leihau costau o £1.5 miliwn (gweler nodyn 4). Mae costau staff wedi gostwng £0.7 miliwn o flwyddyn i flwyddyn, yr un pryd â'r cynnydd mewn gwaith prosesu (gweler nodyn 3, tudalen72). Mae costau swyddfeydd, ToG a rhedeg gwasanaethau wedi gostwng £0.7 miliwn (gweler nodyn 4, tudalen 75).

Mae cyfanswm y costau gweinyddu wedi codi £3.3 miliwn am fod y cynnydd mewn costau nad ydynt yn arian parod o £6.5 miliwn wedi ei ddebydu i lawr gan yr arbedion mewn arian parod a ddisgrifiwyd uchod. Mae costau dibrisiant ac amorteiddio wedi cynyddu £5.4 miliwn, ac mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chyfalafu'r CCMS o fewn y flwyddyn (gweler nodyn 4, tudalen 75). Mae'r cynnydd o £1.1 miliwn sy'n weddill yn ymwneud ag ailgodi taliadau'n fewnol am wasanaethau a rennir o fewn yr MoJ, yn bennaf o ganlyniad i newidiadau yn y dull cyfrifyddu a'r fethodoleg ar gyfer ailgodi taliadau (gweler nodyn 4, tudalen 75).

## Busnes hyfyw

Yn unol â *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2014 i 2015* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, mae'r datganiadau ariannol ar gyfer yr  mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol hyd 31 Mawrth 2015 wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw. Mae'r sail busnes hyfyw wedi'i hegluro yn nodyn 1a i ddatganiadau ariannol yr .

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2015 yn dangos rhwymedigaethau net o £651 miliwn (2013–14: £731 miliwn o rwymedigaethau net).

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer Gwariant ar Adnoddau a Chyfalaf, a Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer 2015-16 ar gyfer y swyddogaethau a gyflawnir gan yr , yn cael ei chynnwys yn amcangyfrifon yr MoJ. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd bob blwyddyn, ac nid oes lle i gredu na fydd y nawdd i'r MoJ yn y dyfodol na chymeradwyaeth y Senedd yn y dyfodol yn dod i ben.

# Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

2015-16 fydd blwyddyn olaf ein cynllun busnes tair blynedd a byddwn yn parhau â'r un amcanion strategol sydd wedi dod â llawer o lwyddiant i ni yn ystod cyfnod o newid sylweddol i staff a darparwyr o ran ein ffordd o weithio.

Cyflawni ein Rhaglenni Newid

Mae'r LAA wedi cyfrannu mewn sawl ffordd at gyflawni agenda'r Ysgrifennydd Gwladol ar Drawsnewid Cyfiawnder i sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn gredadwy ac wedi'i dargedu ar yr achosion hynny lle mae angen amdano. Yn ystod 2015-16 bydd ein tair prif raglen ddiwygio (IDP, LAT a CCP) yn dod i ben.

**Rhaglen Gyflawni Integredig (IDP)**

O 1 Hydref 2015 bydd y defnydd o CCMS (elfen bwysig yn y IDP) yn orfodol i'r holl ddarparwyr. Anfonwyd hysbysiadau contract at yr holl ddarparwyr i roi gwybod iddynt y bydd y system yn orfodol.

**Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol (LAT)**

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r MoJ ar weithredu'r rhaglen LAT.

**Rhaglen Newid Troseddau (CCP)**

Bydd y camau olaf ar drosglwyddo'r gwaith o brosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol o GLlTEM i'r  wedi'u cwblhau pan fydd y rhanbarthau olaf yn trosglwyddo ar ddechrau 2015-16. Sefydlwyd Timau Ceisiadau Troseddol yn swyddfeydd rhanbarthol Birmingham, Lerpwl a Nottingham. Mae'r rhaglen hefyd yn bwriadu gwneud y defnydd o'r e-Ffurflen ar gyfer ymgeisio am gymorth cyfreithiol troseddol yn orfodol. Bydd y cyswllt MLRA hefyd yn hysbysu Timau Ceisiadau Troseddol yr  am y camau sydd angen eu cymryd wrth i achosion symud ymlaen drwy'r system, drwy weithio'n fwy effeithiol gyda'n partneriaid yn GLlTEM.

Mae'r prosiect Bilio Troseddol Ar-lein yn bwriadu parhau â'r gwaith ailadroddus o ddatblygu ei gais am gyflwyno biliau adfocadau ar gyfer materion Llys y Goron, a'r bwriad yn y tymor hwy yw cynnwys pob agwedd ar gyflwyno biliau cyfreithwyr am faterion Llys y Goron.

Gwella ein ffordd o ryngweithio â'n darparwyr

**Strategaeth Sianeli**

Mae'r  wedi lansio Strategaeth Sianeli er mwyn datblygu ein ffordd o ryngweithio â darparwyr ymhellach. Bydd yn gwella ac yn hwyluso ffyrdd o gysylltu â'r  drwy:

- Ateb galwadau'n gyflymach a gostwng y gyfradd am alwadau y rhoddir y gorau iddynt ar y llinell gymorth Sifil Ardystiedig sy'n cael ei rheoli gan y timau Gwasanaeth Cwsmeriaid;
- lleihau nifer y rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost ar gyfer cysylltu â'r ;
- cynorthwyo darparwyr wrth iddynt wneud mwy o weithio digidol.

Gwneud yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn lle gwell i weithio

**Trawsnewid y Gweithle: The Way We Work (TW3) a'r Prosiect Ysgogiad Cynhenid (IMP)**

Bydd yr  yn parhau i ymdrechu i fod yn weithle modern gan groesawu technoleg symudol a ffyrdd clyfar a hyblyg o weithio. Mae TW3 yn rhaglen sy'n cael ei harwain gan Swyddfa'r Cabinet ac mae'n rhan o waith ehangach ar Ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil. Yn yr MoJ, mae TW3 yn cael ei harwain gan y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol.

Bydd y camau i gyflwyno technoleg yn trawsnewid amgylchedd ein gweithleoedd, gan greu mwy o le a hyrwyddo gweithio hyblyg â'r adnoddau sydd gennym a lle y gellir gwneud arbedion. Bydd hyn hefyd yn sbarduno newid yn y ffordd y mae timau a rheolwyr yn cydweithio drwy gynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd i staff o ran lleoliad, oriau gweithio a thechnoleg. Mae'n bwysig cadw rheolaeth yn ystod y trawsnewid hwn, felly mae'n cael ei weithredu'n bwyllog.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar sail y gwaith yr ydym wedi'i wneud fel tîm ar wneud ein sefydliad yn lle gwell i weithio.

**Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.**

**Matthew Coats**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
5 Mehefin 2015

# Adroddiadau ariannol


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cynaliadwyedd** | 26 |
| **Adroddiad tâl** | 31 |
| **Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu** | 39 |
| **Datganiad llywodraethu** | 40 |
| **Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin** | 51 |
| **Datganiadau Ariannol yr LAA** | 53 |

# Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r ffordd yr ydym wedi cydymffurfio â thargedau'r sefydliad a'r Llywodraeth ar gyfer lleihau ein hôl troed carbon a'n heffaith ar ein hamgylchedd.

**Cyflwyniad**

Dyma ail adroddiad Cynaliadwyedd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) fel asiantaeth weithredol, wedi'i baratoi'n unol â'r canllawiau a osodwyd yn 2014-15 gan Drysorlys EM yn *'Public Sector Annual Reports: Sustainable Reporting'* sydd wedi'i gyhoeddi yn:

https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-annual-reports-sustainability-reporting-guidance-2014-to-2015

Mae'r adroddiad hwn yn gyson â'r cwmpas a'r manylion sydd wedi'u nodi yn Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGC). GGC yw'r prif sbardun ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (SD) ar draws Llywodraeth ac maent yn cynnwys cyfres o dargedau ar gyfer gwella mewn meysydd fel carbon o ynni, gwastraff, dŵr a bioamrywiaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am GGC yn:

https://www.gov.uk/government/policies/making-sustainable-development-a-part-of-all-Government-policy-and-operations

**Ymrwymiadau'r Cynllun Busnes, a'r Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Gyffredinol**

Yr ymrwymiadau ar gynaliadwyedd sydd wedi'u nodi yn yr Atodiad i Gynllun Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) ar gyfer 2012-2015 yw:

i. Asesu a rheoli effeithiau a chyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddatblygu ei pholisïau a gwneud ei phenderfyniadau. Mae'r MoJ yn dangos ymrwymiad i sefydlu egwyddorion SD mewn arferion gweithio o ddydd i ddydd yn yr holl gyrff sy'n adrodd. Er mwyn cyflawni hyn yn effeithiol, mae'r MoJ yn cynnal cyfarfodydd misol o'r Bwrdd SD, o dan gadeiryddiaeth Hyrwyddwr SD ar lefel y Bwrdd, i lywio a chytuno ar raglenni gwaith a gwella arferion gweithio ar draws y gwahanol ddisgyblaethau ym mhob corff adrodd.

ii. Gweithredu cynllun yr Adran i gyflawni GGC, gan ddarparu gwybodaeth chwarterol a chyfrannu i'r adroddiad Blynyddol ar gynnydd. Lansiwyd GGC ar 1 Chwefror 2011 ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau Llywodraeth gymryd camau i leihau eu heffaith amgylcheddol yn sylweddol erbyn 2014-15 (o'i chymharu â llinell sylfaen 2009-10). Mae amcanion GGC yn flaenoriaeth allweddol i Gyfarwyddiaeth Ystadau'r MoJ sy'n cael ei rheoli, ei hadolygu a'i monitro gan Dîm Datblygu Cynaliadwy'r MoJ.

iii. Caffael cynaliadwy: Caffael gan fusnesau bach gyda'r uchelgais o ddyfarnu 25% o gontractau i Fusnesau Bach a Chanolig.

Yr MoJ yw un o'r adrannau sy'n perfformio orau mewn Llywodraeth o ran gwariant gyda Busnesau Bach a Chanolig. Yn 2013-14, aeth £1.7bn (37.2%) o wariant yr MoJ i Fusnesau Bach a Chanolig, gan ragori ar uchelgais y Llywodraeth o 25%. Mae rhagor o fanylion am Gynllun Gweithredu Busnesau Bach a Chanolig yr MoJ yn:

http://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/procurement

Mae ein strategaeth datblygu cynaliadwy gyffredinol yn cynnwys y canlynol:

i. Ymwybyddiaeth Gymdeithasol ac Amgylcheddol: Mae'r MoJ, drwy'r tîm SD, yn annog partneriaethau allanol, drwy Femoranda Cyd-ddealltwriaeth, i hyrwyddo dysgu a hyfforddiant mewn sgiliau yn yr holl ffrydiau gwaith SD gan hyrwyddo drwy hynny gyfiawnder adferol, gostwng troseddu a chefnogi strategaeth SD y Llywodraeth.

ii. Ceisio cyrraedd targedau GGC: Bydd yr  yn parhau i weithio gyda thîm SD yr MoJ i alinio ac ymgorffori'r  yn ei Strategaeth Gynaliadwyedd hirdymor wrth gyflawni GGC yn 2015. Canolbwyntir ar ddarparu data llinell sylfaen dibynadwy i'w defnyddio gan yr  i ddangos ei bod yn parhau i wneud cynnydd. Un rhan o'r gwaith hwn fydd casglu a chadw data angenrheidiol gan yr  i bennu cyllideb ar gyfer lwfansau carbon.

iii. Lle bo modd, mae'r  yn bwriadu sicrhau bod gwasanaethau, contractau a chyfleusterau'n gydgysylltiedig fel y bydd y data sydd eu hangen ar gyfer adroddiadau SD ar gael o ffynhonnell ganolog.

## Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Nid oedd bioamrywiaeth yn ystyriaeth arwyddocaol i'r  gan fod ei hadeiladau yng nghanol dinasoedd ac nid oes mannau awyr agored ar eu cyfer. Felly nid oedd yr  wedi casglu data am yr agwedd hon ar gynaliadwyedd.

## Ynni

| | | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (Tunelli o CO2 cyfwerth (tCO2e))** | Cyfanswm yr allyriadau gros ar gyfer cwmpasau 1 a 2 | **727** | 597 |
| | Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | **Amh** | Amh |
| | Cyfanswm yr allyriadau net ar gyfer cwmpasau 1 a 2 (h.y. ar ôl tynnu'r elfennau adnewyddadwy) | **727** | 597 |
| | Allyriadau gros teithio cwmpas 3 | **127** | 121 |
| | **Cyfanswm yr allyriadau gros a gofnodwyd** | **854** | 718 |
| **Dangosyddion anariannol (MegaWat awr MWh)** | Trydan: Prynwyd, Grid, CHP ac anadnewyddadwy | **1,181** | 1,027 |
| | Trydan: adnewyddadwy | **Amh** | Amh |
| | Nwy | **774** | 755 |
| | Ffynonellau ynni eraill | **Amh** | Amh |
| | **Cyfanswm ynni** | **1,955** | 1,782 |
| **Dangosyddion ariannol (£000)** | Gwariant ar ynni (yn cynnwys CRC) (£000) | **£146** | £226 |
| | Gwariant ar fesurau gwrthbwyso wedi'u hachredu (e.e. Cyfleuster Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | **Amh** | Amh |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol (yn cynnwys GCOF) (£000) | **£1,459** | £1,247 |

Yn gyffredinol, mae allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn fwy nag yn 2013-14 o ganlyniad i gynnydd yn y defnydd o nwy a thrydan, a'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y ffactor trosi tCO2e ar gyfer y defnydd o nwy a thrydan.

Drwy gydol 2014-15 mae nifer bach o'r gweithlu wedi'u hailddyrannu i'r  a chafwyd rhywfaint o recriwtio drwy'r rhaglen Trosglwyddo Grant (ToG) a throsglwyddo'r Tîm Trethu Cenedlaethol o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM). Mae'r cynnydd hwn yn y gweithlu wedi cael effaith ar y defnydd o gyfleustodau.

Cafwyd gostyngiad o 3% yn yr allyriadau teithio ar ffyrdd a rheilffyrdd am fod y pellterau a deithiwyd yn llai.

Mae gwybodaeth ar gael yn awr am deithiau hedfan domestig ac mae wedi'i chofnodi yn y llinell allyriadau gros am deithio cwmpas 3 yn y tabl isod ar gyfer 2014-15 a'r ffigur cymharol ar gyfer 2013-14.

Mae gwariant ar ynni wedi gostwng 35% yn 2014-15 o'i gymharu â 2013-14 ac mae cyfanswm yr ynni a ddefnyddiwyd wedi cynyddu 10% yn yr un cyfnod.

Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer 2013-14 wedi'u hailddatgan am fod gwybodaeth fanylach ar gael.

## Gwastraff

| Math o wastraff (tunelli) | | | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | Gwastraff nad yw'n beryglus | Gwastraff Tirlenwi | **Amh** | Amh |
| | | I'w adennill (AD a Chompostio) | **Amh** | Amh |
| | | I'w losgi | **Amh** | Amh |
| | | I'w losgi gan adennill ynni | **Amh** | Amh |
| | | Gwastraff eildro | **127** | 92 |
| | | Ynni o wastraff | **Amh** | Amh |
| | | **Cyfanswm y gwastraff a gododd** | **127** | 92 |
| **Dangosyddion ariannol (tunelli)** | Gwastraff nad yw'n beryglus | Gwastraff Tirlenwi | **Amh** | Amh |
| | | I'w adennill (AD a Chompostio) | **Amh** | Amh |
| | | I'w losgi | **Amh** | Amh |
| | | I'w losgi gan adennill ynni | **Amh** | Amh |
| | | Gwastraff eildro | **8.2** | 11.8 |
| | | Ynni o wastraff | **Amh** | Amh |
| | Pob math | **Cyfanswm y costau (£000)** | **£8.2** | £11.6 |

Cafwyd mwy o dunelli o wastraff yn 2014-15. Mae'r cynnydd hwn yn ymwneud yn benodol â safle Jarrow lle mae Canolfan Ffeilio Genedlaethol yr LAA . Ailddechreuodd y rhaglen dinistrio ffeiliau yn 2014-15 ar ôl bwlch pan oedd newidiadau mewn polisïau cadw a dinistrio'n cael eu hadolygu cyn rhoi rhaglen briodol ar waith. Mae'r holl wastraff cyffredinol sy'n cael ei greu gan yr LAA yn cael ei waredu o dan contractau unigol ar lefel leol.

## Dŵr

| **Dŵr** | | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (metrau ciwbig)** | Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd (metrau ciwbig-$m^3$) | **Amh** | Amh |
| **Dangosyddion ariannol** | Cyfanswm costau cyflenwi dŵr (£000) | **£14.3** | £17.8 |

Mae'r data ariannol sydd ar gael yn dangos bod cost y dŵr a ddefnyddiwyd gan yr LAA wedi gostwng 19% yn 2014-15 o'i chymharu â 2013-14.

## Papur

| **Papur** | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| **Cost heb gynnwys TAW (£000)** | **£30.7** | £36.9 |

Mae'r data ariannol sydd ar gael yn dangos bod y gwariant ar bapur wedi gostwng 17% yn 2014-15 o'i gymharu â 2013-14.

Mae'r LAA yn chwilio drwy'r amser am ffyrdd gwell o gasglu data er mwyn monitro ei chyflawniadau ar gynaliadwyedd. Cyflwynir gwybodaeth ar ffurflenni chwarterol i'r MoJ.

# Adroddiad tâl

Mae'r bennod hon yn crynhoi polisi'r LAA ar dalu Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd ac Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd. Mae hefyd yn darparu manylion am gostau gwirioneddol a threfniadau contractiol.

Mae'r adroddiad Tâl wedi'i baratoi'n unol â'r gofynion yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r Prif Weinidog yn gosod y Polisi Tâl ar gyfer Uwch Weision Sifil (SCS) ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Gosodwyd cyflogau Aelodau Gweithredol Bwrdd yr LAA ar ôl trafodaethau rhwng Ysgrifennydd Parhaol yr MoJ a'i Chyfarwyddwyr Cyffredinol yn unol â'r rheolau yng *Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil*.

Nid oes Pwyllgor Tâl gan yr LAA. Mae prif swyddogaethau'r Pwyllgor hwn yn cael eu cyflawni drwy Bwyllgor Gweithlu'r MoJ. Mae Pwyllgor Gweithlu'r MoJ yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol a bydd holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol a Phrif Weithredwyr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, GLlTEM a'r LAA yn bresennol yn ei gyfarfodydd. Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn fisol i reoli talentau, galluogrwydd ac adnoddau pobl. Yn ogystal â hyn, mae'r pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod gweithlu'r Adran o faint priodol, ei fod yn cynnwys y sgiliau priodol, ei fod yn cael ei reoli'n dda, ei ysgogi'n briodol a'i drefnu'n gywir.

Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn wedi'u harchwilio gan yr archwilydd allanol, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

## Polisi Tâl

### Aelodau Gweithredol y Bwrdd

#### Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol bod gweision sifil yn cael eu penodi ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau lle y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Mae Aelodau Gweithredol y Bwrdd sy'n cael eu trafod yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai terfynu'r penodiad yn gynnar, heblaw am gamymddwyn, yn arwain at dderbyn digolledidiad gan yr unigolyn yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

#### Proses perfformiad

Mae SCS yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Fframwaith Rheoli Perfformiad SCS. Cynhelir dwy drafodaeth 'ffurfiol' ar gyfer yr Adolygiad Rheoli Perfformiad (PMR) bob blwyddyn a chyfarfodydd un i un rheolaidd wedyn i fonitro cynnydd a sicrhau bod yr holl amcanion yn parhau'n berthnasol.

#### Cyfanswm y cyflog a ffioedd

Mae cyflogau a lwfansau'n cwmpasu symiau pensiynadwy ac amhensiynadwy ac yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt o reidrwydd: cyflogau gros; goramser; hawliau neilltuedig i bwysoliadau Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat neu lwfansau eraill i'r graddau y maent yn agored i'w trethu yn y DU ac unrhyw gydnabyddiaeth. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n

ad-daliad am dreuliau sydd wedi'u hysgwyddo'n uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau'r unigolyn.

**Yr holl fuddion trethadwy**

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarparwyd gan y cyflogwr ac sydd wedi'u trin gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) fel enillion trethadwy.

Mae'r buddion mewn nwyddau sydd wedi'u datgan ar gyfer Aelodau Gweithredol ac Anweithredol y Bwrdd yn amcangyfrifon. Mae'r gwerthoedd terfynol i'w cytuno rhwng yr  a HMRC, a'u talu drwy Gytundeb Setlo Talu Wrth Ennill.

**Arian neu asedau eraill a dderbyniwyd o ganlyniad i gyflawni perfformiad ar gyfer y flwyddyn berthnasol**

Mae bonysau wedi'u seilio ar lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac fe'u gwneir o dan y broses arfarnu. Mae bonysau'n ymwneud â'r perfformiad yn y flwyddyn y daethant yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau sydd wedi'u cofnodi yn 2014-15 yn ymwneud â pherfformiad yn 2013-14 ac mae'r bonysau sydd wedi'u cofnodi yn 2013-14 yn ymwneud â pherfformiad yn 2012-13.

**Yr holl fuddion sy'n gysylltiedig â phensiwn**

Mae adran 229 o Ddeddf Cyllid 2004 yn pennu lefel flynyddol uchaf y cynilion pensiwn y gellir eu cronni o dan drefniant buddion diffiniedig cyn eu trethu. Swm y cynilion sydd wedi'i ddangos yn Nhabl D yw'r cynnydd yng ngwerth y buddion a addawyd i'r unigolyn dros y cyfnod mewnbynnu pensiwn (sef y flwyddyn ariannol yn achos yr LAA). Y cynnydd, os oes un, yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth buddion yr unigolyn ar ddechrau'r cyfnod mewnbynnu pensiwn (1 Ebrill 2014) a gwerth buddion yr unigolyn ar ddiwedd y cyfnod mewnbynnu pensiwn (31 Mawrth 2015); mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn tâl pensiynadwy hefyd.

Mae rheoliadau'n pennu bod rheolau HMRC i'w haddasu i'r diben hwn. Er mwyn prisio'r buddion, mae Trysorlys EM wedi cynghori cynlluniau pensiwn i ddefnyddio lluosydd o 20.

**Pecynnau ymadael**

Mae nodyn 3 i 'Nodiadau'r LAA i'r Datganiadau Ariannol' yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â phecynnau ymadael.

Nid oedd unrhyw ddigollediad yn daladwy i Aelodau Gweithredol y Bwrdd os oedd penodiad wedi'i derfynu'n gynnar.

**Aelodau Anweithredol y Bwrdd (NEBMs)**

Mae tri NEBM wedi'u recriwtio drwy gystadleuaeth agored yn unol â Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010. Fe'u penodir ar sail teilyngdod ac er cydnabod eu priod alluoedd a phrofiad gan banel sy'n cynnwys un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr MoJ ac arbenigwr pwnc sydd wedi'i ddirprwyo fel y bo'n berthnasol. Penododd y Prif Weithredwr yr NEBMs am gyfnod penodol o dair blynedd.

Nid yw NEBMs yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), ac nid oedd ganddynt hawl i dderbyn unrhyw fuddion neu dâl arall.

Pe byddai penodiad NEBM wedi'i derfynu am resymau heblaw bod ei gyfnod wedi dod i ben, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder benderfynu bod digolledlad yn daladwy ar sail natur y terfyniad a hyd y cyfnod a oedd yn weddill.

Mae manylion am delerau gwasanaeth, buddion a thâl NEBMs yn Nhablau E ac F.

## Aelodau Gweithredol y Bwrdd

Roedd y Prif Weithredwr a holl Aelodau Gweithredol y Bwrdd wedi dilyn y broses PMR sydd wedi'i nodi yn yr adran ar brosesau perfformiad ar dudalen 34. Roedd y cynnydd a'r amcanion wedi'u monitro ddwywaith y flwyddyn gan y tîm Adnoddau Dynol. Mae'r mesurau perfformiad ar gyfer pob Aelod Gweithredol o'r Bwrdd wedi'u bodloni.

## Tabl A: Uwch weithwyr yn eu swydd ar 31 Mawrth 2015 – Costau cyflogaeth

| | 2014-15 | | | | | 2013-14 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau Gweithredol y Bwrdd** | **Cyfanswm y cyflogau a'r ffioedd** | **Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf)** | **Taliadau Bonws** | **Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1,000 agosaf)** | **Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf)** | **Cyfanswm y cyflogau a'r ffioedd** | **Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf)** | **Taliadau Bonws** | **Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1,000 agosaf)** | **Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf)** |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Matthew Coats**[1] *Prif Weithredwr yr LAA a Chyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Corfforaethol yr MoJ* | 140-145 | 0.1 | 10-15 | 65 | 220-225 | 140-145 | - | 10-15 | 41[8] | 195-200 |
| **Hugh Barrett** *Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth* | 140-145 | - | 10-15 | 32 | 185-190 | 140-145 | - | 10-15 | 29[7] | 180-185 |
| **Owen Mapley** *Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad (Gadawodd 10 Ebrill 2014)* | 0-5 (cyfwerth ag amser llawn 110-115) | - | - | 1 | 5-10 | 110-115 | - | 10-15 | 45 | 165-170 |
| **Catherine Little**[4] *Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad (O 1 Ebrill 2014)* | 90-95 | - | -[5] | 34 | 125-130 | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh |
| **Ruth Wayte**[6] *Prif Gynghorydd Cyfreithiol i'r LAA* | 95-100 | - | - | 24 | 120-125 | 95-100 | - | - | 25[7,8] | 120-125 |
| **Shaun McNally CBE** *Cyfarwyddwr Rheoli Achosion* | 90-95[2] | 53.1[3] | 10-15 | 11 | 165-170 | 90-95[2] | 41.6[3] | - | 51 | 180-185 |

1. Er 3 Mehefin 2013 mae Matthew Coats wedi'i gyflogi hefyd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros Wasanaethau Corfforaethol yr MoJ. Mae'r tâl iddo'n cynnwys y ddwy rôl ac mae wedi'i gofnodi hefyd yng Nghyfrifon yr MoJ er mwyn dynodi ei gyfrifoldebau deuol.
2. Cafodd Shaun McNally lwfans Costau Teithio Ychwanegol o £9,761 am fod ei le gwaith wedi'i adleoli'n barhaol. Talwyd y lwfans ar ffurf cyfandaliad ac mae ar gyfer cyfnod o 3 blynedd. Mae swm pro rata o £3,254 wedi'i gynnwys yn y ffigur uchod.
3. Mae swydd y Cyfarwyddwr Rheoli Achosion yn gyfrifol am yr holl dimau Rheoli Achosion mewn swyddfeydd rhanbarthol ac felly gwnaethpwyd cytundeb gweithle deuol ar 1 Ebrill 2013. Mae'r costau uchod yn dangos y buddion mewn nwyddau am yr holl deithio yn ôl ac ymlaen i leoliadau gweithle deuol.
4. Roedd Catherine Little yn Gyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad Dros Dro o 1 Ebrill 2014 ac roedd ei swydd yn barhaol o 15 Rhagfyr 2014.
5. Cafodd Catherine Little daliad bonws am berfformiad yn ystod 2013-14 nad oedd yn gysylltiedig â'i rôl bresennol ar y Bwrdd.
6. Mae Ruth Wayte yn cael ei thalu drwy asiantaeth trydydd parti.
7. Ar gyfer yr aelodau hyn mae'r buddion cysylltiedig â phensiwn yn 2013-14 wedi'u cyfrifo ar sail eu gwasanaeth PCSPS o 1 Ebrill 2013.
8. Mae symiau wedi'u hailddatgan gan fod gwybodaeth ddiwygiedig wedi dod i law yn ystod y flwyddyn oddi wrth ein darparwr pensiwn.

## Tabl B: Band y tâl i'r Aelod Gweithredol o'r Bwrdd sydd uchaf ei dâl

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| **Band cyfanswm y tâl i'r Aelod Gweithredol o'r Bwrdd sydd uchaf ei dâl (£000)** | **155-160** | 155-160 |
| **Canolrif cyfanswm y tâl (£)** | **24,507** | 24,751 |
| **Cymhareb** | **6.4 : 1** | 6.36 : 1 |

Mae'n ofynnol bod cyrff adrodd yn datgelu'r berthynas rhwng cyflog yr Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd sydd uchaf eu tâl yn eu sefydliad ac enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Band y tâl i'r Aelod Gweithredol o'r Bwrdd sydd uchaf ei dâl yn yr LAA ym mlwyddyn ariannol 2014-15 oedd £155-160,000 (2013 -14: £155-160,000). Roedd hyn yn 6.4 gwaith y tâl canolrifol i'r gweithlu, a oedd yn £24,507 (2013-14: £24,751).

Yn 2014-15, cafodd un contractwr (2013-14: 2) gydnabyddiaeth ariannol yn y band £190-195,000 a oedd yn fwy na'r tâl i'r Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a oedd uchaf ei dâl.

Roedd cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad ar wahân, a buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid oedd yn cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiwn.

## Tabl C: Aelodau Gweithredol y Bwrdd – Contractau cyflogaeth

| Aelodau Gweithredol y Bwrdd | Dyddiad dechrau'r contract | Cyfnod gwasanaethu (blynyddoedd) | Cyfnod rhybudd (misoedd) |
|---|---|---|---|
| Matthew Coats | 27 Chwefror 2012 | 3 | 3 |
| Hugh Barrett | 1 Rhagfyr 2008 | 6 | 3 |
| Owen Mapley | 1 Rhagfyr 2010 | 4 | 3 |
| Catherine Little | 1 Ebrill 2014 | 1 | 3 |
| Ruth Wayte | 7 Gorffennaf 2003 | 11 | 3 |
| Shaun McNally CBE | 22 Hydref 2012 | 2 | 3 |

### Buddion pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff gweision sifil ddewis bod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; un ai cynllun cyflog terfynol (Clasurol, Premiwm neu Glasurol a Mwy); neu gynllun Cyfartaledd Gyrfa (Nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu a daw'r arian i dalu cost y buddion yn sgîl pleidlais yn y Senedd bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynllun Clasurol, Premiwm, Clasurol a Mwy a Nuvos yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Caiff aelodau ddewis un ai'r trefniant priodol â buddion diffiniedig neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu ag arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae'r Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd yn aelodau o'r Cynlluniau Clasurol, Premiwm, a Nuvos. Mae cyfraniadau'r cyflogai'n gysylltiedig â'i gyflog ac yn amrywio rhwng 1.5% a 6.85% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun Clasurol a 3.5% a 8.85% ar gyfer y cynlluniau Premiwm, Clasurol a Mwy a Nuvos.

O 1 Ebrill 2015 bydd set sengl o gyfraddau cyfrannu'r cyflogai ar draws PCSPS wedi'i seilio ar fand tâl yr aelod, ar gyfer pa Gynllun bynnag y mae'r aelod yn cyfrannu iddo. Bydd cynnydd yn y gyfradd cyfrannu ar gyfer aelodau o'r cynllun Clasurol ac aelodau o'r cynllun Alpha a oedd gynt yn aelodau o'r cynllun Clasurol ar 31 Mawrth 2015.

### Y cynllun Clasurol

Mae'r buddion pensiwn yn y cynllun Clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth cyfrifadwy. Yn ogystal â hyn, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol.

### Y cynllun Premiwm

Yn y cynllun Premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth cyfrifadwy. Ni thelir cyfandaliad yn awtomatig o dan y cynllun Premiwm.

### Y cynllun Nuvos

Yn y cynllun Nuvos bydd yr aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r Cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y Cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif enillion pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn Gynllun honno a chaiff y pensiwn a gronnwyd ei ddiweddaru'n unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau.

Ym mhob achos caiff aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau sydd wedi'u pennu gan Ddeddf Cyllid 2004.

### Cyfrif Pensiwn Partneriaeth

Mae'r Cyfrif Pensiwn Partneriaeth yn drefniant pensiwn ar gyfer cyfranddeiliaid. Bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (yn ôl oedran yr aelod) at gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid sydd wedi'i ddewis gan y cyflogai o blith rhai a gynigir gan banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniadau cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r enillion pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r enillion pensiynadwy i dalu

am gost yswiriant am risg i fuddion a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronnus a gofnodwyd yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r Cynllun os yw wedi cyrraedd yr oed pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr Oedran Pensiwn Arferol (NPA) yw 60 i aelodau'r cynllun Clasurol, Premiwm a Clasurol a Mwy a 65 i aelodau Nuvos. Mae Tabl D yn dangos hawliau pensiwn yr Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd.

Roedd buddion pensiwn i weision sifil ar secondiad i'r  wedi'u darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil sy'n cael eu rheoli gan yr MoJ. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn:

www.civilservicepensionscheme.org.uk

**Cynllun Alpha**

Mae Alpha yn gynllun pensiwn newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2015. Bydd y rhan fwyaf o aelodau PCSPS (a chyflogeion newydd) yn cael eu cofrestru yn y Cynllun hwn.

Mae Alpha yn darparu pensiwn buddion diffiniedig wedi'i seilio ar Gyfartaledd Gyrfa, felly bydd aelodau'n cronni buddion pensiwn ar sail canran o'u henillion bob blwyddyn. Yr NPA o dan gynllun Alpha yw'r oed diweddarach o 65, neu Oedran Pensiwn Gwladol yr aelod.

Gellir cael rhagor o fanylion am y Cynllun yn:

www.civilservicepensionscheme.org.uk/members/the-new-pension-scheme-alpha/

Tabl D: Aelodau Gweithredol y Bwrdd – Costau pensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Cyfanswm y pensiwn cronnus sy'n daladwy yn 60 oed ar 31 Mawrth 2015 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir symudiad yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig sy'n daladwy yn 60 oed | CETV ar 31 Mawrth 2015 | CETV ar 31 Mawrth 2014 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Matthew Coats** [1] | Pensiwn 55-60<br>Cyfandaliad 0 | Pensiwn 2.5-5<br>Cyfandaliad 0 | 797 | 711[2] | 43 |
| **Hugh Barrett** [1] | Pensiwn 15-20<br>Cyfandaliad 0 | Pensiwn 0-2.5<br>Cyfandaliad 0 | 364 | 309 | 29 |
| **Owen Mapley** [1] | Pensiwn 10-15<br>Cyfandaliad 0 | Pensiwn 0-2.5<br>Cyfandaliad 0 | 138 | 138 | 0 |
| **Catherine Little**[4] | Pensiwn 2.5-5<br>Cyfandaliad 0 | Pensiwn 2.5-5<br>Cyfandaliad 0 | 35 | 15 | 8 |
| **Ruth Wayte** [1] | Pensiwn 0-5<br>Cyfandaliad 0 | Pensiwn 0-2.5<br>Cyfandaliad 0 | 48 | 23[2] | 15 |
| **Shaun McNally CBE** [3] | Pensiwn 30-35<br>Cyfandaliad 95-100 | Pensiwn 0-2.5<br>Cyfandaliad 0-2.5 | 519 | 486 | 6 |

1. Mae Matthew Coats, Owen Mapley, Hugh Barrett a Ruth Wayte yn aelodau o Gynllun Premiwm PCSPS.
2. Mae symiau wedi'u hailddatgan gan fod gwybodaeth ddiwygiedig wedi dod i law yn ystod y flwyddyn oddi wrth ein darparwr pensiwn.
3. Mae Shaun McNally CBE yn aelod o Gynllun Clasurol PCSPS.
4. Mae Catherine Little yn aelod o Gynllun Nuvos PCSPS.

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y CETV yw gwerth y buddion a gronnwyd gan aelod mewn cynllun pensiwn ar adeg benodol wedi'u cyfalafu yn ôl asesiad gan actiwari. Mae'r buddion a brisiwyd hefyd yn cynnwys unrhyw bensiwn dibynnol sy'n daladwy i briod yr aelod o'r cynllun. Pan fydd aelod yn gadael ei gynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi'u cronni, bydd y cynllun yn gwneud taliad CETV i gynllun pensiwn cofrestredig arall.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangoswyd yn ymwneud â'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni drwy gydol ei gyfnod yn aelod o'r Cynllun ac maent yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn a drosglwyddwyd i PCSPS o drefniadau pensiwn eraill. Caiff y CETV ei gyfrifo'n unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n rhoi cyfrif am unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan hawlir y buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Hwn yw'r cynnydd yn y CETV sydd wedi'i ariannu gan y cyflogwr heb gynnwys yr effaith o amrywiadau yn y gwerth trosglwyddo, fel symudiadau yn y farchnad fuddsoddiadau. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronnus yn unol â chwyddiant neu gyfraniad wedi'i dalu gan y cyflogai, ond mae'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall. Defnyddir ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau a diwedd y cyfnod.

## Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd (NEBMs)

Roedd yr NEBMs yn gweithio'n rhan-amser ac roedd eu rôl yn golygu neilltuo 20 o ddiwrnodau y flwyddyn yn ystod 2014-15. Maent yn dal eu swydd hyd ddiwedd y cyfnod y penodwyd nhw ar ei gyfer.

Gellir terfynu unrhyw benodiadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ôl ei ddisgresiwn.

### Costau cyflogaeth – NEBMs

Tabl E: NEBMs yn eu swydd ar 31 Mawrth 2015 – costau cyflogaeth

| | 2014-15 | | 2013-14 | |
|---|---|---|---|---|
| **Aelod Anweithredol o'r Bwrdd** | **Cyfanswm ffioedd** | **Yr holl fuddion trethadwy[2]** | **Cyfanswm ffioedd** | **Yr holl fuddion trethadwy[2]** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **John Grosvenor** *NEBM Archwilio a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio'r LAA* | 10.4[1] | 0.5[3] | 10.4[1] | 0.4 |
| **Eric Gregory** | 8.0 | 0.9[3] | 8.0 | 1.1 |
| **Andrew Lockley** | 8.0 | 1.3[3] | 8.0 | 1 |


1. Mae'r gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys tâl o £2,400 iddo fel Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r LAA.
2. Mae cost y treuliau'n amrywio yn ôl y pellter rhwng cartref yr AABau a swyddfa'r LAA, ymrwymiadau teithio eraill sy'n ofynnol i gyflawni eu rôl, a'r amser sydd wedi'i neilltuo gan yr AAB penodol. Ad-dalwyd costau teithio a threuliau eraill yr AABau gan gynnwys unrhyw dreth a dalwyd ar y treuliau hynny.
3. Yn achos Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd, mae'r hawliadau am gostau teithio a chynhaliaeth yn ddarostyngedig i Dreth Incwm ac Yswiriant Gwladol o dan reolau HMRC. Mae'r LAA yn talu hyn drwy Gytundeb Setlo Talu Wrth Ennill.

Tabl F: NEBMs – contractau cyflogaeth

| Aelod Anweithredol o'r Bwrdd | Dyddiad dechrau'r contract | Cyfnod gwasanaethu (blynyddoedd) |
|---|---|---|
| John Grosvenor | 1 Tachwedd 2012 | 2 |
| Eric Gregory | 1 Ionawr 2013 | 2 |
| Andrew Lockley | 31 Ionawr 2013 | 2 |

Nid oedd unrhyw NEBM wedi gadael yr LAA yn ystod 2014-15.

**Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**



**Matthew Coats**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
5 Mehefin 2015

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, rhoddodd Trysorlys EM gyfarwyddyd i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol gyfrifon adnoddau sy'n dangos yr adnoddau sydd wedi'u cael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ac o'i halldro adnoddau net, ei defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2014 i 2015 ac yn benodol:

- Cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddodd Trysorlys EM, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- barnu ac amcangyfrif ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwysadwy sydd wedi'u nodi yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2014 i 2015* a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw;
- sicrhau, hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni. Bydd y Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam dyladwy i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a chadarnhau bod archwilwyr yr LAA yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r MoJ wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidddra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol drosto, dros gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, wedi'u nodi yn *Managing Public Money* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

# Datganiad llywodraethu

Paratoir y datganiad Llywodraethu bob blwyddyn. Mae'n egluro sut y mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cyflawni ei gyfrifoldeb dros drefnu a rheoli adnoddau'r LAA yn ystod y flwyddyn. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio trefniadau llywodraethu'r LAA ac yn darparu asesiad o'r ffordd yr ydym wedi cydbwyso risg, sicrwydd a rheolaeth drwy gydol 2014-15.

### Cyflwyniad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal system lywodraethu gadarn, rheolaeth ar risg, a rheolaeth fewnol sy'n cyfrannu at gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr , gan ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi yn "*Managing Public Money*" a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Yn fy natganiad, rwyf yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol y mae'r LAA yn gweithredu oddi mewn iddo, yn adolygu effeithiolrwydd ein trefniadau goruchwylio, ac yn disgrifio sut y mae'r rhain wedi fy sicrhau bod yr yn arfer stiwardiaeth effeithiol dros y gronfa gyhoeddus a'i bod yn cyflawni ei blaenoriaethau busnes.

## Fframwaith Llywodraethu

### Y berthynas â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ)

Mae'r 'Ddogfen Fframwaith' rhwng yr MoJ a'r LAA yn egluro'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd, ariannu, staffio a gweithredu'r LAA. Cytunwyd arni rhwng Ysgrifennydd Parhaol yr MoJ a Phrif Weithredwr yr LAA, gyda chymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor. Gellir gweld y cyfan o'n trefniadau llywodraethu a'r ddogfen Fframwaith ar wefan GOV.UK drwy ddilyn y ddolen hon: Legal Aid Agency Governance

### Y berthynas â'r Senedd

Mae'r LAA yn agored i graffu gan y Senedd. Mae hyn yn cynnwys Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC), y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder (JSC) a'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO). Mae'r wedi cymryd rhan yn yr ymchwiliadau canlynol yn ystod 2014-15:

### Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Gyfraith Estraddodi

Penodwyd y pwyllgor ar 12 Mehefin 2014 i ystyried ac adrodd ar gyfraith ac ymarfer mewn perthynas ag estraddodi, yn enwedig Deddf Estraddodi 2003. Cyhoeddodd y pwyllgor ei adroddiad ym Mawrth 2015, o dan y teitl 'Extradition: Law and Practice'. Mae nifer o argymhellion yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chymorth cyfreithiol gan gynnwys datblygu cynllun cyfreithiwr estraddodi arbenigol ar ddyletswydd a sylwadau am ddefnyddio prawf moddion mewn achosion estraddodi. Mae'r Llywodraeth yn ystyried yr argymhellion manwl a bydd yn cyhoeddi ymateb ffurfiol.

### Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Amcan yr ymchwiliad i'r gweithredu ar y diwygiadau i gymorth cyfreithiol sifil oedd:

- Pennu holl gostau'r diwygiadau ac edrych ar y camau a gymerwyd gan yr MoJ i ddeall costau ehangach y diwygiadau i gymorth cyfreithiol sifil cyn gwneud newidiadau;
- ymchwilio i ddealltwriaeth yr MoJ o'r modd a'r rheswm y mae pobl yn defnyddio cymorth cyfreithiol sifil;
- canfod sut y mae'r MoJ yn bwriadu targedu cymorth cyfreithiol sifil yn well ar y rheini sy'n gymwys ac edrych ar y rheolaeth ar y farchnad cymorth cyfreithiol, gan gynnwys ansawdd y gwasanaethau y mae'n talu amdanynt.

Mae'r LAA wedi derbyn yr argymhellion sydd wedi'u cyfeirio at yr Asiantaeth yn yr adroddiad.

Ymhlith yr argymhellion a oedd yn ymwneud yn benodol â'r LAA yr oedd:

- Bod yr LAA, yn unol â'r addewid yn ei hasesiad effaith yn 2012, yn sefydlu mecanwaith dibynadwy i adnabod ac ymdrin ag unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth, wedi'i seilio ar ddadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, fel y gall fod yn hyderus bod y rheini sy'n parhau'n gymwys yn gallu cael gafael ar gymorth cyfreithiol.
- Bod yr LAA yn gosod targedau i wella ansawdd cyngor cyfreithiol ac yn paratoi cynllun ac amserlen i gyrraedd y targedau hynny. Dylai wneud hyn drwy bennu ac ymdrin â'r rhesymau y mae darparwyr yn methu ei phrofion sicrhau ansawdd, gan gynnwys a yw'r gyfradd methu uchel wedi'i hysgogi neu beidio gan y gostyngiad mewn ffioedd cymorth cyfreithiol.

**Y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder**

Roedd yr ymchwiliad i effaith y newidiadau mewn cymorth cyfreithiol sifil o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 wedi edrych ar y canlyniadau i'r ddeddfwriaeth a oedd wedi'u canfod yng nghyd-destun ei gasgliadau ac argymhellion blaenorol, yn ogystal ag ystyried unrhyw broblemau newydd sydd wedi codi. Bydd yr MoJ yn ymateb i'r adroddiad yn y dyfodol agos.

**Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO)**

Mae'r  wedi sefydlu gweithdrefn gwyno ddwy haen sy'n cynnig ffordd o adolygu cwynion yn wrthrychol cyn i'r achwynydd benderfynu a fydd yn cyfeirio'r mater at y PHSO drwy ei Aelod Seneddol lleol. Mae'r  yn cwrdd yn rheolaidd â swyddog cyswllt y PHSO er mwyn:

- Trafod y cynnydd ar achosion penodol;
- darparu diweddariadau ar newidiadau e.e. newidiadau mewn polisi a'u heffaith bosibl ar y PHSO;
- sicrhau bod yr arferion gorau ar y ddwy ochr yn cael eu rhannu a rhoi adborth adeiladol.

Mae'r  hefyd wedi sefydlu cyfarfodydd rheolaidd â swyddog cyswllt y PHSO a GLlTEM gan fod y themâu a'r perthnasoedd gweithio'n debyg.

Ar ddiwedd ymchwiliad, bydd yr LAA yn cymryd y camau angenrheidiol neu'n gweithredu'r argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y PHSO. Gall hyn gyfrannu at newidiadau mewn prosesau a ffyrdd o weithio a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y darparu ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

**Trefniadau Llywodraethu'r LAA**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn cael cymorth gan Fwrdd yr LAA, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARC) a'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae'r pwyllgorau hyn yn eu tro'n gwneud penderfyniadau ar sail gwaith a chraffu manwl gan y Bwrdd Newid Chwarterol, y Grŵp Buddsoddi, a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol. Mae'r oruchwyliaeth dros ein rhaglenni newid wedi'i chryfhau drwy sefydlu ein Swyddfa Portffolio Newid Ganolog (CCPO), sy'n darparu sicrwydd ynghylch cyflawni a gwireddu buddion.

Hon yw'r ail flwyddyn i mi ymgymryd â rôl a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol, a ddynodwyd i mi gan yr Arglwydd Ganghellor. Rwyf yn cael cyngor gan Brif Gynghorydd Cyfreithiol yr LAA ac mae dau banel wedi'u sefydlu i ddarparu adolygiadau annibynnol

Mae'r tabl isod yn dangos pwy sy'n aelod ffurfiol a phwy sy'n dod i gyfarfodydd ein pwyllgorau:

| Enw/Teitl Swydd | Gweithredol/ Anweithredol | Rhyw G/B | Bwrdd yr LAA | | Tîm Rheoli Gweithredol | | ARC | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Aelod | Wedi'i wahodd | Aelod | Wedi'i wahodd | Aelod | Wedi'i wahodd |
| Matthew Coats,<br>Prif Weithredwr yr LAA<br>*Cadeirydd y Bwrdd* | Gweithredol | G | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Hugh Barrett<br>*Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth* | Gweithredol | G | ✓ | | ✓ | | | |
| Owen Mapley<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad (Gadawodd 10 Ebrill 2014)* | Gweithredol | G | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Catherine Little<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad (dros dro o 1 Ebrill 2014 ac yn barhaol wedyn o 15 Rhagfyr 2014)* | Gweithredol | B | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Ruth Wayte<br>*Cynghorydd Cyfreithiol i'r LAA* | Gweithredol | B | ✓ | | ✓ | | | |
| Shaun McNally CBE<br>*Cyfarwyddwr Cyffredinol Rheoli Achosion* | Gweithredol | G | ✓ | | ✓ | | | |
| Laurence Lewis<br>*Pennaeth Technoleg Gwybodaeth, Digidol a Newid* | Amh | G | | ✓ | | ✓ | | |
| Ann Beasley<br>*Cyllid Cyffredinol, yr MoJ* | Amh | B | | ✓ | | | | |
| *Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol* | Amh | B | | ✓ | ✓ | | | |
| *Pennaeth y Ganolfan Gorfforaethol* | Amh | B | | ✓ | ✓ | | | |
| John Grosvenor *(Cyllid*)*<br>*Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio* | Anweithredol | G | ✓ | | | | ✓ | |
| Andrew Lockley *(Cyfreithiol*)* | Anweithredol | G | ✓ | | | | ✓ | |
| Eric Gregory *(Masnachol*)* | Anweithredol | G | ✓ | | | | ✓ | |
| *Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol* | Amh | Amh | | | | | | ✓ |
| *Cynrychiolydd Archwilio Mewnol* | Amh | G | | | | | | ✓ |
| *Cynrychiolydd Polisi Cymorth Cyfreithiol* | Amh | Amh | | ✓ | | | | |

* Mae eu harbenigedd a'u gwybodaeth arbenigol yn y sectorau ariannol, masnachol a chyfreithiol yn helpu'r Bwrdd i arfer ei ddyletswyddau yn y meysydd blaenoriaeth hyn.

o'n penderfyniadau ar ariannu achosion penodol. Mae rhagor o fanylion ar gael ar y ffordd y mae'r swyddogaethau hyn wedi'u cyflawni yn fy adroddiad llawn fel Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol.

**Rôl ac Effeithiolrwydd Bwrdd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

Mae Bwrdd yr LAA wedi fy nghynorthwyo a'm cynghori wrth gyflawni fy nyletswyddau'n Swyddog Cyfrifyddu. Mae Bwrdd yr LAA wedi diffinio cyfeiriad strategol yr  ac wedi herio effeithiolrwydd yr LAA o ran perfformiad a chyflawniad drwy gydol y flwyddyn. Mae Bwrdd yr LAA yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddarparu sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ac mae wedi cyflawni hyn drwy:

- Helpu'r Prif Weithredwr i sicrhau bod yr LAA yn llwyr atebol i'r MoJ a'r Llywodraeth ehangach drwy gyflawni ei hamcanion a'i blaenoriaethau;
- herio, goruchwylio a chraffu'n fanwl ar berfformiad yr LAA, gan sicrhau bod risgiau sefydliadol wedi'u pennu a'u lliniaru a bod cyfleoedd i wella'n barhaus yn cael eu pennu, eu monitro a'u hyrwyddo;
- helpu'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau strategol a busnes yr LAA;
- sicrhau bod prosesau penderfynu'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gadarn ac wedi'u seilio ar dystiolaeth briodol;
- helpu'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol i gyflawni ei ddyletswyddau, gan sicrhau bod arferion dibynadwy ar waith i gynnal y broses benderfynu annibynnol;
- goruchwylio'r cyflawni ar ddyletswyddau statudol yr LAA gan gynnwys Iechyd a Diogelwch a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae Bwrdd yr LAA wedi'i fodloni bod y wybodaeth reoli a gafodd wedi'i alluogi i weithredu ar sail egwyddorion cydnabyddedig arferion busnes da: arweinyddiaeth, effeithiolrwydd, atebolrwydd, a chynaliadwyedd. Er mwyn hwyluso goruchwylio a phenderfynu, mae Bwrdd yr LAA yn cael pecyn Cyllid a Pherfformiad integredig misol sy'n ymdrin â darparu gwasanaethau; cyllid ac effeithlonrwydd; gohebiaeth swyddogol a delio â gwasanaethau cwsmeriaid, ac ymgysylltu â staff.

Yn ystod y flwyddyn roedd Bwrdd yr LAA wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- Perfformiad ariannol a gweithredol yr LAA ar sail dangosyddion perfformiad allweddol;
- y cynnydd ar Raglenni Newid yr  (Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, y Rhaglen Gyflawni Integredig a'r Rhaglen Newid Troseddau);
- ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol;
- cydweithio'n agos â'r Adran ehangach i rannu arferion da a rheoli ffactorau dibynnol ehangach;
- hyrwyddo dealltwriaeth o waith y Bwrdd ar draws y sefydliad (crynodebau ar y fewnrwyd; sylwadau gan aelodau o'r Bwrdd, a sylwebydd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd);
- sesiynau penodol ar risg a sicrwydd.

Ym Mai 2015, cynhaliodd y Bwrdd hunanasesiad o'i berfformiad yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015. Roedd yr adolygiad hwn wedi cadarnhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gydlynol ac effeithiol fel bwrdd a bod gwybodaeth reoli briodol ar gael i ni fel ein bod yn gallu herio mewn ffordd agored ac adeiladol. Er hynny, mae meysydd i'w datblygu bob amser a byddwn yn canolbwyntio ar wella ein blaengynllunio, gan gynnwys ystyriaeth gynnar i risg wrth ddarparu gwasanaethau a'r effaith bosibl o benderfyniadau polisi'r Adran a Llywodraeth ehangach ar ein busnes.

Cyfarfu Bwrdd yr LAA 12 gwaith yn ystod 2014-15, gan gynnwys sesiwn eithriadol i adolygu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr LAA 2013-14. Roedd hyn yn cynnwys dwy sesiwn ar strategaeth hefyd.

| Aelod Bwrdd yr LAA | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| **Aelodau Gweithredol** | |
| Matthew Coats<br>*Prif Weithredwr yr LAA a Chyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Corfforaethol yr MoJ* | 12 o 12 |
| Catherine Little<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad* | 12 o 12 |
| Owen Mapley<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad (gadawodd 10 Ebrill 2014)* | 1 o 1 |
| Hugh Barrett<br>*Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth* | 11 o 12 |
| Shaun McNally CBE<br>*Cyfarwyddwr Rheoli Achosion* | 12 o 12 |
| Ruth Wayte<br>*Prif Gynghorydd Cyfreithiol* | 7 o 12 |
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd** | |
| John Grosvenor *(Cyllid*)*<br>*Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio* | 10 o 12 |
| Andrew Lockley<br>*(Cyfreithiol*)* | 12 o 12 |
| Eric Gregory<br>*(Masnachol*)* | 11 o 12 |

* Mae eu harbenigedd a'u gwybodaeth arbenigol yn y sectorau ariannol, masnachol a chyfreithiol yn helpu Bwrdd yr LAA i arfer ei ddyletswyddau yn y meysydd blaenoriaeth hyn.

## Cydymffurfio â Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2011

Mae'r Bwrdd wedi'i fodloni bod yr LAA wedi cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Ymarfer ar gyfer adrannau Llywodraeth ganolog, i'r graddau y mae'n gymwys i asiantaeth weithredol. Roedd un eithriad: nid oes Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu penodedig gan yr LAA sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth ar dalentau, cynllunio ar gyfer olyniaeth, cynlluniau cymhelliant, a strwythurau llywodraethu. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u cwmpasu gan gylchoedd gwaith Bwrdd yr LAA, y Pwyllgor Archwilio, a'r Tîm Rheoli Gweithredol gyda'i gilydd.

Mae'r MoJ yn darparu i'r LAA yr holl ymchwil sydd ei hangen ar gyfer datblygu polisi a gwerthuso rhaglenni. Oherwydd hyn, nid yw'r LAA yn berchen ar unrhyw ofynion sicrhau ansawdd ar gyfer modelau dadansoddi busnes critigol.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARC)

Mae'r ARC yn helpu'r Swyddog Cyfrifyddu a Bwrdd yr LAA i gyflawni eu cyfrifoldebau ar faterion sy'n ymwneud ag archwilio mewnol ac allanol, llywodraethu corfforaethol, polisïau gwrth-dwyll, rheolaeth fewnol a rheoli risg, a Chyfrifon Blynyddol yr LAA. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu adroddiadau archwilio mewnol, adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac adolygiadau eraill o'n gwaith fel adolygiadau Gateway.

Mae aelodaeth yr ARC yn cynnwys tri NEBM yr sy'n cynnig dealltwriaeth a her yn eu meysydd arbenigedd sy'n cynnwys cyllid, y gyfraith a masnach. Roedd y Cadeirydd hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd ARC Corfforaethol yr MoJ yn 2014-15. Yn ystod y flwyddyn bu'r Prif Weithredwr

a Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad, y Rheolwr Ariannol, Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd, Pennaeth Archwilio Mewnol (yr MoJ) a chynrychiolwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd yr ARC.

Yn ystod y flwyddyn canolbwyntiodd yr ARC ar y canlynol:

- Adolygiadau chwarterol o adroddiadau sicrwydd yr LAA ar reoli risg, profion craidd, parhad busnes, a diogelwch gwybodaeth;
- monitro adroddiadau sicrwydd yr LAA ar reoli risg, profion craidd, parhad busnes, a diogelwch gwybodaeth;
- datblygu a gweithredu polisi newydd yr LAA ar Chwythu'r Chwiban;
- cytuno ar y cynlluniau archwilio mewnol ac allanol blynyddol;
- monitro'r canlyniadau i adroddiadau archwilio mewnol a chymryd y camau y cytunwyd arnynt;
- ystyried adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â gwerth am arian y diwygiadau i gymorth cyfreithiol sifil.

Cyfarfu'r ARC bum gwaith yn ystod 2014-15.

| Aelod o'r Pwyllgor Archwilio | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| **Aelodau Anweithredol** | |
| John Grosvenor | 5 o 5 |
| Andrew Lockley | 4 o 5 |
| Eric Gregory | 5 o 5 |

Cwblhaodd yr ARC ei hunanasesiad blynyddol o effeithiolrwydd ym Mai 2015, lle'r oedd wedi edrych ar gwmpas ac ansawdd y wybodaeth reoli, cysylltiadau â'r MoJ a rôl y rhai eraill a fu'n bresennol a'u mewnbwn. Casglwyd a dadansoddwyd adborth gan aelodau'r ARC, archwilwyr, ac eraill a fu'n bresennol. Roedd hyn wedi cadarnhau bod y pwyllgor wedi cymryd y camau y cytunwyd arnynt yn yr adolygiad blynyddol blaenorol, gan gynnwys monitro perfformiad tîm Archwilio Mewnol yr MoJ a oedd newydd ei benodi; cael sicrwydd ynghylch Rhaglenni Mewnol yr LAA a monitro'r strategaeth Ymadfer ar ôl Trychineb a chynlluniau parhad busnes. Daeth y Pwyllgor Archwilio i'r casgliad bod ei drafodaethau'n iach ac agored, bod sicrwydd rheoli o ansawdd uchel ar gael iddo, a bod ganddo gymysgedd priodol o brofiad i gyflawni ei rolau'n effeithiol.

Paratodd Cadeirydd yr ARC adroddiad blynyddol ar Sicrwydd ar gyfer 2014-15. Roedd hwn yn cynnwys crynodeb o'r prif faterion yr oedd yr ARC wedi canolbwyntio arnynt, yn tynnu sylw at y gwelliannau sylweddol a gafwyd yn y system sicrwydd yn ystod y flwyddyn ac yn nodi rhai meysydd allweddol y bydd yr ARC yn eu hystyried yn y flwyddyn ariannol nesaf sef:

- Rheolaethau ar lywodraethu gwybodaeth, parhad busnes, gwendidau yn y seilwaith a chwythu'r chwiban;
- sylw parhaus i'r sicrwydd a roddir ynghylch Rhaglenni Newid yr LAA, i ofalu eu bod yn creu'r buddion arfaethedig;
- yr hierarchaeth risg a sicrwydd gyffredinol, gan gynnwys sicrwydd ac uwchgyfeirio rhwng ARC yr LAA ac ARC yr MoJ.

**Y Tîm Rheoli Gweithredol**

Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn adrodd i'r Prif Weithredwr, ac yn gofalu am reoli'r LAA o ddydd i ddydd. Bydd y Tîm Rheoli Gweithredol yn cwrdd bob wythnos.

Ei brif gyfrifoldebau yw:

- Datblygu a chyflawni amcanion strategol, gwerthoedd a diwylliant yr LAA, gan sicrhau bod cynlluniau cyflawni effeithiol ar waith i wneud hynny;
- rheoli perfformiad ariannol a gweithredol yr LAA gan gynnwys asesu adroddiadau perfformiad ac ariannol misol, adolygu perfformiad ar sail amcanion strategol yr LAA;
- hyrwyddo gweithredu agored ac atebolrwydd yng ngwaith yr LAA.

Yn ogystal â hyn, bydd y Tîm Rheoli Gweithredol yn cwrdd yn chwarterol ar ffurf Bwrdd Newid yr LAA i oruchwylio rhaglenni newid y sefydliad, sy'n cynnwys Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, y Rhaglen Gyflawni Integredig a'r Rhaglen Newid Troseddau. Mae'n cael cymorth i gyflawni'r rôl hon gan yr CCPO a sefydlwyd yn ddiweddar sy'n ei alluogi i reoli ei bortffolio'n effeithiol ac effeithlon drwy:

- Sicrhau bod yr adnoddau ac arbenigedd priodol ar gael i dimau;
- hwyluso gweithio cydweithredol rhwng timau prosiect;
- darparu sicrwydd bod risgiau, ffactorau rhyngddibynnol a thargedau ariannol a darparu'n cael eu rheoli a'u bodloni.

**Y Grŵp Buddsoddi**

Mae Grŵp Buddsoddi'r LAA yn gyfrifol am strategaeth buddsoddi cyfalaf yr LAA, mae'n datblygu gofyniad y rhaglen gyfalaf ac yn negodi'r dyraniad cyfalaf blynyddol. Mae gofyniad y strategaeth a'r rhaglen gyfalaf yn cael ei gyflwyno i Dîm Rheoli Gweithredol yr LAA i'w gymeradwyo'n derfynol.

Mae'r Grŵp Buddsoddi yn adolygu achosion busnes a briffiau prosiect ar gyfer cynigion penodol ac mae'n fforwm ar gyfer herio sy'n sicrhau bod cynigion yn gyson â strategaeth ac yn fforddiadwy. Mae'r Grŵp Buddsoddi yn gofalu bod cymeradwyaeth berthnasol wedi'i rhoi gan yr MoJ, Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM cyn dechrau ar waith. Bydd y Grŵp yn monitro gwariant cyfalaf a digidol, ac unrhyw wariant refeniw cysylltiedig, ar gyfer mentrau darparu, gan nodi'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau i'w hystyried ar gyfer mentrau yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp Buddsoddi yn cwrdd bob mis. Ei gadeirydd yw'r Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad a bydd cynrychiolwyr o holl gyfarwyddiaethau'r LAA yn ei gyfarfodydd. Mae rheolwyr prosiect a pherchenogion busnes yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd i gyflwyno eu hachosion busnes a briffiau prosiect ac ymateb i gwestiynau arnynt yn ôl yr angen.

**Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (H&S) Cenedlaethol yr LAA**

Mae Pwyllgor H&S Cenedlaethol yr LAA wedi cwrdd yn chwarterol drwy gydol y flwyddyn. Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Deiliad Dyletswydd H&S (Cyfarwyddwr Rheoli Achosion) ac mae ei aelodaeth yn cynnwys: tîm H&S Corfforaethol yr LAA, cynrychiolydd Arweinwyr Safleoedd, cynrychiolwyr Undebau Llafur, cynrychiolydd uwch o bob cyfarwyddiaeth busnes, Pennaeth tîm Tân, H&S yr MoJ a'r Uwch Swyddog H&S yn GLlTEM. Bydd y Pwyllgor H&S Cenedlaethol yn canolbwyntio ar adolygu'r gofrestr risg Corfforaethol H&S a thrafod rheolaethau newydd; cytuno ar anghenion hyfforddi, adolygu

a hyrwyddo'r polisi H&S ym mhob rhan o'r . Mae'r Cyfarwyddwr Rheoli Achosion a Chynghorydd H&S yr LAA yn aelodau hefyd o Bwyllgor H&S Corfforaethol yr MoJ sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn i rannu arferion da a rheoli risg H&S yn yr Adran ehangach.

### Rheoli Risg

Mae fframwaith rheoli risg yr LAA yn elfen hanfodol yn ei threfniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am adnabod, asesu a rheoli risgiau a allai effeithio ar allu'r LAA i gyflawni ei hamcanion strategol. Mae'r LAA yn defnyddio cyfres o gofrestri risg i reoli risg ar draws y sefydliad:

- Cofrestr Risg Strategol yr MoJ: Mae'r  yn adrodd ar ei risgiau corfforaethol lefel uchaf i'r MoJ i'w hystyried a'u trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd Adrannol.
- Cofrestr Risg Gorfforaethol: Caiff ei diweddaru'n fisol a'i chynnwys yn y pecyn Cyllid a Pherfformiad integredig ar gyfer Bwrdd yr LAA a'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae hyn yn sicrhau bod risg strategol yn cael ei rheoli gan yr aelod perthnasol o'r Tîm Rheoli Gweithredol, a bod cyfrifoldeb uniongyrchol dros y systemau a'r rheolaethau er mwyn rheoli risgiau a allai amharu ar y gallu i gyflawni amcanion y cyfarwyddiaethau. Yn eu tro, bydd risgiau corfforaethol arwyddocaol yn cael eu cofnodi a'u cynnwys yng Nghofrestr Risg Strategol yr MoJ fel y gellir craffu ymhellach ar y dull o drafod risgiau a rhoi cymorth os yw'n briodol.
- Cofrestri Risg Unedau Busnes: Mae'r rhain yn cael eu diweddaru'n chwarterol a'u defnyddio gan Ddirprwy Gyfarwyddwyr i reoli risgiau a allai amharu ar y gallu i weithredu ac i uwchgyfeirio risgiau a allai fod yn arwyddocaol neu'n gylchol i sylw'r Tîm Rheoli Gweithredol a'r Bwrdd drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Cofrestri Risg Rhaglenni a Phrosiectau: Mae'r Uwch Berchennog Cyfrifol a'r tîm prosiect yn defnyddio'r rhain i reoli'r allbynnau i weithrediadau 'busnes fel arfer' a gytunwyd. Bydd Bwrdd Newid yr LAA yn adolygu'r prif risgiau yn rhaglenni'r LAA.

Rhai enghreifftiau o risgiau arwyddocaol i'r gallu i ddarparu gwasanaethau a gafodd eu monitro a'u rheoli gennym yn y flwyddyn ddiwethaf yw:

- **Y risg o her gyfreithiol**: Roedd y newidiadau yn y ddarpariaeth o gymorth cyfreithiol o ganlyniad i basio a gweithredu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 drwy ein Rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol (LAT) yn destun adolygiad barnwrol yn 2014-15. O ganlyniad i hyn, gosodwyd gwaharddeb dros dro ar broses tendro'r LAA ar gyfer Contract Darparwyr Troseddol ar Ddyletswydd yn 2015. Er nad oedd yr her hon wedi llwyddo a bod yr ataliad wedi'i godi yn Ebrill 2015, oherwydd natur y farchnad yr ydym yn gweithredu ynddi, mae'n bosibl y bydd heriau eto i benderfyniadau gan yr LAA o dan LASPO 2012. Er mwyn rheoli a delio ag effaith y risg hon, rydym wedi cydweithio'n agos â chydweithwyr polisi yn yr MoJ i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith rhag ofn y bydd her yn ein herbyn yn llwyddo
- **Y risg y bydd perfformiad systemau ToG yn amharu ar weithgarwch yr LAA, gan fod ein prosesau'n cael eu digideiddio fwyfwy**: Mae'r LAA wedi gwneud cynnydd sylweddol ar gyflawni ei hamcan o fod yn gwbl ddigidol

erbyn Mawrth 2016. Yn 2014-15 roeddem wedi cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r CCMS ac wedi cyflwyno e-Ffurflenni ar gyfer darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol. Mae'r LAA yn dibynnu ar seilwaith ToG sefydlog i gynnal digideiddio o'r fath ac i sicrhau ei bod yn parhau i brosesu ceisiadau a thaliadau am gymorth cyfreithiol. Byddai'r risg o fethiant sylweddol mewn systemau ToG yn gallu amharu ar berfformiad gweithredol yr LAA, ac ar ddarparwyr a derbynwyr cymorth cyfreithiol. Mae'r risg hon wedi'i rheoli yn 2014-15 drwy gydweithio'n agos â'n darparwyr gwasanaethau ToG i sicrhau bod y seilwaith ToG a pherfformiad ei gwasanaethau'n gadarn; drwy reoli digwyddiadau'n effeithiol i ddatrys problemau'n gynt; a thrwy gyflwyno nifer o welliannau i wneud systemau'n fwy sefydlog. I ddibenion cynllunio wrth gefn, mae'r LAA wedi datblygu prosesau llawlyfr dan reolaeth a fydd, os ceir problemau ynghylch perfformiad systemau ToG, yn caniatáu i'r LAA barhau i brosesu ceisiadau a thaliadau am gymorth cyfreithiol.

Mae'r Bwrdd a minnau wedi ein bodloni ein bod wedi rhoi rheolaethau priodol ar waith i reoli risg at lefel dderbyniol ac i gyfyngu ar effaith unrhyw risg, os bydd yn digwydd. Rwyf yn hyderus bod ein dull o reoli risg wedi bod yn gynhwysfawr, gan roi'r gallu i mi a'r Bwrdd adnabod yn gynnar unrhyw fygythiadau posibl i'r gallu i gyflawni amcanion yr LAA ac ymateb iddynt.

**Atal Twyll**

Mae'r LAA wedi parhau i gymhwyso dull seiliedig ar risgiau at atal, adnabod ac ymchwilio i dwyll lle y mae amheuaeth o hynny. Rydym yn cydweithio'n agos â Grŵp Atal Twyll a Datblygu'r MoJ, y Fenter Twyll Genedlaethol a Swyddfa'r Cabinet ar amrywiaeth o fesurau i ddarganfod ac atal twyll.

Rydym yn parhau i weithredu ein strategaeth atal twyll a rheoli risg ac rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg ein pobl a'n rhanddeiliaid. Rydym yn parhau i feithrin perthnasoedd gweithio agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, HMRC, y Gwasanaeth Ansolfedd, awdurdodau lleol a GLlTEM i gasglu cudd-wybodaeth a datblygu ein camau ar gyfer tal twyll ac erlyn. Byddwn yn cydweithio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) i sicrhau ein bod yn dilyn safonau ac arferion cenedlaethol ar gyfer ffeiliau.

Roedd gweithgarwch gwrth-dwyll yr LAA yn ystod 2014-15 wedi arwain at adennill neu gadw £1.64 miliwn o arian cyhoeddus o'i gymharu â £1.2 miliwn yn 2013-14.

**Sicrhau gwybodaeth a diogelwch data**

Mae rolau a chyfrifoldebau'r LAA wedi'u diffinio'n glir fel bod modd sicrhau gwybodaeth drwy'r busnes craidd ym mhob rhan o'r LAA. Mae Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol yr LAA wedi'i benodi'n Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) yr , ac mae'n aelod o Fwrdd SIRO yr MoJ lle y gellir uwchgyfeirio risgiau. Mae SIRO yr  yn cael cymorth i gyflawni ei rôl gan arbenigwyr sicrhau gwybodaeth a rhwydwaith o Berchnogion Asedau Gwybodaeth, sy'n gyfrifol am adnabod a rheoli asedau gwybodaeth yn eu maes busnes.

Yn 2014-15, cofnodwyd 346 o ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â data personol yn unol â'n gweithdrefnau adrodd cytunedig (gweler Tabl G ar dudalen 54).

Er bod y ffigur hwn yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol, mae hyn yn dangos pa mor effeithiol yw'r gwaith sylweddol sydd wedi'i gyflawni ar draws yr LAA i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch gwybodaeth a'r pwysigrwydd o roi gwybod am ddigwyddiadau.

Mae gwaith yn parhau o fewn yr LAA i gryfhau ei hamgylchedd rheoli a hybu ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd o ddiogelu gwybodaeth. Mae pob digwyddiad a gofnodir yn cael ei gymryd o ddifrif a chymerir camau cymesur i ymchwilio iddo, er mwyn sicrhau bod modd adnabod ac ymdrin â gwendidau.

Ystyriwyd a oedd unrhyw ddigwyddiad mor ddifrifol fel y dylid hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) amdano. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddigwyddiad a oedd mor ddifrifol â hyn yn ystod y flwyddyn.

Tabl G: Crynodeb o ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â data personol yn 2014-15

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur a oedd heb eu diogelu'n ddigonol o safleoedd Llywodraeth diogel | 74 |
| II | Colli cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur a oedd heb eu diogelu'n ddigonol o'r tu allan i safleoedd Llywodraeth diogel | 50 |
| III | Gwaredu cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur a oedd heb eu diogelu mewn modd anniogel | 0 |
| IV | Datgelu heb awdurdod | 222 |
| V | Arall | 0 |

## Effeithiolrwydd Rheolaethau Mewnol

Mae stiwardiaeth yn elfen annatod yn holl weithgareddau a phrosesau'r LAA ac mae'n cael ei monitro drwy'r trefniadau llywodraethu a rheoli risg sydd wedi'u disgrifio uchod. Mae Bwrdd yr LAA a'r ARC wedi adolygu fy Natganiad Llywodraethu ac wedi cyfrannu iddo. Mae fy Nirprwy Gyfarwyddwyr yn llenwi ffurflenni sicrwydd chwarterol sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau'r LAA ac yn tynnu sylw at unrhyw faterion gweithredol sy'n bwysig i'r LAA. Mae ein Fframwaith Sicrwydd yn darparu sylfaen dystiolaeth a sicrwydd sy'n dangos i mi fod rheolaethau gweithredol allweddol ar waith ac mae'r rhain wedi bod yn effeithiol o ran rheoli'r cyflawni ar ein hamcanion drwy gydol y flwyddyn.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar leihau camgymeriadau mewn ffordd gyson a chynaliadwy drwy gydweithio'n agos â'n darparwyr i ymdrin â ffactorau sy'n achosi camgymeriadau a nodwyd ac i ddarparu tystiolaeth lle bo angen. Yn 2014-15 roeddem wedi adnewyddu ein methodoleg ar gyfer profi cywirdeb a chymhwysedd ceisiadau a thaliadau am gymorth cyfreithiol. Mae'r fethodoleg newydd yn rhoi canlyniadau ystadegol ddilys at lefelau hyder o 95% a chafodd ei gweithredu yn ystod 2014-15 ar ôl cynnal trafodaethau â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Rhoddir sicrwydd annibynnol drwy raglen waith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar y cyfrifon ariannol ac adolygiadau gwerth am arian ar ran y Senedd. Roedd y mecanweithiau sicrwydd hyn, ynghyd â threfniadau'r LAA ar gyfer rheoli risg a llywodraethu, wedi sicrhau bod yr amgylchedd rheoli'n gweithredu fel y bwriadwyd er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion.

Ffynhonnell bwysig ychwanegol o sicrwydd annibynnol oedd yr Archwilio Mewnol gan yr MoJ a ddarparwyd o dan gytundeb lefel gwasanaeth. Roedd barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghyd â'r oruchwyliaeth gan fyr ARC wedi rhoi sicrwydd cynhwysfawr ynghylch risgiau allweddol ac elfennau

o'r amgylchedd rheoli, ac mae'r canlyniadau i hyn yn cael eu trafod ym marn y Pennaeth Archwilio Mewnol sy'n dilyn.

## Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn flynyddol o Sicrwydd Cymedrol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ar sail y gwaith a gwblhawyd a'i wybodaeth am yr LAA. Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cydnabod bod nifer o elfennau cryf ar waith yn yr LAA a'i bod yn cydymffurfio'n dda ar y cyfan â'i pholisïau cytunedig a'i rheolaethau arfaethedig. Yn ei farn y flwyddyn ddiwethaf cyfeiriodd at yr angen am wella lefel y rheolaethau cyfrifiadurol. Er nad yw'r cynnydd ar weithredu'r Rhaglen Gyflawni Integredig wedi bod mor gyflym ag y rhagwelwyd yn wreiddiol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn.

## Gwendidau arwyddocaol mewn rheolaethau

Mewn rhan o'r Datganiad Llywodraethu hwn, rwyf wedi ystyried meysydd lle mae gwendidau arwyddocaol mewn rheolaethau yn yr LAA lle mae angen gwelliannau. Mae cynnal perfformiad a rheolaeth gryf ar y gronfa cymorth cyfreithiol yn allweddol o hyd ar gyfer cyflawni amcanion yr LAA.


Rydym yn parhau i gynnal ein system effeithiol ar gyfer profi, mesur a rhag-weld cywirdeb a chymhwysedd y taliadau am gymorth cyfreithiol. Ar ddiwedd 2014-15, ein cyfeiliornad gros oedd £19.3 miliwn. Mae hyn yn cymharu â £23.4 miliwn yn 2013-14; a £31.5 miliwn yn 2012-13. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu'r ymdrech barhaus a gafwyd ar draws yr LAA i atal taliadau cyfeiliornus. Ymhlith y mesurau hyn y mae cydweithio agos â darparwyr i sicrhau eu bod yn deall ac yn osgoi'r ffactorau mwyaf cyffredin sy'n achosi camgymeriadau; sicrhau bod ein gweithwyr achos wedi'u hyfforddi i adnabod hawliadau anghywir; a gwella'r rheolaethau ataliol awtomatig yn ein systemau.

Yn yr un modd, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar adennill gordaliadau cymorth cyfreithiol, ac mae hyn wedi ein helpu i leihau ein cyfeiliornad net yn 2014-15 i £12.3 miliwn (0.65% o'n gwariant). Mae hyn yn cymharu â £13.7 miliwn (0.7% o gyfanswm ein gwariant) yn 2013-14 a £14.5 miliwn yn 2012-13 (0.7% o gyfanswm ein gwariant).

## Casgliad

Rwyf yn hyderus bod y datganiad hwn yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yr ydym wedi'u sefydlu yn yr LAA. Mae llwyddiant y trefniadau hyn i'w briodoli i'r bobl a phrosesau sydd ar waith, sydd wedi sicrhau bod yr LAA wedi cyflawni ei hamcanion busnes

**Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**



**Matthew Coats**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth CyfreithiolL
5 Mehefin 2015

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian, Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u nodi ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl y nodwyd yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel yr eglurwyd yn fwy helaeth yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Datganiadau Ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun teg a chywir. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

An audit involves obtaining evidence about Wrth gynnal archwiliad cymerir camau i gael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n addas i amgylchiadau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu o bwys sydd wedi'u gwneud gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol; a'r dull cyffredinol o gyflwyno'r datganiadau ariannol. Yn ogystal â hyn, rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ganfod anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i ganfod unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn anghywir o'i hanfod, neu'n anghyson, ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad. Os byddaf yn dod i wybod am unrhyw beth sy'n ymddangos yn gamddatganiad neu'n anghysonder o bwys, byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael gwybodaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio i'r dibenion sydd wedi'u bwriadu gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu..

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob mater o bwys mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar 31 Mawrth 2015 ac o'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a ddyroddwyd o dani.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- Mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a oedd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Strategol, yr Adroddiad Cynaliadwyedd a'r Datganiad Llywodraethu am y flwyddyn ariannol y paratowyd y Datganiadau Ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r Datganiadau Ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt fel eithriad yn unig

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, y byddaf yn adrodd amdanynt os credaf:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw; na bod datganiadau digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen er mwyn archwilio; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

9 Mehefin 2015

# Datganiadau Ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

## Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | **2014-15** £000 | 2013-14 £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddiaeth** | | | |
| Costau staff | 3 | **51,831** | 52,526 |
| Costau gweinyddiaeth eraill | 4 | **58,485** | 54,433 |
| | | **110,316** | 106,959 |
| Incwm gweinyddiaeth | 6 | **(787)** | (747) |
| **Costau gweinyddiaeth net** | | **109,529** | 106,212 |
| **Costau rhaglenni** | | | |
| Costau staff | 3 | **5,153** | 2,039 |
| Costau rhaglenni eraill | 5 | **1,778,956** | 2,041,737 |
| | | **1,784,109** | 2,043,776 |
| Incwm rhaglenni | 6 | **(198,147)** | (210,471) |
| **Costau rhaglenni net** | | **1,585,962** | 1,833,305 |
| **Costau gweithredu net** | | **1,695,491** | 1,939,517 |
| **Gwariant cynhwysfawr arall**<br>**Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net** | | | |
| (Enillion)/colledion net ar ailbrisio asedau anniriaethol | | **(534)** | 290 |
| (Enillion)/colledion net ar ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | | **(115)** | 65 |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr** | | **1,694,842** | 1,939,872 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau sy'n parhau.


Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 95 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

## Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
## Ar 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | **31 Mawrth 2015**<br>**£000** | 31 Mawrth 2014<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau anniriaethol | 8 | **49,221** | 47,488 |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 9 | **8,413** | 10,865 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **57,634** | 58,353 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11 | **111,482** | 105,549 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 12 | **5,752** | 4,623 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **117,234** | 110,172 |
| **Cyfanswm asedau** | | **174,868** | 168,525 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 13 | **(271,678)** | (294,141) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | **(551,816)** | (602,545) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(823,494)** | (896,686) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **(648,626)** | (728,161) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 13 | **(650)** | (742) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | **(2,092)** | (2,277) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(2,742)** | (3,019) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(651,368)** | (731,180) |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | |
| Cronfa Ailbrisio | | **1,292** | 1,346 |
| Cronfa Gyffredinol | | **(652,660)** | (732,526) |
| | | **(651,368)** | (731,180) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 95 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

**Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**



**Matthew Coats**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
5 Mehefin 2015

## Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o Lifau Arian
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | 2014-15 £000 | 2013-14 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Diffyg net ar ôl llog | | **(1,695,491)** | (1,939,517) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion tybiannol a rhai nad ydynt yn arian parod | 4 | **24,979** | 18,511 |
| Balansau o fewn yr Adran wedi'u setlo drwy'r Gronfa Gyffredinol | | **18,058** | 5,543 |
| Trosglwyddo o Gronfeydd Canolog wedi'i setlo drwy'r Gronfa Gyffredinol | | **-** | (17,100) |
| Colledion/(enillion) ar leihad mewn gwerth ac ailbrisio asedau | | **16** | 148 |
| Costau/(incwm) cyllido net | 15 | **4** | 32 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11 | **(5,933)** | (2,405) |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn masnach a symiau taladwy eraill | 13 | **(22,555)** | (15,750) |
| Llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | | **950** | 4,127 |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | 15 | **(50,918)** | (23,091) |
| **Llifau arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(1,730,890)** | (1,969,502) |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau anniriaethol | 7 | **(12,310)** | (12,675) |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 7 | **(132)** | (1,016) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(12,442)** | (13,691) |
| **Llifau arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid cyflenwi o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder: refeniw | | **1,732,870** | 1,954,413 |
| Cyllid cyflenwi o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder: cyfalaf | | **11,591** | 9,745 |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido** | | **1,744,461** | 1,964,158 |
| Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag ef o fewn y flwyddyn | | **1,129** | (19,035) |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag ef ar ddechrau'r flwyddyn | 12 | **4,623** | 23,658 |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag ef ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **5,752** | 4,623 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 95 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn

## Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Nodyn | Cronfa Ailbrisio £000 | Cronfa Gyffredinol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill 2013 | | 2,491 | (762,593) | (760,102) |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr ar gyfer 2013-14** | | | | |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: refeniw | | - | 1,954,413 | 1,954,413 |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: cyfalaf | | - | 9,745 | 9,745 |
| Trosglwyddo'r gweddill ar gyfer darpariaethau o'r MoJ ar gyfer Cronfeydd Canolog | | - | (17,100) | (17,100) |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | | - | (1,939,517) | (1,939,517) |
| **Gwariant cynhwysfawr arall** | | | | |
| Colledion net ar ailbrisio | | (355) | - | (355) |
| **Addasiad nad yw'n arian parod** | | | | |
| Addasiad o fewn yr Adran | | - | 11,992 | 11,992 |
| Symiau tybiannol a ailgodwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | - | 9,484 | 9,484 |
| Ffi archwilio allanol dybiannol | | - | 260 | 260 |
| **Symudiad mewn cronfeydd** | | | | |
| Trosglwyddo gweddill y gronfa ailbrisio ar asedau sydd wedi darfod | | (37) | 37 | - |
| Trosglwyddo dibrisiant costau hanesyddol | | (753) | 753 | - |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2014** | | 1,346 | (732,526) | (731,180) |
| Gweddill ar 1 Ebrill 2014 | | **1,346** | **(732,526)** | **(731,180)** |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr ar gyfer 2014 -15** | | | | |
| Cyllid cyflenwi o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder: refeniw | | - | **1,732,870** | **1,732,870** |
| Cyllid cyflenwi o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder: cyfalaf | | - | **11,591** | **11,591** |
| Trosglwyddo'r gweddill ar gyfer darpariaethau o'r MoJ ar gyfer Cronfeydd Canolog | | - | - | **-** |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | | - | **(1,695,491)** | **(1,695,491)** |
| **Gwariant cynhwysfawr arall** | | | | |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio | | **649** | - | **649** |
| **Addasiad nad yw'n arian parod** | | | | |
| Addasiad o fewn yr Adran | | - | **19,423** | **19,423** |
| Symiau tybiannol a ailgodwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | - | **10,530** | **10,530** |
| Ffi archwilio allanol dybiannol | | - | **240** | **240** |
| **Symudiad mewn cronfeydd** | | | | |
| Trosglwyddo dibrisiant costau hanesyddol | | **(703)** | **703** | - |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2015** | | **1,292** | **(652,660)** | **(651,368)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 95 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn

# Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

## Nodyn 1 – Datganiad am y polisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n unol â *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2014 i 2015* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer y sector cyhoeddus. Lle y mae FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y credwyd ei fod yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) er mwyn rhoi darlun teg a chywir o'i sefyllfa. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr LAA wedi'u disgrifio isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

### a) Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u cyflwyno mewn Sterling wedi'i dalgrynnu i'r fil agosaf (£000) oni nodwyd fel arall. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbrisio rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol, lle y maent yn berthnasol, ac asedau anghyfredol ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol. Mae hyn yn gyson â chanllawiau Trysorlys EM.

Wrth baratoi datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol, mae'n ofynnol bod dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau'n cael eu harfer sy'n effeithio ar symiau'r asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau o incwm a gwariant a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a gwahanol ffactorau eraill y credir eu bod yn rhesymol, y bydd y canlyniadau ohonynt yn sail ar gyfer barnu ynghylch gwerthoedd cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Mae'r meysydd sy'n galw am arfer mwy o farn neu gymhlethdod, neu feysydd lle mae rhagdybiaethau ac amcangyfrifon yn arwyddocaol i'r datganiadau ariannol, wedi cael eu datgelu. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys: masnach a symiau derbyniadwy eraill (nodyn 11) a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau (nodyn 15).

***Gweinyddiaeth a rhaglenni - incwm a gwariant***
Mae'r incwm a gwariant ar gyfer gweinyddiaeth wedi'u datgelu'n unol â gofynion *FReM*. Mae'r dull o ddosbarthu incwm a gwariant ar sail gweinyddiaeth a rhaglenni yn gyson â'r diffiniad yn Adolygiad o Wariant Trysorlys EM. Mae hyn yn unol â *chanllawiau Trysorlys EM ar Gyllidebu Cyfunol*. Mae'r gwariant ar weinyddiaeth sydd wedi'i ddangos yn y datganiadau ariannol hyn yn adlewyrchu'r costau gweinyddu am redeg yr LAA ac mae'r gwariant ar raglenni'n ymwneud â darparu gwasanaethau rheng flaen.

***Busnes hyfyw***
Mae'r LAA yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (yr MoJ) a sefydlwyd o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 i gomisiynu, caffael a thalu am wasanaethau cymorth cyfreithiol gan ddarparwyr (cyfreithwyr, bargyfreithwyr, cyfryngwyr a'r sector di-elw). Rhagwelir y bydd gweithgareddau'r LAA yn y dyfodol yn cael eu cyllido gan yr MoJ ag arian sy'n cael ei ddyrannu bob blwyddyn drwy bleidlais o dan y Ddeddf Dyrannu berthnasol. Mae'r LAA o'r farn y bydd cysyniad y busnes hyfyw yn gymwys cyhyd ag y bydd y darpariaethau yn LASPO 2012 yn parhau mewn bodolaeth.

***Cymaryddion y flwyddyn flaenorol***
Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu ar yr un sail ag y cafodd ei chofnodi ar gyfer y flwyddyn gyfredol, rydym wedi gwneud newidiadau yn nosbarthiadau'r flwyddyn flaenorol yn nodyn 2 a nodyn 5 i'r datganiadau ariannol.

**b) Safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd**

***Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig***
Nid oes unrhyw safonau newydd neu ddiwygiedig sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014 sy'n cael effaith o bwys ar Gyfrifon yr LAA.

***Safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd a gyhoeddwyd ond sydd heb fod mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2014 a heb eu mabwysiadu'n gynnar***
Ni ddisgwylir y bydd safonau newydd sydd heb fod mewn grym eto yn cael effaith o bwys ar Gyfrifon yr LAA yn y dyfodol.

**c) Incwm**

Mae incwm yr LAA yn cynnwys cyfraniadau gan gleientiaid a gafodd gymorth ariannol, costau y gellir eu hadennill oddi wrth gleientiaid a gafodd gymorth ariannol ac eraill, gan gynnwys arwystlon statudol, adennill iawndal ac incwm gweinyddu. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar y pwynt y mae'n debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig ag ariannu achos penodol yn dod i ran yr LAA.

***Costau y gellir eu hadennill***
Os bydd y dyfarndal i'r cleient a gafodd gymorth ariannol yn cael ei setlo cyn gwrandawiad llys, yna bydd yr incwm yn cael ei gydnabod pan fydd yn ddyledus i'r LAA, a symiau'r setliad wedi'u trosglwyddo'n uniongyrchol rhwng y ddau barti yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

***Adennill symiau o iawndal ac arwystlon statudol***
Os gellir adennill costau a ysgwyddwyd wrth ariannu achos oddi wrth gleientiaid a gafodd gymorth ariannol neu eraill, bydd y symiau'n cael eu cyfrifyddu fel incwm pan fyddant wedi'u hasesu'n ddyledus i'r LAA. Gellir adennill y symiau o gostau a ddyfarnwyd ac o iawndal, os yw'n berthnasol.

***Prawf Moddion Llys y Goron***
Yn achos Prawf Moddion Llys y Goron, bydd incwm yn cael ei gydnabod pan fydd y rheithfarn yn hysbys a'r cyfrifiad terfynol o gyfanswm cyfraniad y ceisydd wedi'i asesu.

**d) Gwariant**

Gwariant yw'r symiau taladwy, gan gynnwys amcangyfrifon o werth y gwaith sydd wedi'i gwblhau gan ddarparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol sydd heb ei filio eto, am wasanaethau a ddarparwyd i gleientiaid a gafodd gymorth ariannol, ad-daliadau o gyfraniadau i gleientiaid a gafodd gymorth ariannol, costau a ddyfarnwyd i bartïon eraill a chostau eraill sy'n gysylltiedig â darparu cyngor a chynhorthwy cyfreithiol. Ymhlith y costau eraill y mae cost staff (gan gynnwys dyraniad o gostau pensiwn) a'r costau gweinyddu am redeg yr LAA.

**e) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod**

Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yw balansau banc sy'n cael eu dal gyda banciau masnachol gan gynnwys y rheini a weinyddir drwy Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth, â chyfnodau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai.

**f) Darpariaethau**

Darpariaethau yw rhwymedigaethau sy'n amhendant o ran eu swm neu eu hamseriad.

Bydd darpariaethau'n cael eu cydnabod pan fydd ymrwymiad cyfreithiol neu ddeongladwy gan yr LAA ar y pryd, o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r ymrwymiad, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm yr ymrwymiad. Darpariaethau yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad. Os yw'r effaith yn sylweddol, mae'r llifau arian sydd wedi'u hamcangyfrif yn cael eu disgowntio. Codir effaith y disgowntio'n uniongyrchol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

***Symiau sy'n ddyledus ar achosion a ariannwyd***
Mae'r LAA yn cydnabod ei bod yn atebol am dalu am waith a gwblhawyd ar 31 Mawrth 2015 ond sydd heb ei filio eto. Mae modelau ar wahân ar gyfer pob cynllun cymorth cyfreithiol, gan gynnwys Cynrychiolaeth Sifil, Help Cyfreithiol Sifil, Troseddol Uwch a Throseddol Is. Mae'r modelau hyn yn dibynnu ar natur y wybodaeth sydd ar gael ar gyfer pob cynllun. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus ar achosion a ariannwyd yn cael ei seilio wedyn ar ffactorau fel nifer yr achosion sydd heb eu cwblhau, yr amser sydd wedi mynd heibio ym mhob achos ac amcangyfrif o'r costau cyfartalog wedi'i seilio ar ddata am achosion sydd wedi'u cau. Mae'r ddarpariaeth wedi'i seilio ar ragdybiaethau o'r modelau ac mae sensitifrwydd y rhagdybiaethau hyn wedi'i gynnwys yn nodyn 10 i'r datganiadau ariannol hyn.

***Darpariaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus yng nghyswllt achosion a ariannwyd yn breifat (Cronfeydd Canolog)***
O dan delerau Deddf Erlyn Troseddau 1985, mae diffynyddion a gafodd ryddfarn sydd wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol ac wedi'u cael yn anghymwys yn gallu cael gorchymyn gan Lys y Goron, mewn amgylchiadau penodedig, i adennill eu costau. Mae'r LAA yn amcangyfrif gwerth y costau sydd heb eu bilio er mwyn cael y swm sydd wedi'i ddatgelu yn y Cyfrifon fel darpariaeth. Mae'r swm yn amcangyfrif o'r gwariant sydd ei angen i setlo unrhyw ymrwymiad ar ddyddiad gorffen y cyfnod adrodd. Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth, mae'r LAA wedi mabwysiadu technegau mesur darbodus wedi'u seilio ar y data diweddaraf sydd ar gael.

***Dadfeiliadau***
Gwneir darpariaeth ar gyfer amcangyfrifon o gostau dadfeilio ar adeiladau lesddaliadol. Mae'r ddarpariaeth wedi'i hamcangyfrif drwy gyfeirio at gyflwr a lleoliad yr adeiladau a gofynion y les berthnasol. Mae wedi'i disgowntio wedyn ar gyfradd Trysorlys EM o 1.5% negatif (2014: 1.9% negatif) ar gyfer lesoedd tymor byr (hyd at 5 mlynedd), 1.05% negatif (2014: 0.65% negatif) ar gyfer rhai tymor canolig (5 i 10 mlynedd) a 2.2% positif (2014: 2.2% positif) ar gyfer lesoedd tymor hir (mwy na 10 mlynedd).

***Costau cyfreithiol***
Gwneir darpariaethau ar gyfer costau lle mae'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo ymrwymiad cyfredol.

***Hawliadau contractiol***
Gwneir darpariaethau ar gyfer hawliadau contractiol os ceir hawliadau ffurfiol gan gyflenwyr. Dilynir proses gwirio i asesu dilysrwydd a gwerth yr hawliad cyn cydnabod y ddarpariaeth.

**g) Asedau ar les**

Mae lesoedd yn cael eu hystyried yn lesoedd cyllid os yw telerau'r les yn trosglwyddo'r holl risgiau a buddion sylweddol o berchenogaeth i'r LAA. Mae'r holl lesoedd eraill yn cael eu hystyried yn lesoedd gweithredu. Codir taliadau rhent ar lesoedd gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros dymor y les.

***Lesoedd gweithredu***
Codir taliadau rhent ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r LAA yn cyfrifyddu am gymhellion les (cyfnodau di-rent) dros gyfnod y les.

## h) Offerynnau ariannol

***Asedau ariannol***
Asedau ariannol yr LAA yw arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod, a masnach a symiau derbyniadwy eraill. Mae symiau derbyniadwy'r LAA yn asedau ariannol anneilliadol sydd â thaliadau penodol neu benodadwy sydd heb gael eu dyfynnu ar unrhyw farchnad. Nid yw'r LAA yn bwriadu masnachu'r symiau derbyniadwy hyn, sy'n cynnwys symiau sy'n ddyledus oddi wrth gyflenwyr cymorth cyfreithiol a chleientiaid a gafodd gymorth ariannol.

***Cydnabod yn gyntaf a mesur***
Mae symiau derbyniadwy'n cael eu cydnabod yn gyntaf yn eu swm gros wedi'i addasu i roi cyfrif am werth amser yr arian dros y cyfnod y mae disgwyl iddo gael ei gasglu, ar sail cyfradd disgownt safonol Trysorlys EM o 2.2% (2014: 2.2%). Mae hyn yn cael ei alw'n addasiad gwerth presennol.

Ar ôl eu cydnabod yn gyntaf, caiff yr asedau hyn eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol (EIR), llai unrhyw leihad ac addasiad pellach yn eu gwerth presennol. Bydd unrhyw log derbyniadwy neu golled o ganlyniad i leihad mewn gwerth yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r holl symiau derbyniadwy'n cael eu datgelu fel rhai sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn er y gall dyledion gael eu had-dalu ar ôl mwy nag un flwyddyn yn achos dyledion am arwystl statudol lle y gellir gohirio ad-dalu'r ddyled nes bydd yr ased cysylltiedig wedi'i waredu.

***Datgydnabod***
Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy'n cael eu datgydnabod pan yw'r hawliau i dderbyn llifau arian o'r asedau wedi dod i ben.

***Gwerth teg yr offerynnau ariannol***
Pennir gwerth teg offerynnau ariannol yr LAA drwy dechnegau prisio priodol. Ymhlith y technegau o'r fath y mae dadansoddi llifau arian wedi'u disgowntio a modelau prisio eraill.

Ceir dadansoddiad o werth teg offerynnau ariannol a rhagor o fanylion am y ffordd o'u mesur yn nodyn 10 i'r datganiadau ariannol hyn.

***Gwrthbwyso offerynnau ariannol***
Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso a'r swm net yn cael ei gofnodi yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol dim ond os oes hawl gyfreithiol y gellir ei gorfodi ar y pryd i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod bwriad i setlo ar sail net, neu i realeiddio'r asedau a setlo'r rhwymedigaethau yr un pryd.

## i) Lleihad yng ngwerth asedau ariannol

Gwneir asesiad i ganfod a oes tystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth ar gyfer yr holl asedau ariannol neu grwpiau o asedau ariannol ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Gellir asesu asedau unigol ('lleihad unigol') neu bortffolio o asedau ('lleihad ar y cyd').

Gwneir asesiad o leihad ar y cyd o asedau ariannol sydd â nodweddion risg tebyg. Ar gyfer yr asedau hyn, defnyddir profiad blaenorol yr LAA o golledion ym mhob portffolio i amcangyfrif graddau'r lleihad mewn gwerth yn y dosbarth asedau hwnnw. Lle gwneir asesiad o'r fath, gwneir darpariaethau ar gyfer lleihad i leihau gwerth cario'r asedau ariannol

yn unol â hynny. Ceir rhagor o fanylion am y model prisio a ddefnyddiwyd i gael yr amcangyfrif hwn a'r lleihad gwirioneddol yn symiau derbyniadwy'r LAA yn nodyn 10 i'r datganiadau ariannol hyn.

Yn achos lleihad unigol, y prif ddigwyddiad colli yw un neu ragor o daliadau a fethwyd, er y gellir cymryd digwyddiadau colli eraill i ystyriaeth, gan gynnwys trefniadau sydd ar waith i dalu llai na'r taliadau contractiol, twyll a methdaliad neu arwyddion eraill o anawsterau ariannol.

Os oes tystiolaeth wrthrychol o golled oherwydd lleihad yng ngwerth benthyciadau a symiau derbyniadwy, gwneir darpariaethau ar gyfer lleihad i ostwng gwerth cario'r asedau ariannol at werth presennol y llifau arian a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog Trysorlys EM, sef 2.2% ar hyn o bryd (2014: 2.2%).

## j) Cyfrifyddu am Dreth ar Werth (TAW)

Codir TAW na ellir ei hadennill ar y categori gwariant perthnasol neu, os yw'n briodol, caiff ei chyfalafu ag ychwanegiadau i asedau anghyfredol. Fel arall dangosir incwm a gwariant heb TAW.

## k) Asedau trydydd parti

***Cyfrifon cadw ar gyfer cleientiaid a gafodd gymorth ariannol***
Mae dyfarndaliadau iawndal i gleientiaid a gafodd gymorth ariannol yn daladwy'n gyntaf i'r LAA. Mae'r LAA yn rhoi'r arian hwn mewn cyfrif cadw nes byd costau terfynol yr achos wedi'u cyfrifo, pan fydd unrhyw swm dros ben o gyfraniadau ac iawndal yn cael ei dalu i'r cleient a gafodd gymorth ariannol. Mae'r arian hwn yn cael ei gyfrifyddu fel asedau sy'n cael eu dal ar ran trydydd partïon ac felly nid yw'n cael ei gydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Codir llog ar ddyfarndaliadau iawndal a dalwyd i'r LAA ar ôl cyfnod cymhwyso.

***Prawf Moddion Llys y Goron***
Gall cyfraniadau fod yn daladwy i'r LAA tuag at gost achosion yn Llys y Goron yn yr achosion hynny sydd wedi bod yn ddarostyngedig i brawf moddion. Mae'r LAA yn rhoi'r arian hwn mewn cyfrif cadw ac yn cyfrifyddu amdano fel arian sy'n cael ei ddal ar ran trydydd partïon, felly nid yw'n cael ei gydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Ar ôl rhoi'r dyfarniad terfynol a phennu'r costau, os cafwyd y ceisydd yn euog, bydd gwerth yr arian hyd at y terfyn costau'n ddyledus i'r LAA. Os cafwyd y ceisydd yn ddieuog, bydd cyfraniadau a dalwyd i'r LAA yn cael eu had-dalu gan gynnwys llog o 2% y flwyddyn o'r dyddiad talu.

Rhoddir gwybod am y symudiad mewn arian trydydd parti yn nodyn 21 i'r datganiadau ariannol hyn.

## l) Buddion cyflogeion

Mae IAS 19 'Employee Benefits' yn ei gwneud yn ofynnol i'r LAA gydnabod cost ddisgwyliedig yr hawl i wyliau blynyddol sydd gan ei chyflogeion sydd wedi cronni ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae'r LAA yn cyfrifo'r croniad hwn drwy gyfrifo gwerth cyfartalog y gwyliau sydd heb eu cymryd ym mhob band cyflog a defnyddir hyn wedyn i gyfrifo cyfanswm drwy allosod.

## m) Cronfa Gyffredinol

***Cyllid cyflenwi***
Mae cyllid cyflenwi a gafwyd oddi wrth yr MoJ yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr. Mae'r LAA yn cael cyllid cyflenwi oddi wrth yr MoJ yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn a chaiff ei gyfrifyddu ar sail arian parod.

***Addasiad o fewn yr Adran***
Mae addasiadau o fewn yr Adran yn ymwneud â setlo rhwng yr LAA a'r MoJ ar LAA i) asedau anniriaethol, ii) trosglwyddiadau o eiddo, peiriannau a chyfarpar, a iii) prynu rhwng cwmnïau a thrafodion gwerthu drwy'r Gronfa Gyffredinol.

**n) Rhwymedigaethau ac asedau digwyddiadol**

Caiff rhwymedigaeth ddigwyddiadol ei datgelu os yw'r tebygolrwydd o dalu'n llai na thebygol, ond yn fwy na bach. Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadaol sydd wedi'u datgelu'n unol â *IAS 37 'Provisions, Contingent Liabilities and Contingent Assets'*, mae'r LAA yn datgelu, i ddibenion adroddiadau Seneddol ac atebolrwydd, rai rhwymedigaethau statudol ac anstatudol digwyddiadol, os yw'r tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd yn fach, yn unol â gofynion *'Managing Public Money'*.

Mae ased digwyddiadol yn ased dichonol sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y byddai ei fodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond drwy wireddu neu beidio â gwireddu un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o dan reolaeth lwyr yr LAA. Caiff ased digwyddiadol ei ddatgelu pan yw'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd.

**o) Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd**

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events after the Reporting Period', mae digwyddiadau'n cael eu hystyried hyd at y dyddiad y rhoddir caniatâd i gyhoeddi'r datganiadau ariannol, a'r dehongliad o hyn yw'r dyddiad ar Dystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

**p) Asedau sy'n cael eu hadeiladu**

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cael eu prisio ar gost hanesyddol yn eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol, ac nid ydynt yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Mae ased yn peidio â chael ei ddynodi'n ased sy'n cael ei adeiladu pan fydd yn barod i'w ddefnyddio. Wedyn mae ei werth cario'n cael ei dynnu o asedau sy'n cael eu hadeiladu a'i drosglwyddo i'r priod gategori asedau. Ar ôl hynny codir am ddibrisiant neu amorteiddio ar yr ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu sydd wedi'i ddatgan.

Caiff gwariant ei gyfalafu pan gaiff ei briodoli'n uniongyrchol i'r costau o roi ased mewn cyflwr gweithio, er enghraifft, costau contractwr allanol a chostau cyflogeion perthnasol.

**q) Asedau anniriaethol**

Asedau anniriaethol yw meddalwedd cyfrifiadurol sydd wedi'i ddatblygu'n fewnol (gan gynnwys asedau sy'n cael eu hadeiladu) a thrwyddedau meddalwedd a brynwyd.

Mae costau datblygu sy'n cael eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a rhoi prawf ar gynhyrchion meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw, fel costau contractwr allanol a chostau cyflogeion perthnasol, yn cael eu cydnabod yn asedau anniriaethol ar ôl bodloni'r meini prawf am gydnabod.

Mae'r LAA yn cymhwyso trothwy cyfalafu at asedau anniriaethol o £10,000 (2014: £10,000).

Mae asedau anniriaethol, gan gynnwys asedau sy'n cael eu hadeiladu, yn cael eu hailddatgan ar eu gwerth teg yn ôl y defnydd presennol ohonynt bob blwyddyn drwy eu mynegrifo hyd at ddiwedd y flwyddyn gan ddilyn 'Producer Price Indices (PPI) for Current Cost ounting', sy'n cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**r) Eiddo, peiriannau a chyfarpar**

Mae asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar sy'n costio'n fwy na'r trothwy cyfalafu o £10,000 (2014: £10,000) yn cael eu trin fel asedau cyfalaf. Os yw eitem yn costio'n llai na'r trothwy cyfalafu ond yn rhan o ased neu grŵp o asedau y mae cyfanswm ei werth yn uwch na'r lefel cyfalafu, yna mae'r eitem yn cael ei thrin fel ased cyfalaf.

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael ei ailddatgan ar ei werth teg bob blwyddyn drwy fynegrifo hyd at ddiwedd y flwyddyn gan ddilyn 'PPI for Current Cost ounting', a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**s) Dibrisiant ac amorteiddio**

Heblaw asedau sy'n cael eu hadeiladu, darperir dibrisiant ac amorteiddio ar yr holl asedau anghyfredol ar sail llinell syth er mwyn dileu cost yr asedau dros gyfnod eu hoes fuddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gosodion a ffitiadau | 5 mlynedd |
| Dodrefn a chyfarpar | 3 i 5 mlynedd |
| Technoleg gwybodaeth | 3 i 5 mlynedd |
| Meddalwedd cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |

**t) Lleihad yng ngwerth asedau anariannol**

Ar bob dyddiad adrodd, mae'r LAA yn adolygu symiau cario ei heiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol i bennu a oes unrhyw arwydd o golled oherwydd lleihad yng ngwerth yr asedau hynny. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, amcangyfrifir gwerth teg yr ased er mwyn pennu graddau'r golled oherwydd lleihad mewn gwerth.

Mae lleihad mewn gwerth sy'n adlewyrchu lleihad parhaol yng ngwerth yr ased, o ganlyniad i ddefnydd clir o'i fudd economaidd neu botensial gwasanaeth, yn cael ei godi'n uniongyrchol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac mae unrhyw falans sy'n weddill yn y Gronfa Ailbrisio yn cael ei ryddhau i'r Gronfa Gyffredinol.

Pan fydd swm cario'r ased yn gostwng (heblaw o ganlyniad i leihad parhaol mewn gwerth), bydd y gostyngiad yn cael ei gydnabod yn y Gronfa Ailbrisio i'r graddau bod balans yn bodoli mewn perthynas â'r ased. Mae gostyngiadau sy'n fwy na'r symiau dros ben yn y Gronfa Ailbrisio yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw wrthdroi ar dâl am leihad mewn gwerth yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau bod y tâl gwreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant wedyn, wedi'i gydnabod yma cynt. Bydd y swm sy'n weddill yn cael ei gydnabod yn y Gronfa Ailbrisio.

**u) Ailbrisio**

Pan fydd swm cario'r ased yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisio, bydd y cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau ei fod yn gwrthdroi gostyngiad oherwydd ailbrisio ar yr un ased a oedd wedi'i gydnabod yma cynt. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ailbrisio yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr. Bydd unrhyw ddibrisiant sydd wedi cronni ar ddyddiad yr ailbrisio'n cael ei ddileu yn erbyn swm cario gros yr ased. Caiff y swm net ei ailddatgan yn swm yr ased ar ôl ei ailbrisio.

Mae'r elfen a ailbrisiwyd, sef y gwahaniaeth rhwng dibrisiant wedi'i seilio ar swm cario'r ased ar ôl ei ailbrisio a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a dibrisiant wedi'i seilio ar gost wreiddiol yr ased, yn cael ei throsglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol bob blwyddyn. Mae hyn yn cael ei alw'n ddibrisiant cost hanesyddol.

**v) Taliadau tybiannol a ailgodwyd**

***Taliadau tybiannol a ailgodwyd o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder***
Mae'r tâl tybiannol a ailgodwyd o'r MoJ yn dangos y defnydd o wasanaethau corfforaethol gan yr LAA.

***Ffi archwilio dybiannol***
Mae costau'r archwiliad a gyflawnwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi'u cydnabod yn dâl anariannol yn 2014-15.

**w) Llog derbyniadwy ar arwystlon statudol**

O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1974, Deddf Cymorth Cyfreithiol 1988, Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999, a LASPO 2012, os yw cleientiaid a gafodd gymorth ariannol wedi adennill neu gadw eiddo yn hytrach na chael iawndal, gellir sicrhau costau adenilladwy drwy godi arwystl ar yr eiddo. O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) (Diwygio) 2005 a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Arwystlon Statudol) 2013, mae llog ar y balans sy'n weddill yn ddyledus ar hyn o bryd ar gyfradd o 8% y flwyddyn. Mae llog sy'n cael ei ennill ar y balansau hyn yn cael ei gofnodi fel incwm cyllid ac mae manylion am hyn yn nodyn 6 i'r datganiadau ariannol hyn.

**x) Pensiynau**

***Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS)***
Mae PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig sydd heb ei ariannu ond, yn unol â FReM, mae'r LAA yn cyfrifyddu am hyn fel cynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r LAA yn cydnabod cyfraniadau sy'n daladwy i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig fel traul o fewn y flwyddyn y mae'n cael ei hysgwyddo, ac mae'r ymrwymiad cyfreithiol neu ddeongliadol wedi'i gyfyngu i'r swm y mae'n cytuno i'w gyfrannu i'r gronfa.

**y) Adrodd ar segmentau**

Rydym yn pennu segmentau gweithredu addas yn unol ag IFRS 8 'Operating Segments' ar sail y wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno ar gyfer gwneud penderfyniadau i Fwrdd yr LAA a'r Prif Benderfynwr Gweithredol.

## Nodyn 2 – Dadansoddi segmentau

Mae'r LAA yn rhannu incwm a gwariant yn dri segment gweithredu adroddadwy: Cronfa Cymorth Cyfreithiol, Gweinyddiaeth a Chronfeydd Canolog i'r diben o wneud penderfyniadau gweithredu ac adrodd i Fwrdd yr LAA. Y costau gweithredu net am weinyddiaeth yw'r costau gweinyddu am redeg yr LAA. Mae'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol yn cael ei rhannu wedyn yn Help Cyfreithiol Sifil, Cynrychiolaeth Sifil, Troseddol Is, a Throseddol Uwch. Costau gweithredu net y Cronfeydd Canolog yw'r gwariant ar orchmynion a wnaed i ryddfarnu diffynyddion sydd wedi ariannu eu cynrychiolaeth gyfreithiol yn breifat.

Mae cost gweithrediadau net y segment gweithredu'n cael ei mesur ar yr un sail â'r swm cyfatebol sydd wedi'i gofnodi yn y datganiadau ariannol. Nid oedd unrhyw drafodion rhwng segmentau yn y flwyddyn (2013-14: dim).

Mae'r tabl isod yn dangos costau gweithredu net y gweithrediadau yn ôl segmentau gweithredu adroddadwy ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015:

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Cronfa Gyfreithiol** | | |
| Help Cyfreithiol Sifil | **112,165** | 129,776 |
| Cynrychiolaeth Sifil* | **510,212** | 693,527 |
| Troseddol Is* | **332,578** | 367,304 |
| Troseddol Uwch | **586,457** | 553,677 |
| **Cronfeydd Canolog** | **44,238** | 89,070 |
| **Gweinyddiaeth**** | **109,841** | 106,163 |
| **Cost gweithredu net** | **1,695,491** | 1,939,517 |

* Mae costau gweithredu net a oedd wedi'u cynnwys o fewn costau Ansegmentaidd Eraill yn y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddosbarthu i'r segmentau gweithredu priodol o ganlyniad i wybodaeth reoli well.

** Nid yw'r gost gweithredu net ar gyfer y segment gweithredu "Gweinyddiaeth" yn gyfwerth â'r "costau gweithredu net" yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r symiau sydd wedi'u datgelu yn y segment gweithredu "Gweinyddiaeth" yn galw am gynnwys unrhyw wariant rhaglenni sy'n gysylltiedig. Felly, mae £312,000 (2014: £49,000) o wariant rhaglenni wedi'i gynnwys yn "costau rhaglenni net" yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

*Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad*

## Nodyn 3 – Costau cyflogaeth

### Gweinyddiaeth

| | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 | 2013-14 | 2013-14 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol | Eraill | Cyfanswm | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol | Eraill | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau a thâl | 36,365 | 4,806 | 41,171 | 34,785 | 7,455 | 42,240 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,755 | 182 | 2,937 | 2,697 | 289 | 2,986 |
| Costau pensiwn eraill* | 6,386 | 355 | 6,741 | 6,250 | 522 | 6,772 |
| | 45,506 | 5,343 | 50,849 | 43,732 | 8,266 | 51,998 |
| Llai symiau a adenillwyd yng nghyswllt secondio allan | (214) | - | (214) | (241) | - | (241) |
| Dileu swyddi** | 1,169 | - | 1,169 | 742 | - | 742 |
| | 46,461 | 5,343 | 51,804 | 44,233 | 8,266 | 52,499 |
| **Costau Aelodau Anweithredol:** | | | | | | |
| Ffioedd i aelodau anweithredol | 26 | - | 26 | 26 | - | 26 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1 | - | 1 | 1 | - | 1 |
| | 27 | - | 27 | 27 | - | 27 |
| **Cyfanswm** | 46,488 | 5,343 | 51,831 | 44,260 | 8,266 | 52,526 |

* Mae cyfraniadau'r cyflogwr i PCSPS yn cael eu dynodi'n gostau gweinyddiaeth neu raglenni yn unol â chostau cyflogaeth y staff.

** Mae'r costau am ddileu swyddi a ddatgelwyd yn y tabl uchod yn ymwneud â 34 (2014: 12) o staff cyfwerth ag amser llawn.

Roedd costau cyflogaeth ychwanegol o £7,431,000 (2014: £6,018,000), sy'n ymwneud â staff a oedd yn gweithio ar brosiectau cyfalaf, wedi cael eu cyfalafu yn ystod y flwyddyn.

Mae costau pensiwn eraill yn ymwneud â chyfraniadau'r cyflogwr i PCSPS ac i Gyfrifon Pensiwn Partneriaeth. Gellir ysgwyddo costau mewn perthynas â chyflogeion parhaol a thros dro'r LAA.

Roedd ffioedd i aelodau anweithredol yn cynnwys ad-dalu costau teithio rhwng y cartref a'r swyddfa a threth a dalwyd gan yr LAA ar y treuliau hyn.

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol i gyflogeion uwch ac Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd wedi'i chynnwys yn y tabl uchod ac mae rhagor o fanylion yn yr adroddiad Tâl.

### Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS)

Mae PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig sydd heb ei ariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr felly nid yw'r LAA yn gallu pennu ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/scheme-valuations

Ar gyfer 2014-15, roedd cyfraniadau cyflogwr o £7,317,000 yn daladwy i PCSPS (2013-14 £6,885,000) ar un o bedair cyfradd rhwng 16.7% a 24.3% o'r tâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer ar ôl cynnal prisiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, nid pan fydd y costau'n cael eu hysgwyddo ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Y cyfraniadau gan y cyflogwr i gyfrifon pensiwn partneriaeth oedd £216,000 (2014: £169,000) ac roeddent yn cael eu talu i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau gan y cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac maent yn amrywio rhwng 3% a 12.5% o'r tâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu swm sy'n cyfateb i gyfraniadau'r cyflogai hyd at 3% o'r tâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu swm ychwanegol sy'n cyfateb i 0.8% o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant buddion risg sy'n cael ei ddarparu'n ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Roedd 1 person (2014: dim personau) wedi ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £300 (2014: dim).

## Rhaglenni

| | **2014-15** | **2014-15** | **2014-15** | 2013-14 | 2013-14 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff wedi'u cyflogi'n barhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol | Eraill | Cyfanswm |
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau a thâl | **3,828** | **140** | **3,968** | 1,570 | 47 | 1,617 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **345** | **48** | **393** | 134 | 6 | 140 |
| Costau pensiwn eraill | **706** | **86** | **792** | 271 | 11 | 282 |
| | **4,879** | **274** | **5,153** | 1,975 | 64 | 2,039 |
| Dileu swyddi* | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **4,879** | **274** | **5,153** | 1,975 | 64 | 2,039 |

* Ni ddilëwyd swyddi yn ystod y flwyddyn (2014: dim).

Mae'r costau staff rhaglenni yn ymwneud â'r Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS) a'r Tîm Cyngor Cyfreithiol Cymunedol.

*Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad*

## Nifer cyfartalog y personau a gyflogwyd - Gweinyddiaeth

Nifer cyfartalog y personau cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 | 2013-14 | 2013-14 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol | Eraill | Cyfanswm | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol | Eraill | Cyfanswm |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 1,209 | 141 | 1,350 | 1,161 | 244 | 1,405 |
| Staff mewn prosiectau cyfalaf | 36 | 52 | 88 | 35 | 40 | 75 |
| Eraill | - | 63 | 63 | - | 38 | 38 |
| **Cyfanswm** | 1,245 | 256 | 1,501 | 1,196 | 322 | 1,518 |

## Nifer cyfartalog y personau a gyflogwyd - Rhaglenni

| | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 | 2013-14 | 2013-14 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol | Eraill | Cyfanswm | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol | Eraill | Cyfanswm |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 67 | 4 | 71 | 41 | 1 | 42 |
| | 67 | 4 | 71 | 41 | 1 | 42 |

Nifer cyfartalog yr Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd a oedd yn eu swydd yn ystod y flwyddyn oedd tri pherson cyfwerth ag amser llawn (2014: 3). Mae nifer cyfartalog y personau cyfwerth ag amser llawn a oedd wedi'u cyflogi ar 31 Mawrth 2015 yn cynnwys un Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (2014: 1).

## Cynlluniau digolledu - Gweinyddiaeth

| | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 | 2013-14 | 2013-14 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill | Nifer cyfan y pecynnau ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill | Nifer cyfan y pecynnau ymadael |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Band cost y pecynnau ymadael | | | | | | |
| < £10,000 | - | 1 | 1 | - | - | - |
| £10,000 - £25,000 | - | 8 | 8 | - | - | - |
| £25,000 - £50,000 | - | 19 | 19 | - | 6 | 6 |
| £50,000 - £100,000 | - | 5 | 5 | - | 5 | 5 |
| £100,000 - £150,000 | - | - | - | - | 1 | 1 |
| £150,000 - £200,000 | - | 1 | 1 | - | - | - |
| £200,000 - £250,000 | - | - | - | - | - | - |
| **Nifer cyfan y pecynnau ymadael yn ôl math** | - | 34 | 34 | - | 12 | 12 |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau (£000)** | - | 1,169 | 1,169 | - | 742 | 742 |

## Nodyn 4 – Costau gweinyddiaeth eraill

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Llety a chostau cysylltiedig | **3,478** | 3,725 |
| Costau swyddfa, ToG a rhedeg gwasanaethau | **13,955** | 14,694 |
| Costau cysylltiedig â staff ac aelodau pwyllgor | **2,137** | 1,767 |
| Lesoedd gweithredu | **2,825** | 3,235 |
| Costau cyfreithiol a phroffesiynol | **3,773** | 4,265 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth â GLlTEM | **5,993** | 7,500 |
| Costau gweinyddiaeth eraill | **1,345** | 736 |
| | **33,506** | 35,922 |
| **Costau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Amorteiddio | **11,324** | 6,329 |
| Dibrisiant | **2,982** | 2,621 |
| Taliadau tybiannol a ailgodwyd o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder* | **10,530** | 9,484 |
| Ffi archwilio dybiannol | **240** | 260 |
| Amorteiddio lesoedd gweithredu | **(97)** | (183) |
| | **24,979** | 18,511 |
| **Costau gweinyddiaeth eraill** | **58,485** | 54,433 |

* Mae'r rhan fwyaf o'r taliadau tybiannol a ailgodwyd o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ymwneud â chostau eiddo a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

*Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad*

## Nodyn 5 - Costau rhaglenni eraill

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Cynrychiolaeth Sifil** | | |
| Taliadau i gyfreithwyr, ffioedd cwnsleriaid ac alldaliadau | **732,769** | 838,653 |
| Ad-dalu cyfraniadau | **1,355** | 2,093 |
| Costau partïon llwyddiannus na chawsant gymorth | **343** | 1,361 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad gwaith sy'n mynd rhagddo (nodyn 15) | **(66,266)** | 14,694 |
| Dyled, Lleihad mewn Gwerth a Dileu Dyledion | **13,840** | 22,404 |
| Treth | **-** | 149 |
| | **682,041** | 879,354 |
| **Help Cyfreithiol Sifil** | | |
| Taliadau i gyfreithwyr, ffioedd cwnsleriaid ac alldaliadau | **100,224** | 138,803 |
| Grantiau a Gwasanaethau Uniongyrchol | **7,924** | 7,012 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad gwaith sy'n mynd rhagddo (nodyn 15) | **3,660** | (16,331) |
| | **111,808** | 129,484 |
| **Troseddol Is** | | |
| Taliadau i gyfreithwyr, ffioedd cwnsleriaid ac alldaliadau | **326,521** | 390,140 |
| Y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus a Grantiau a Gwasanaethau Uniongyrchol | **2,548** | 4,531 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad gwaith sy'n mynd rhagddo (nodyn 15) | **(1,287)** | (29,109) |
| | **327,782** | 365,562 |
| **Troseddol Uwch** | | |
| Taliadau i gyfreithwyr, ffioedd cwnsleriaid ac alldaliadau | **572,755** | 582,355 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad gwaith sy'n mynd rhagddo (nodyn 15) | **31,566** | (16,411) |
| Dyled, Lleihad mewn Gwerth a Dileu Dyledion | **8,454** | 12,375 |
| | **612,775** | 578,319 |
| **Cronfeydd Canolog*** | | |
| Gorchmynion am gostau'r amddiffyniad yn Llys y Goron ac mewn llysoedd ynadon | **49,816** | 52,278 |
| Cyfieithwyr ac eraill | **12,998** | 13,297 |
| Darpariaeth ar gyfer symiau sydd heb eu talu yng nghyswllt achosion a ariannwyd yn breifat (nodyn 15) | **(18,576)** | 23,495 |
| | **44,238** | 89,070 |
| **Costau eraill nad ydynt yn arian parod** | | |
| Lleihad yng ngwerth asedau anniriaethol | **16** | 43 |
| Lleihad yng ngwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar | **-** | 104 |
| Symudiad mewn darpariaethau | **292** | (231) |
| Disgownt ar ddarpariaethau (nodyn 15) | **4** | 32 |
| | **312** | **(52)** |
| **Costau rhaglenni eraill** | **1,778,956** | 2,041,737 |

* Mae costau Cronfeydd Canolog yn y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddosbarthu o ganlyniad i wybodaeth reoli well

## Nodyn 6 - Incwm

### Incwm gweinyddiaeth

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm gweinyddiaeth* | 787 | 747 |
| **Cyfanswm** | 787 | 747 |

* Daw'r incwm gweinyddiaeth o adrannau Llywodraeth eraill sydd wedi cydleoli mewn rhannau o swyddfeydd yr LAA sydd dros ben

### Incwm rhaglenni

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cynrychiolaeth Sifil** | | |
| Cyfraniadau gan gleientiaid a gafodd gymorth ariannol | 16,556 | 20,751 |
| Costau y gellir eu hadennill | 125,351 | 128,039 |
| Symiau a adenillwyd o iawndal ac arwystlon statudol | 23,177 | 28,593 |
| | 165,084 | 177,383 |
| **Help Cyfreithiol Sifil** | | |
| Costau y gellir eu hadennill | - | 2 |
| | - | 2 |
| **Achosion troseddol** | | |
| Symiau a adenillwyd yn Llys y Goron | 25,915 | 24,072 |
| Adennill costau amddiffyn | 403 | 570 |
| | 26,318 | 24,642 |
| **Incwm cyllid** | | |
| Llog derbyniadwy o arwystlon statudol | 6,745 | 8,444 |
| | 6,745 | 8,444 |
| **Cyfanswm** | 198,147 | 210,471 |

*Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad*

## Nodyn 7 – Ailgysoni asedau anniriaethol Nodyn 8 ac eiddo, peiriannau a chyfarpar Nodyn 9 â'r Datganiad o Lifau Arian

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Ychwanegu asedau anniriaethol (nodyn 8) | **11,528** | 9,222 |
| Gostyngiad yn y cyfalaf a gronnwyd | **782** | 3,453 |
| **Cyfanswm yr asedau anniriaethol a brynwyd yn ôl y Datganiad o Lifau Arian** | **12,310** | 12,675 |
| Ychwanegu eiddo, peiriannau a chyfarpar (nodyn 9) | **63** | 523 |
| Gostyngiad yn y cyfalaf a gronnwyd | **69** | 493 |
| **Cyfanswm yr eiddo, peiriannau a chyfarpar a brynwyd yn ôl y Datganiad o Lifau Arian** | **132** | 1,016 |
| **Cyfanswm y pryniadau yn ôl y Datganiad o Lifau Arian** | **12,442** | 13,691 |

## Nodyn 8 - Asedau anniriaethol

| | **Asedau sy'n cael eu hadeiladu** | **Meddalwedd cyfrifiadurol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cost ar 1 Ebrill 2014 | **33,406** | **37,919** | **71,325** |
| Ailddosbarthiadau | **(38,324)** | **38,324** | **-** |
| Ychwanegiadau | **11,210** | **318** | **11,528** |
| Gwarediadau | **-** | **(37)** | **(37)** |
| Lleihad mewn Gwerth | **-** | **(16)** | **(16)** |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | **1,011** | **-** | **1,011** |
| Ailbrisiadau | **-** | **782** | **782** |
| **Cost ar 31 Mawrth 15** | **7,303** | **77,290** | **84,593** |
| Amorteiddio ar 1 Ebrill 2014 | - | **23,837** | **23,837** |
| Codwyd o fewn y flwyddyn | - | **11,324** | **11,324** |
| Gwarediadau | - | **(37)** | **(37)** |
| Ailbrisiadau | - | **248** | **248** |
| **Amorteiddio ar 31 Mawrth 2015** | - | **35,372** | **35,372** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2015** | **7,303** | **41,918** | **49,221** |

Mae costau o £31,187,000 sy'n ymwneud â datblygu'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau (CCMS) ar gyfer y Rhaglen Gyflawni Integredig (IDP) wedi'u trosglwyddo o asedau sy'n cael eu hadeiladu i feddalwedd cyfrifiadurol. Daeth CCMS yn ased byw yn Awst 2014, ac aseiniwyd oes economaidd fuddiol o 5 mlynedd iddi.

Mae cyfanswm yr ychwanegiadau'n cynnwys croniadau cyfalaf o £801,000 (2014: £1,583,000) ar 31 Mawrth 2015.

Mae balans y gronfa ailbrisio o £1,292,000 yn y Datganiad o Ecwiti'r Trethdalwyr yn cynnwys £1,114,000 (2014: £1,193,000) sy'n ymwneud ag asedau anniriaethol ar 31 Mawrth 2015.

| | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Meddalwedd cyfrifiadurol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2013 | 25,993 | 37,050 | 63,043 |
| Ailddosbarthiadau | (1,640) | 1,626 | (14) |
| Ychwanegiadau | 9,053 | 169 | 9,222 |
| Gwarediadau | - | (177) | (177) |
| Lleihad mewn Gwerth | - | (43) | (43) |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | - | - | - |
| Ailbrisiadau | - | (706) | (706) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2014** | 33,406 | 37,919 | 71,325 |
| Amorteiddio ar 1 Ebrill 2013 | - | 18,101 | 18,101 |
| Codwyd o fewn y flwyddyn | - | 6,329 | 6,329 |
| Gwarediadau | - | (177) | (177) |
| Ailbrisiadau | - | (416) | (416) |
| **Amorteiddio ar 31 Mawrth 2014** | - | 23,837 | 23,837 |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2014** | 33,406 | 14,082 | 47,488 |

*Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad*

## Nodyn 9 – Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Gosodion a ffitiadau | Dodrefn a chyfarpar | Technoleg gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2014 | 3,428 | 3,571 | 299 | 13,140 | 20,438 |
| Ailddosbarthiadau | (3,427) | - | - | 3,427 | - |
| Ychwanegiadau | 63 | - | - | - | 63 |
| Gwarediadau | - | (2) | (299) | (51) | (352) |
| Lleihad mewn Gwerth | - | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | 221 | - | - | 131 | 352 |
| Ailbrisiadau | - | - | - | 174 | 174 |
| **Cost ar 31 Mawrth 2015** | 285 | 3,569 | - | 16,821 | 20,675 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2014 | - | 3,396 | 299 | 5,878 | 9,573 |
| Codwyd o fewn y flwyddyn | - | 149 | - | 2,833 | 2,982 |
| Gwarediadau | - | (2) | (299) | (51) | (352) |
| Ailbrisiadau | - | - | - | 59 | 59 |
| **Dibrisiant ar 31 Mawrth 2015** | - | 3,543 | - | 8,719 | 12,262 |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2015** | 285 | 26 | - | 8,102 | 8,413 |

Mae cyfanswm yr ychwanegiadau'n cynnwys croniadau cyfalaf o £0 (2014: £69,000) ar 31 Mawrth 2015.

Mae balans y gronfa ailbrisio o £1,292,000 yn y Datganiad o Ecwiti'r Trethdalwyr yn cynnwys £178,000 (2014: £153,000) sy'n ymwneud ag eiddo, peiriannau a chyfarpar ar 31 Mawrth 2015.

Mae costau o £3,427,000 sy'n ymwneud â datblygu'r CCMS ar gyfer y IDP wedi'u trosglwyddo o asedau sy'n cael eu hadeiladu i Dechnoleg Gwybodaeth. Cafodd yr CCMS ei wneud yn ased byw yn Awst 2014, ac aseiniwyd oes economaidd fuddiol o 5 mlynedd iddi.

| | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Gosodion a ffitiadau | Dodrefn a chyfarpar | Technoleg Gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2013 | 2,958 | 4,913 | 1,679 | 8,567 | 18,117 |
| Ailddosbarthiadau | (53) | 410 | (410) | 67 | 14 |
| Ychwanegiadau | 523 | - | - | - | 523 |
| Gwarediadau | - | (1,796) | (969) | (55) | (2,820) |
| Lleihad mewn Gwerth | - | (6) | - | (108) | (114) |
| Trosglwyddiadau i'r MoJ | - | - | - | (2,118) | (2,118) |
| Trosglwyddiadau o'r MoJ | - | - | - | 6,933 | 6,933 |
| Ailbrisiadau | - | 50 | (1) | (146) | (97) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2014** | 3,428 | 3,571 | 299 | 13,140 | 20,438 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2013 | - | 4,519 | 1,566 | 5,364 | 11,449 |
| Codwyd o fewn y flwyddyn | - | 292 | 41 | 2,288 | 2,621 |
| Gwarediadau | - | (1,796) | (969) | (55) | (2,820) |
| Lleihad mewn Gwerth | - | (10) | - | - | (10) |
| Trosglwyddiadau i'r MoJ | - | - | - | (1,635) | (1,635) |
| Ailddosbarthiadau | - | 345 | (345) | - | - |
| Ailbrisiadau | - | 46 | 6 | (84) | (32) |
| **Dibrisiant ar 31 Mawrth 2014** | - | 3,396 | 299 | 5,878 | 9,573 |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2014** | 3,428 | 175 | - | 7,262 | 10,865 |

## Ariannu asedau

Mae'r holl asedau anniriaethol ac eiddo, peiriannau a chyfarpar yn eiddo i'r LAA.

*Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad*

## Nodyn 10 – Adnabod a rheoli risgiau ariannol

Mae proses rheoli risg ariannol yr LAA yn ceisio rhoi'r gallu i adnabod y prif risgiau sy'n wynebu'r LAA yn gynnar a'u gwerthuso a'u rheoli'n effeithiol. Mae systemau wedi'u sefydlu i adolygu ac adlewyrchu newidiadau yn y farchnad cymorth cyfreithiol ac yng ngweithgareddau'r LAA.

### Risg cyfraddau llog

Mae risg cyfraddau llog yn cynnwys dwy brif elfen:

1. Risg prisiau llog yn deillio o offerynnau ariannol sy'n dwyn cyfraddau llog penodedig. Gall newidiadau mewn cyfraddau llog cyfnewidiol effeithio ar werth teg yr offerynnau cyfradd penodedig hyn.

2. Risg llif arian llog yn deillio o offerynnau ariannol sy'n dwyn cyfraddau cyfnewidiol. Mae newidiadau mewn cyfraddau llog cyfnewidiol yn effeithio ar lifau arian sy'n dderbyniadwy neu'n daladwy.

Nid yw'r LAA yn agored i risg sylweddol o gyfraddau llog.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd dyled o £61.9 miliwn (2014: £68 miliwn) yn ddyledus o arwystlon statudol, yr oedd ei phrifswm yn cario cyfradd llog benodedig. Nid yw symudiadau mewn cyfraddau llog cyfnewidiol yn effeithio ar werth teg yr asedau hyn, nad ydynt yn cael eu masnachu, gan ei fod yn cael ei bennu drwy ddisgowntio'r asedau gan ddefnyddio cyfradd Trysorlys EM (2.2% ar hyn o bryd) dros y cyfnod casglu disgwyliedig.

Mae arian y mae'r LAA yn ei dderbyn ar ran cleientiaid sy'n cael cymorth ariannol yn cael ei ddal mewn cyfrif cadw nes bydd yr achos ar ben.

Telir llog i gleientiaid a gafodd gymorth ariannol drwy gyfeirio at Gyfradd Prynu Rhwng Banciau Llundain (LIBOR).

Mae arian y mae'r LAA yn ei dderbyn mewn cysylltiad â chyfraniadau o dan Brawf Moddion Llys y Goron yn cael ei ddal nes bydd dyfarniad terfynol a chostau'r achos wedi'u penderfynu. Ad-delir cyfraniadau i geiswyr a gafwyd yn ddieuog gan gynnwys llog sydd wedi'i gyfrifo ar 2% y flwyddyn o'r dyddiad y derbyniwyd y cyfraniad i'r Gronfa. Mae gweddill yr arian o gyfraniadau'n cael ei ddal fel arian parod.

### Risg credyd

Risg credyd yw'r risg na fydd partïon i offerynnau ariannol yn perfformio'n unol â thelerau'r contract neu offeryn. Mae'r LAA yn agored i risg credyd wrth ddelio â chleientiaid a gafodd gymorth ariannol a chyflenwyr ac o weithgareddau ariannu penodol.

Mae'r risg credyd uniongyrchol o offerynnau ariannol yn deillio o'r offerynnau hynny lle mae gwerth teg positif net gan y parti ar 31 Mawrth 2015. Credir mai'r risg credyd fwyaf i'r Gronfa yw:

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Risg credyd** | | |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag ef | **5,752** | 4,623 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | **111,482** | 105,549 |
| Asedau trydydd parti | **21,096** | 18,832 |
| | **138,330** | 129,004 |

Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag ef yw balansau banc sy'n cael eu dal gyda banciau masnachol, gan gynnwys y rheini a weinyddir drwy'r GBS, sydd â chyfnodau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai.

Ar 31 Mawrth 2015 nid oedd unrhyw warantau ariannol nac ymrwymiadau trydydd parti, heblaw symiau sy'n cael eu dal ar ffurf iawndal mewn cyfrifon cadw a chyfraniadau o dan brawf moddion Llys y Goron, a oedd yn cynyddu risg credyd yr asedau ariannol sydd wedi'u nodi uchod.

## Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

Mae risg ymlynol i'r LAA mewn symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill, gan nad yw'r LAA wedi'i thueddbennu at gasglu arian parod mewn ffordd syml. Mae'r LAA yn cydnabod y risg hon ac yn ei lliniaru yn achos dyledion ar arwystlon statudol, lle gellir gohirio ad-dalu'r ddyled, drwy sicrhau pridiannau tir a dilyn polisïau ar gyfer rheoli credyd i adennill dyledion ansicredig. Mewn rhai achosion mae'r gweithgareddau casglu dyledion yn cael eu gosod ar gontract i gasglwyr dyledion masnachol. Mae maint y risg wedi'i adlewyrchu yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy sy'n dod i gyfanswm o £223.3 miliwn (2014: £207.4 miliwn).

Mae'r rhan fwyaf o symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill yr LAA yn ganlyniad i arwystlon statudol, h.y. £61.9 miliwn (2014: £68.0 miliwn) o gyfanswm y symiau derbyniadwy ar ôl lleihad mewn gwerth o £111.5 miliwn (2014: £105.5 miliwn). Mae cyfran uchel o'r rhain wedi'u gwarantu ar eiddo ac ni fydd y ddyled yn cael ei setlo nes caiff yr eiddo ei werthu. Gwnaethpwyd darpariaeth am leihad mewn gwerth ar gyfer y symiau hyn, a'r symiau derbyniadwy eraill, ar sail y derbyniadau disgwyliedig ar ôl setlo.

Mae'r LAA yn darparu ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy ar sail ei phrofiad o gasglu arian yn y gorffennol ac asesiad gan reolwyr o'r symiau sy'n debygol o gael eu hadennill, ar gyfer pob categori dyled. Rhoddir ystyriaeth i ffactorau macroeconomaidd, fel y dirywiad yn yr economi, a risgiau ymlynol, fel newidiadau dichonol mewn adenillion o ganlyniad i ddiwygiadau i gynlluniau cymorth cyfreithiol, wrth asesu lefelau'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth.

Mae'r model y mae'r LAA yn ei ddefnyddio i asesu lleihad mewn gwerth yn defnyddio proffiliau am adennill gwahanol fathau o ddyledion yn y gorffennol i amcangyfrif y ddarpariaeth sydd ei hangen ar sail balansau dyledion. Mae'r model sy'n asesu lleihad mewn gwerth wedi'i seilio ar ragdybiaethau penodol gan gynnwys: oes hiraf dyledion yw 10 mlynedd heblaw am arwystlon statudol lle mae hyn wedi'i godi i 16 mlynedd; derbynnir incwm yn erbyn dyledion yn gyson drwy'r flwyddyn; a'r gyfradd disgownt yw 2.2%. Ystyriwyd effaith y posibiliadau rhesymol canlynol hyn yn lle'r rhagdybiaethau uchod:

- Oes hiraf y ddyled +/- 1 flwyddyn;
- derbyn incwm yn erbyn y ddyled ar ddiwedd y flwyddyn, yn hytrach nag yn gyson drwy gydol y flwyddyn;
- cyfradd disgownt - gosodir y gyfradd hon gan Drysorlys EM ac nid yw barn rheolwyr yn effeithio arni ac felly nid yw wedi'i chyfrifo;
- y derbyniadau incwm disgwyliedig a ddefnyddiwyd i gyfrifo llifau arian y ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth +/- 10% (yn unol â'r derbyniadau incwm uchaf ac isaf dros y pum mlynedd diwethaf).

*Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad*

## Rhoi prawf ar y rhagdybiaethau

| | | Cynnydd/(gostyngiad) net yr ased ariannol | |
|---|---|---|---|
| | **Rhagdybiaeth** | **2014-15 £m** | 2013-14 £m |
| Oes hiraf y ddyled | **+1 blwyddyn** | **0.4** | 0.1 |
| Oes hiraf y ddyled | **-1 blwyddyn** | **(0.5)** | (0.4) |
| Incwm a dderbynnir | **Yn gyson drwy'r flwyddyn** | **0.9** | 0.9 |
| Derbyniadau incwm disgwyliedig | **+10%** | **8.4** | 8.7 |
| Derbyniadau incwm disgwyliedig | **-10%** | **(8.4)** | (8.8) |

Ar sail y rhagdybiaethau rhesymol dichonol eraill hyn, gallai gwerth teg yr asedau ariannol ar 31 Mawrth 2015 fod yn £9.7 miliwn (2014: £9.7 miliwn) yn uwch neu'n £8.9 miliwn (2014: £9.2 miliwn) yn is.

Er bod rhagdybiaethau dichonol eraill ar gael, ni fydd y rhagdybiaethau presennol yn cael eu newid. Byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u newid os bydd y rheolwyr yn credu bod rhagdybiaethau eraill yn adlewyrchu'r tueddiadau sylfaenol yn well.

## Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Mae'r LAA yn defnyddio modelau prisio cymhleth i amcangyfrif gwerth symiau sydd heb eu bilio ar achosion byw. Mae'r modelau hyn yn defnyddio mewnbynnau ar gyfer pris hanesyddol, proffiliau niferoedd, gwariant disgwyliedig, a gwybodaeth fusnes sylfaenol, i amcangyfrif gwaith sydd wedi'i gwblhau ond heb ei filio ar ddyddiad olaf y cyfnod adrodd. Penderfynwyd ar y rhagdybiaethau rhesymol eraill isod drwy sylwi ar yr uchafbwyntiau ac isafbwyntiau hanesyddol yn ffynonellau data gwirioneddol y gwahanol fodelau. Mae effaith y rhagdybiaethau rhesymol eraill yn lle'r mewnbynnau hyn wedi'i mesur isod:

- Proffiliau prisiau +9% i -6%
- Proffiliau niferoedd +7% i -7%
- Gwariant disgwyliedig +5% i -6%.

## Rhoi prawf ar y rhagdybiaethau

| | Cynnydd mewn rhwymedigaethau ariannol net | | (Gostyngiad) mewn rhwymedigaethau ariannol net | |
|---|---|---|---|---|
| | **Rhagdybiaeth** | **£m** | **Rhagdybiaeth** | **£m** |
| Proffiliau prisiau | **+ 9%** | **6.3** | **(6%)** | **(4.4)** |
| Proffiliau niferoedd | **+ 7%** | **4.6** | **(7%)** | **(4.6)** |
| Gwariant disgwyliedig | **+ 5%** | **17.4** | **(6%)** | **(20.9)** |

Ar sail y rhagdybiaethau rhesymol eraill hyn, gallai gwerth teg y rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2015 fod cymaint â £28.3 miliwn (2014: £30.9 miliwn) yn uwch neu'n gymaint â £29.9 miliwn (2014: £29.5 miliwn) yn is.

Nid yw'r rhagdybiaethau uchod yn cynnwys y newidynnau yn y model a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith sy'n mynd rhagddo mewn Cynrychiolaeth Sifil, sef £262.4 miliwn (2014: £328.7 miliwn).

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith sy'n mynd rhagddo mewn Cynrychiolaeth Sifil yn cael ei chyfrifo fesul achos ar sail patrymau gweithgarwch y gorffennol, gyda chanlyniadau dichonol lluosog o ran hyd a chost achosion. Caiff y cyfrifiadau eu segmentu rhwng y gwahanol ffrydiau gwariant a rhwng gwahanol gerrig milltir yng nghylch bywyd yr achos. Mae'r model yn amcangyfrif y gweithgarwch hyd at y digwyddiad ariannol nesaf ym mhob ffrwd gwariant, gan adlewyrchu amseriadau bilio mewn busnes go iawn.

Penderfynwyd ar y rhagdybiaethau rhesymol eraill isod drwy sylwi ar yr uchafbwyntiau ac isafbwyntiau hanesyddol yn ffynonellau data gwirioneddol y gwahanol fodelau, wedi'u haddasu ar gyfer tueddiadau amcanestynedig. Mae effaith y rhagdybiaethau rhesymol eraill yn lle'r mewnbynnau hyn wedi'i mesur isod:

- Cost trawsnewid a phroffil hyd achosion gan ddefnyddio data hyd Fawrth 2013;
- cyfnod bilio rhwng +21% a -9%;
- rhagdybiaeth ynghylch terfynu oherwydd hunedd +25%.

## Rhoi prawf ar ragdybiaethau Cynrychiolaeth Sifil

| | Cynnydd | | Gostyngiad | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhagdybiaeth | £m | Rhagdybiaeth | £m |
| Cost trawsnewid a phroffil hyd achosion | Proffiliau Mawrth 2013 | 19.3 | Proffiliau Mawrth 2013 | (19.3) |
| Cyfnod bilio | 21% | 5.4 | (9%) | (2.4) |
| Rhagdybiaeth ynghylch hunedd | 25% | 22.2 | Amh | Amh |

Mae'r mewnbynnau uchod wedi'u seilio ar ddata achosion, ynghyd â barn rheolwyr, er enghraifft, wrth ddewis nifer y blynyddoedd o ddata achosion hanesyddol i'w defnyddio wrth greu proffiliau hanesyddol. Dylid nodi bod sensitifrwydd cynhenid y ddarpariaeth ar gyfer gwaith sy'n mynd rhagddo mewn Cynrychiolaeth Sifil yn golygu y byddai newid cymharol fach yng nghanrannau'r mewnbynnau uchod yn gallu creu amcangyfrif tra gwahanol. Ar ben hynny, mae cyfran sylweddol o waith ardystiedig nad yw'n cael ei gyflawni ar sail ffioedd penodedig ac felly gellir cael amrywiadau yng nghostau achosion. Mae'r holl ragdybiaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diwygio os oes digon o wybodaeth i ddangos ei bod yn briodol gwneud hynny. Ar sail y rhagdybiaethau rhesymol eraill hyn, gallai gwerth teg y

rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2015 fod yn gymaint â £46.9 miliwn (2014: £48.4 miliwn) yn uwch neu'n gymaint â £21.7 miliwn (2014: £36.8 miliwn) yn is.

### Arian parod

Mae balansau arian parod yn cael eu cadw gyda banciau neu sefydliadau ariannol buddsoddi cadarn. Dewisir banciau ar sail eu statws credyd a'u gallu i fodloni gofynion bancio'r LAA o ddydd i ddydd. Mae'r sgoriau credyd yn cael eu monitro'n barhaus. Nid yw'r LAA wedi cofnodi lleihad yng ngwerth arian parod neu'r hyn sy'n gyfwerth ag ef, ac ni nodwyd unrhyw ystyriaethau o ran y gallu i adennill balansau o'r fath, gan gynnwys asedau trydydd parti. Fel arfer gellir adennill eitemau o'r fath ar alw neu'n unol â threfniadau bancio arferol.

## Nodyn 11 - Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn: | | |
| Dyled gros | 334,746 | 312,915 |
| Darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth | (223,264) | (207,366) |
| **Cyfanswm** | **111,482** | 105,549 |
| **Yn ôl cydrannau:** | | |
| Cyfraniadau sy'n ddyledus oddi wrth gleientiaid a gafodd gymorth ariannol | 6,296 | 4,271 |
| Costau i'w hadennill | 1,032 | 967 |
| Arwystlon statudol * | 61,922 | 67,978 |
| Iawndal | 1,105 | 139 |
| Symiau sy'n ddyledus oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau | 25,865 | 24,769 |
| Adennill costau amddiffyn | 12,662 | 5,023 |
| Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd | 1,020 | 1,225 |
| Dyledwyr o fewn yr adran | 772 | 754 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 808 | 423 |
| | 111,482 | 105,549 |

* O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1974, Deddf Cymorth Cyfreithiol 1988, Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999, a LASPO 2012, os yw cleientiaid a gafodd gymorth ariannol wedi adennill neu gadw eiddo yn hytrach na chael iawndal, gellir sicrhau costau adenilladwy drwy godi arwystl ar yr eiddo. O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) (Diwygio) 2005 a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Arwystlon Statudol) 2013, mae llog ar y balans sy'n weddill yn ddyledus ar hyn o bryd ar gyfradd o 8% y flwyddyn

Mae'r prisiad o symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill yn cynnwys elfen o amcangyfrif sy'n cael ei thrafod ymhellach yn nodyn 10 i'r datganiadau ariannol hyn.

### Swm net y ddyled o arwystlon statudol yw

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Arwystlon statudol | 41,668 | 46,529 |
| Llog a gronnwyd hyd yn hyn | 20,254 | 21,449 |
| | 61,922 | 67,978 |

### Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn yn ôl y math o sefydliad:

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyrff eraill Llywodraeth ganolog | **1,671** | 1,290 |
| Cyrff y tu allan i Lywodraeth | **109,811** | 104,259 |
| | **111,482** | 105,549 |

## Nodyn 12 – Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag ef

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | **4,623** | 23,658 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag ef | **1,129** | (19,035) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **5,752** | 4,623 |

### Roedd y balansau ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn:

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **2,805** | 1,523 |
| Banciau masnachol | **2,947** | 3,100 |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag ef** | **5,752** | 4,623 |

## Nodyn 13 – Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill

### Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn:

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Symiau sy'n ddyledus i gyfreithwyr, cwnsleriaid ac asiantaethau cynghori | **129,982** | 148,330 |
| Ad-dalu cyfraniadau sy'n ddyledus i gleientiaid a gafodd gymorth ariannol | **1,769** | 1,951 |
| Croniadau ac incwm a ohiriwyd | **114,921** | 133,537 |
| Treth gorfforaeth a threthi ataliedig | **68** | 68 |
| Trethi eraill a chostau nawdd cymdeithasol | **1,118** | 983 |
| Credydwyr o fewn yr adran | **20,685** | 7,854 |
| Symiau taladwy eraill | **3,135** | 1,418 |
| | **271,678** | 294,141 |

*Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad*

Yn achos yr holl symiau taladwy, tybir bod y swm cario'n adlewyrchu eu gwerth teg.

## Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn yn ôl y math o sefydliad:

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Awdurdodau lleol | **-** | 18 |
| Cyrff eraill Llywodraeth ganolog | **25,101** | 10,346 |
| Cyrff y tu allan i Lywodraeth | **246,577** | 283,777 |
| | **271,678** | 294,141 |

## Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Croniadau ac incwm a ohiriwyd | **650** | 742 |
| | **650** | 742 |

## Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn yn ôl y math o sefydliad:

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyrff Llywodraeth ganolog | **552** | 604 |
| Cyrff y tu allan i Lywodraeth | **98** | 138 |
| | **650** | 742 |

## Nodyn 14 - Gwerthoedd teg

Isod nodir symiau cario a gwerthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau'r LAA sydd wedi'u cario yn y datganiadau ariannol.

Mae'r LAA o'r farn bod y symiau cario ar gyfer arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag ef, symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill yn agos i'w gwerth teg am fod cyfnodau aeddfedu'r offerynnau hyn yn fyr.

### Symiau cario a gwerthoedd teg

| | **2014-15** | 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | **111,482** | 105,549 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag ef | **5,752** | 4,623 |
| Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill | **(272,328)** | (294,883) |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth** | **(155,094)** | (184,711) |

Mae symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill wedi'u disgowntio dros y cyfnod rhwng y dyddiad adrodd a'r dyddiad casglu disgwyliedig. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar eu gwerth presennol. Er mwyn cymryd i ystyriaeth yr effaith hon ar werth arian dros amser, defnyddiwyd techneg amcangyfrif sy'n disgowntio'r holl falansau derbyniadwy dros gyfnodau sy'n gymesur â phatrymau llif arian hanesyddol ar gyfer pob math o swm derbyniadwy ar gyfradd o 2.2% y flwyddyn (2014: 2.2% y flwyddyn). Y gyfradd disgownt a ddefnyddir yw cyfradd disgownt y Trysorlys. Mae'r dechneg amcangyfrif a ddefnyddiwyd yn rhagdybio y bydd amseriadau llifau arian yn y dyfodol yn dilyn tueddiadau hanesyddol.

### Hierarchaeth gwerthoedd teg

Mae'r LAA yn defnyddio'r hierarchaeth isod ar gyfer pennu a datgelu gwerth teg offerynnau ariannol yn ôl y technegau prisio:

**Lefel 1:** prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau o'r un math;

**Lefel 2:** technegau eraill lle gellir gweld yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yr holl fewnbynnau sy'n cael effaith sylweddol ar y gwerth teg a gofnodwyd;

**Lefel 3:** technegau sy'n defnyddio mewnbynnau sy'n cael effaith sylweddol ar y gwerth teg a gofnodwyd sydd heb eu seilio ar ddata marchnad y gellir sylwi arnynt.

Mae holl asedau a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa a fesurwyd ar sail eu gwerth teg yn dod o fewn lefel 3. Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau i mewn neu allan o offerynnau gwerth teg lefel 3.

*Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad*

## Nodyn 15 - Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Darpariaeth ar gyfer symiau sydd heb eu talu ar achosion a ariannwyd | Darpariaeth ar gyfer symiau sydd heb eu talu yng nghyswllt achosion a ariannwyd yn breifat (Cronfeydd Canolog) * | Darpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol | Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2014 | **577,306** | **24,799** | **106** | **2,611** | **604,822** |
| Trosglwyddo darpariaeth y Cronfeydd Canolog o'r MoJ | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Symudiad net ac ailbrisio'r ddarpariaeth | **(32,326)** | **(18,576)** | **580** | **-** | **(50,322)** |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn y cyfnod | **-** | **-** | **(168)** | **(140)** | **(308)** |
| Symiau heb eu defnyddio a wrthdrowyd yn y cyfnod | **-** | **-** | **(253)** | **(35)** | **(288)** |
| Taliadau cyllido (nodyn 5) | **-** | **-** | - | **4** | **4** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **544,980** | **6,223** | **265** | **2,440** | **553,908** |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 624,463 | - | 433 | 2,985 | 627,881 |
| Trosglwyddo darpariaeth y Cronfeydd Canolog o'r MoJ | - | 17,100 | - | - | 17,100 |
| Symudiad net ac ailbrisio'r ddarpariaeth | (47,157) | 24,799 | 65 | - | (22,293) |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn y cyfnod | - | (15,796) | (224) | (278) | (16,298) |
| Symiau heb eu defnyddio a wrthdrowyd yn y cyfnod | - | (1,304) | (168) | (128) | (1,600) |
| Taliadau cyllido (nodyn 5) | - | | - | 32 | 32 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | 577,306 | 24,799 | 106 | 2,611 | 604,822 |

## Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau a ddisgowntiwyd

| | Darpariaeth ar gyfer symiau sydd heb eu talu ar achosion a ariannwyd | Darpariaeth ar gyfer symiau sydd heb eu talu yng nghyswllt achosion a ariannwyd yn breifat (Cronfeydd Canolog) | Darpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol | Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | **544,980** | **6,223** | **265** | **348** | **551,816** |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | **1,763** | **1,763** |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | **329** | **329** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **544,980** | **6,223** | **265** | **2,440** | **553,908** |
| | | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 577,306 | 24,799 | 106 | 334 | 602,545 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | 2,016 | 2,016 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | 261 | 261 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | 577,306 | 24,799 | 106 | 2,611 | 604,822 |

Mae'r LAA yn amcangyfrif gwerth achosion byw sydd heb eu bilio a gorchmynion am gostau amddiffyn sydd heb eu bilio bob blwyddyn er mwyn pennu'r symiau sy'n cael eu datgelu fel darpariaeth yn y cyfrifon. Mae'r swm yn amcangyfrif o'r gwariant sydd ei angen i setlo unrhyw ymrwymiad ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth, mae'r LAA wedi mabwysiadu technegau mesur darbodus wedi'u seilio ar y data diweddaraf sydd ar gael: mae'r rhain yn cael eu trafod ymhellach yn nodyn 10 i'r datganiadau ariannol hyn.

Ar sail hyd cyfartalog achosion yn y gorffennol a data am yr oedi cyfartalog rhwng dyddiad dyfarnu'r gorchymyn am dalu costau'r amddiffyniad a dyddiad talu'r bil, disgwylir y bydd bron y cyfan o'r costau am y symiau sydd heb eu talu ar achosion sydd heb eu bilio a gorchmynion am gostau amddiffyn sydd heb eu bilio'n cael eu hysgwyddo o fewn y 12 mis nesaf ac felly nid oes unrhyw symiau wedi'u disgowntio.

Gwneir darpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag ymgyfreitha sy'n mynd rhagddo.

Gwneir darpariaeth ar gyfer amcangyfrifon o gostau dadfeilio ar adeiladau lesddaliadol. Mae'r ddarpariaeth wedi'i hamcangyfrif drwy gyfeirio at gyflwr a lleoliad yr adeiladau a gofynion y les berthnasol. Mae wedi'i disgowntio wedyn ar gyfradd disgownt Trysorlys EM o 1.5% negatif (2014: 1.9% negatif) ar gyfer lesoedd tymor byr (hyd at 5 mlynedd), 1.05% negatif (2014: 0.65% negatif) ar gyfer rhai tymor canolig (5 i 10 mlynedd) a 2.2% positif (2014: 2.2% positif) ar gyfer lesoedd tymor hir (mwy na 10 mlynedd).

Disgwylir y bydd costau'r darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau'n cael eu hysgwyddo rhwng 2015 a 2026 wrth i bob les ddod i ben.

## Nodyn 16 - Ymrwymiadau o dan lesoedd

### a) Lesoedd gweithredu

Yn y tabl isod rhoddir cyfanswm y taliadau les lleiaf o dan lesoedd gweithredu yn y dyfodol ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:

| | **Tir ac adeiladau 2014-15** | Tir ac adeiladau 2013-14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Yr ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredu yw:** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | **2,692** | 2,809 |
| Hwyrach nag un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | **5,016** | 7,296 |
| Hwyrach na phum mlynedd | **1,172** | 1,700 |
| | **8,880** | 11,805 |

O dan delerau'r cytundebau les, nid oes unrhyw renti digwyddiadol yn daladwy ac nid oes unrhyw hawliau prynu. Mae'r ymrwymiadau wedi'u cyfrifo ar sail cyfnodau llawn y lesoedd cyn iddynt ddod i ben

## Nodyn 17 - Ymrwymiadau ariannol

Mae gan yr LAA ymrwymiadau ariannol sy'n dod i gyfanswm o £2,095,000 ar 31 Mawrth 2015 (2014: £447,000), y cyfan ohonynt o fewn un flwyddyn.

## Nodyn 18 - Asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol

Ar 31 Mawrth 2015, roedd yr LAA yn ymchwilio i 27 o hawliadau am ddigolledlad y mae atebolrwydd dichonol ar eu cyfer o £398,000 (2014: 26 o hawliadau am ddigolledlad ag atebolrwydd dichonol o £150,000).

Yn ogystal â hyn, roedd dau Dribiwnlys Cyflogaeth ac un her gyfreithiol yn mynd rhagddynt ar wahanol gamau.

Nid oes gan yr  unrhyw asedau digwyddiadol ar 31 Mawrth 2015 (2014: dim).

## Nodyn 19 - Nodiadau ar atebolrwydd

### Colledion

Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi nodi 2,457 (2014: 5,652) o gyfrifon a oedd yn cynnwys colledion o gyfanswm o £6.4 miliwn (2014: £14.6 miliwn).

Yn unol â gofynion 'Managing Public Money' mae colledion unigol o fwy na £300,000 yn cael eu datgelu ar wahân. Nid oedd dim (2014: 2) balansau cyflenwyr wedi'u dileu o fwy na £300,000. Nid oedd dim (2014: dim) balansau i gleientiaid a gafodd gymorth ariannol wedi'u dileu o fwy na £300,000.

Nid oedd dim colledion (2014: dim) mewn perthynas â gweithgareddau twyllodrus.

Nid oedd dim colledion yn codi o ganlyniad i leihad yng ngwerth asedau.

### Taliadau arbennig

Yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, nid oedd cyfanswm y taliadau arbennig yn fwy na £300,000, y lefel lle mae'n ofynnol datgelu gwerth a nifer y taliadau cydnabyddiaeth yn unol â 'Managing Public Money'.

## Nodyn 20 - Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r LAA yn asiantaeth weithredol i'r MoJ, sy'n cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd yr LAA amrywiol drafodion perthnasol â'r MoJ. Cafodd yr LAA amrywiol drafodion perthnasol hefyd â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM), asiantaeth i'r MoJ, mewn perthynas â gwaith a ddarparwyd gan GLlTEM ar ran yr LAA.

Yn ogystal â hyn, cafodd yr LAA nifer o drafodion ag adrannau Llywodraeth a chyrff Llywodraeth ganolog eraill. Roedd y rhai mwyaf o'r trafodion hyn gyda Chyllid a Thollau EM a PCSPS.

Yn ystod 2014-15, nid yw unrhyw Aelodau o'r Bwrdd na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion â'r LAA.

## Nodyn 21 - Asedau trydydd parti

Mae cyfanswm yr asedau trydydd parti sy'n cael eu dal gan yr LAA wedi'i grynhoi isod:

| | 31 Mawrth 2014 | Mewnlifau Gros | All-lifau Gros | **31 Mawrth 2015** |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| Asedau ariannol fel balansau banc ac arian mewn cyfrifon cadw | 18,832 | 31,271 | (29,007) | **21,096** |

Mae cyfanswm yr asedau trydydd parti yn cynnwys y canlynol:

### Iawndal

Mae'r LAA yn dal dyfarndaliadau iawndal ar ran cleientiaid a gafodd gymorth ariannol (gweler nodyn 1k).

| | 31 Mawrth 2014 | Mewnlifau Gros | All-lifau Gros | **31 Mawrth 2015** |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| Asedau ariannol fel balansau banc ac arian mewn cyfrifon cadw | 9,677 | 11,920 | (12,519) | **9,078** |

Mae'r LAA yn derbyn dyfarndaliadau am iawndal wrth ddisgwyl am setlo'r achos yn derfynol ac am y cyfraniadau ariannol gan gleientiaid at gostau cyfreithiol. Yr asedau a ddelir ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw arian buddsoddi ar y cyd ac arian parod ac arian mewn cyfrifon cadw mewn cymdeithasau adeiladu fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2015** | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Arian parod | **9,078** | 3,442 |
| Arian buddsoddi ar y cyd | **-** | 6,235 |
| | **9,078** | 9,677 |

## Prawf Moddion Llys y Goron

Mae'r LAA yn dal cyfraniadau o dan Brawf Moddion Llys y Goron (gweler nodyn 1k).

| | 31 Mawrth 2014 | Mewnlifau Gros | All-lifau Gros | **31 Mawrth 2015** |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| Asedau ariannol fel balansau banc ac arian mewn cyfrifon cadw | 9,155 | 19,351 | (16,488) | **12,018** |

Mae'r LAA yn derbyn cyfraniadau at gostau wrth ddisgwyl am y dyfarniad terfynol ac am gyfrifo cyfanswm costau'r achos. Canlyniad yr achos fydd yn pennu a fydd ased y trydydd parti yn trosglwyddo i'r Gronfa neu'n cael ei ddychwelyd i'r trydydd parti. Yr asedau a ddelir ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw arian parod fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2015** | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Arian parod | **12,018** | 9,155 |

## Nodyn 22 - Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events after the Reporting Period', mae digwyddiadau'n cael eu hystyried hyd at y dyddiad y rhoddir caniatâd i gyhoeddi'r datganiadau ariannol, a'r dehongliad o hyn yw'r dyddiad ar Dystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau dilynol i'w cofnodi.

ISBN 978-1-4741-2055-5